



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 1609 (Cy. 335)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau
Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

Cymeradywyd gan Senedd Cymru

Gwnaed *am 5.45 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020*

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 10.00 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) a (4)

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2020 No. 1609 (W. 335)

PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection (Coronavirus Restrictions)
(No. 5) (Wales) Regulations 2020

Approved in Senedd Cymru

Made *at 5.45 p.m. on 18 December 2020*

Laid before Senedd Cymru *at 10.00 p.m. on 18 December 2020*

Coming into force in accordance with regulation 1(3) and (4)

£30.75



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-11934-3



9 780348 119343



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2020 Rhif 1609 (Cy. 335)

2020 No. 1609 (W. 335)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRUS**

PUBLIC HEALTH, WALES

Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) 2020

The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
Regulations 2020

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion a chyfyngiadau ar unigolion, busnesau ac eraill.

Mae 9 Rhan i'r Rheoliadau.

Mae **Rhan 1** yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 21 Rhagfyr 2020 (ac eithrio Rhan 6 sy'n dod i rym ar 23 Rhagfyr 2020) ac yn dod i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth 2021. Mae hefyd yn darparu bod rhaid adolygu'r Rheoliadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir yn parhau i fod yn gymesur.

Mae **Rhan 2** yn gosod cyfyngiadau ar bobl yn ymgynnull, ar bobl yn teithio ac ar ddefnyddio mangreoedd busnesau neu wasanaethau penodedig sydd fel arfer ar agor i'r cyhoedd. Mae Rhan 2 yn rhoi 4 lefel wahanol o gyfyngiadau yn eu lle a all fod yn gymwys gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Mae'r lefel sy'n gymwys yn seiliedig ar yr hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yw'r ymateb priodol a chymesur i fynychder a lledaeniad y coronafeirws.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales. The Regulations impose requirements and restrictions on individuals, businesses and others.

There are 9 Parts to the Regulations.

Part 1 provides that these Regulations come into force on 21 December 2020 (other than Part 6 which comes into force on 23 December 2020) and expire at the end of the day on 31 March 2021. It also provides that the Regulations must be reviewed regularly to ensure that the restrictions and requirements imposed remain proportionate.

Part 2 imposes restrictions on people gathering, on people travelling and on the use of premises of specified businesses or services that are ordinarily open to the public. Part 2 puts 4 different levels of restrictions in place that can apply depending on the circumstances. Which level applies is based on what the Welsh Ministers consider to be the appropriate and proportionate response to the incidence and spread of coronavirus.

Mae Atodlen 1 yn nodi'r lefel isaf – sef cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 1**; mae Atodlen 2 yn nodi cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 2**; mae Atodlen 3 yn nodi cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 3** ac mae Atodlen 4 yn nodi'r lefel uchaf – sef cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 4** (lle y mae cyfyngiadau caeth ar bobl yn ymgynnull ac yn teithio, a lle y mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o fangreoedd gau). Mae Atodlen 5 yn nodi pa lefel rhybudd sy'n gymwys i ardal. Ar adeg gwneud y Rheoliadau mae'r un lefel rhybudd yn gymwys ledled Cymru, ond gellid diwygio'r Rheoliadau i gymhwyso lefelau rhybudd gwahanol ar sail ranbarthol neu leol (yn ogystal â diwygio lefel y rhybudd ar gyfer Cymru gyfan).

Mae nifer o'r cyfyngiadau yn cyfeirio at y cysyniad o "aelwyd estynedig". Mae hyn yn galluogi mwy nag un aelwyd i gytuno i ddod at ei gilydd at ddibenion y rheolau drwy ffurfio aelwyd estynedig fwy. Yn ogystal, mae darpariaethau ar wahân sy'n caniatáu i aelwyd un oedolyn (person sy'n byw ar ei ben ei hun neu gyda phlentyn neu oedolyn y mae'n gofalu amdano yn unig) gytuno i ddod at ei gilydd gydag aelwyd arall at y dibenion hyn. Mae'r trefniadau hyn yn gyfyngedig i'r aelwydydd hynny yn unig a rhaid i'r holl oedolion ar bob aelwyd sy'n ffurfio aelwyd estynedig gytuno iddynt.

Ceir crynodeb o'r cyfyngiadau sy'n gymwys ar bob lefel rhybudd isod. Mae'r holl gyfyngiadau yn ddarostyngedig i eithriadau a restrir yn y Rheoliadau.

Pan fydd cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 1** yn gymwys i ardal:

- dim ond rhwng hyd at 6 o bobl, neu fwy os yw pawb sy'n bresennol yn aelodau o'r un aelwyd neu'n aelodau o aelwyd estynedig sy'n cynnwys hyd at 3 aelwyd ac aelwyd un oedolyn, y caniateir cynulliaidau o dan do yng nghartrefi pobl;
- mae cynulliaidau o dan do (i ffwrdd o gartrefi pobl) wedi eu cyfyngu i 6 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed) neu i aelodau o 1 aelwyd os yw'r nifer yn fwy na hynny;
- mae cynulliaidau yn yr awyr agored (gan gynnwys yng ngerddi pobl) wedi eu cyfyngu i 30 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed) neu i aelodau o 1 aelwyd neu o aelwyd estynedig os yw'r nifer yn fwy na hynny;
- mae rheolau gwahanol yn gymwys i gynulliaidau ar gyfer gweithgareddau a drefnir yn ffurfiol, sy'n caniatáu i ragor o bobl (hyd at 50 o bobl o dan do a hyd at 100 o bobl yn yr awyr agored) ddod at ei gilydd;

Schedule 1 sets out the lowest level – **Alert Level 1** – restrictions; Schedule 2 sets out **Alert Level 2** restrictions; Schedule 3 sets out **Alert Level 3** restrictions and Schedule 4 the highest level – **Alert Level 4** – restrictions (under which there are strict limitations on people gathering and travelling, and most premises are required to close). Schedule 5 sets out which alert level applies to an area. At the time of making the Regulations the same alert level applies across the whole of Wales, but the Regulations can be amended to apply different alert levels on a regional or local basis (as well as amending the alert level for the whole of Wales).

A number of the restrictions refer to the concept of an "extended household". This enables more than one household to agree to come together for the purposes of the rules by forming a larger, extended, household. In addition there are separate provisions that allow a single adult household (a person who lives alone or only with a child or adult they care for) to agree to come together for these purposes with another household. These arrangements are exclusive and must be agreed to by all of the adults in each household that forms an extended household.

A summary of the restrictions that apply at each alert level is provided below. All restrictions are subject to exceptions listed in the Regulations.

When **Alert Level 1** restrictions apply to an area:

- gatherings indoors in people's homes are allowed only between up to 6 people, or more if all present are members of the same household or an extended household consisting of up to 3 households and a single adult household;
- gatherings indoors (away from people's homes) are limited to 6 people (not including children under 11) or the members of 1 household if higher;
- gatherings outdoors (including in people's gardens) are limited to 30 people (not including children under 11) or the members of 1 household or an extended household if higher;
- different rules apply to gathering for activities that are formally organised, allowing more people (up to 50 indoors and up to 100 outdoors) to come together;

- fel eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol ar drefnu digwyddiadau, caniateir digwyddiadau sy'n golygu bod hyd at 50 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg o dan do, neu 100 o bobl yn yr awyr agored;
- mae'n bosibl y caniateir digwyddiadau ar raddfa fwy hefyd, ond dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru;
- caniateir teithio o fewn ardal Lefel 1 ac i unrhyw ardal Lefel 1 arall neu unrhyw ardaloedd Lefel 2 ac ohonynt, ond ni chaniateir teithio o ardal Lefel 1 i unrhyw ardal o Gymru sydd ar Lefel 3 neu 4 nac i unrhyw ardaloedd mewn mannau eraill yn y DU lle y ceir llawer o achosion o'r coronafeirws;
- yn yr un modd, ni chaniateir teithio o ardal Lefel 3 neu 4, nac o unrhyw ardaloedd mewn mannau eraill yn y DU lle y ceir llawer o achosion o'r coronafeirws, i ardal Lefel 1;
- caiff bron pob mangre busnes sydd ar agor i'r cyhoedd fel arfer barhau i fod ar agor ond ni chaiff mangre oedd sydd wedi eu trwyddedu i werthu alcohol wneud hynny ar ôl 10.00 p.m. a rhaid iddynt gau yn ddim hwyrach na 10.20 p.m.
- as an exception to the general prohibition on organising events, events involving up to 50 people in attendance at any one time indoors, or 100 people outdoors, are allowed;
- larger scale events may also be allowed but only with the consent of the Welsh Ministers;
- travelling is allowed within a Level 1 area and to and from another Level 1 area or any Level 2 areas, but travelling from a Level 1 area to any area of Wales which is at Level 3 or 4, or to any areas of high incidence of coronavirus elsewhere in the UK, is not allowed;
- similarly travelling from a Level 3 or 4 area, or from any areas of high incidence of coronavirus elsewhere in the UK, to a Level 1 area is not allowed;
- nearly all business premises that are ordinarily open to the public may continue to be open but premises licensed to sell alcohol may not do so after 10.00 p.m. and must close no later than 10.20 p.m.

Pan fydd cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 2** yn gymwys i ardal:

- dim ond rhwng aelodau o aelwyd estynedig sy'n cynnwys hyd at 2 aelwyd ac aelwyd un oedolyn, y caniateir cynullïadau o dan do yng nghartrefi pobl;
- mae cynullïadau o dan do (i ffwrdd o gartrefi pobl) wedi eu cyfyngu i 4 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed) neu'r aelodau o 1 aelwyd os yw'r nifer yn fwy na hynny;
- mae cynullïadau yn yr awyr agored (gan gynnwys yng ngerddi pobl) wedi eu cyfyngu i 4 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed) neu'r aelodau o 1 aelwyd neu o aelwyd estynedig os yw'r nifer yn fwy na hynny;
- mae rheolau gwahanol yn gymwys i gynullïadau ar gyfer gweithgareddau a drefnir yn ffurfiol, sy'n caniatáu i ragor o bobl (hyd at 15 o bobl o dan do a hyd at 30 o bobl yn yr awyr agored) ddod at ei gilydd;
- fel eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol ar drefnu digwyddiadau, caniateir digwyddiadau sy'n golygu bod hyd at 15 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg o dan do, neu 30 o bobl yn yr awyr agored;
- gatherings indoors in people's homes are allowed only between members of an extended household consisting of up to 2 households and a single adult household;
- gatherings indoors (away from people's homes) are limited to 4 people (not including children under 11) or the members of 1 household if higher;
- gatherings outdoors (including in people's gardens) are limited to 4 people (not including children under 11) or the members of 1 household or an extended household if higher;
- different rules apply to gathering for activities that are formally organised, allowing more people (up to 15 indoors and up to 30 outdoors) to come together;
- as an exception to the general prohibition on organising events, events involving up to 15 people in attendance at any one time indoors, or 30 people outdoors, are allowed;

When **Alert Level 2** restrictions apply to an area:

- mae'n bosibl y caniateir digwyddiadau ar raddfa fwy hefyd, ond dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru;
- caniateir teithio o fewn ardal Lefel 2 ac i unrhyw ardal Lefel 2 arall neu unrhyw ardaloedd Lefel 1 ac ohonynt, ond ni chaniateir teithio o ardal Lefel 2 i unrhyw ardal o Gymru sydd ar Lefel 3 neu 4, nac i unrhyw ardaloedd mewn mannau eraill yn y DU lle y ceir llawer o achosion o'r coronafeirws;
- yn yr un modd, ni chaniateir teithio o ardal Lefel 3 neu 4, nac o unrhyw ardaloedd mewn mannau eraill yn y DU lle y ceir llawer o achosion o'r coronafeirws, i ardal Lefel 2;
- caiff bron pob mangre sydd ar agor i'r cyhoedd fel arfer barhau i fod ar agor ond ni chaiff mangreoedd sydd wedi eu trwyddedu i werthu alcohol ond gwneud hynny gyda phryd o fwyd ac ni chaniateir gwerthu alcohol ar ôl 10.00 p.m. (a rhaid cau yn ddim hwyrach na 10.20 p.m.).
- larger scale events may also be allowed but only with the consent of the Welsh Ministers;
- travelling is allowed within a Level 2 area and to and from another Level 2 area or any Level 1 areas, but travelling from a Level 2 area to any area of Wales which is at Level 3 or 4, or to any areas of high incidence of coronavirus elsewhere in the UK, is not allowed;
- similarly travelling from a Level 3 or 4 area, or from any areas of high incidence of coronavirus elsewhere in the UK, to a Level 2 area is not allowed;
- nearly all business premises that are ordinarily open to the public may continue to be open but premises licensed to sell alcohol may only serve alcohol with meals and may not serve alcohol after 10.00 p.m. (closing no later than 10.20 p.m.).

Pan fydd cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 3** yn gymwys i ardal:

- dim ond rhwng aelodau o aelwyd estynedig sy'n cynnwys hyd at 2 aelwyd ac aelwyd un oedolyn y caniateir cynullïadau yng nghartrefi pobl (o dan do ac yn yr awyr agored);
- mae cynullïadau o dan do (i ffwrdd o gartrefi pobl), neu yn yr awyr agored mewn mangreoedd rheoleiddiedig, wedi eu cyfyngu i 4 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed) neu'r aelodau o 1 aelwyd os yw'r nifer yn fwy na hynny;
- mae cynullïadau yn yr awyr agored (i ffwrdd o gartrefi pobl) neu mewn mangreoedd rheoleiddiedig wedi eu cyfyngu i 4 o bobl (heb gynnwys plant o dan 11 oed) neu'r aelodau o 1 aelwyd neu o aelwyd estynedig os yw'r nifer yn fwy na hynny;
- mae rheolau gwahanol yn gymwys i gynullïadau ar gyfer gweithgareddau a drefnir yn ffurfiol, sy'n caniatáu i ragor o bobl (hyd at 15 o bobl o dan do a hyd at 30 o bobl yn yr awyr agored) ddod at ei gilydd;
- fel eithriad i'r gwaharddiad cyffredinol ar drefnu digwyddiadau, caniateir digwyddiadau sy'n golygu bod hyd at 15 o bobl yn bresennol ar unrhyw adeg o dan do, neu 30 o bobl yn yr awyr agored;
- gatherings in people's homes (indoors and outdoors) are allowed only between members of an extended household consisting of up to 2 households and a single adult household;
- gatherings indoors (away from people's homes), or outdoors in regulated premises, are limited to 4 people (not including children under 11) or the members of 1 household if higher;
- gatherings outdoors (away from people's homes or regulated premises) are limited to 4 people (not including children under 11) or the members of 1 household or an extended household if higher;
- different rules apply to gathering for activities that are formally organised, allowing more people (up to 15 indoors and up to 30 outdoors) to come together;
- as an exception to the general prohibition on organising events, events involving up to 15 people in attendance at any one time indoors, or 30 people outdoors, are allowed;

When **Alert Level 3** restrictions apply to an area:

- caniateir teithio o fewn ardal Lefel 3 ond ni chaniateir teithio o ardal Lefel 3 i unrhyw ardal arall o Gymru, nac i unrhyw ardaloedd mewn mannau eraill yn y DU lle y ceir llawer o achosion o'r coronafeirws;
- yn yr un modd, ni chaniateir teithio o ardal Lefel 1, 2 neu 4, nac o unrhyw ardaloedd mewn mannau eraill yn y DU lle y ceir llawer o achosion o'r coronafeirws, i ardal Lefel 3;
- caiff y rhan fwyaf o fangreoddd sydd ar agor i'r cyhoedd fel arfer barhau i fod ar agor ond rhaid i fangreoddd a ddefnyddir ar gyfer adloniant neu letygarwch naill ai fod ar gau neu cânt agor tan 6.00 p.m. yn unig – ac ni chaiff mangreoddd sydd wedi eu trwyddedu i werthu alcohol werthu alcohol i'w yfed yn y fangre.
- travelling is allowed within a Level 3 area but travelling from a Level 3 area to any other area of Wales, or to any areas of high incidence of coronavirus elsewhere in the UK, is not allowed;
- similarly travelling from a Level 1, 2 or 4 area, or from any areas of high incidence of coronavirus elsewhere in the UK, to a Level 3 area is not allowed;
- most premises that are ordinarily open to the public may continue to be open but premises used for entertainment or hospitality must either be closed or may open until 6.00 p.m. only – and premises licensed to sell alcohol may not sell alcohol for consumption on the premises.

Pan fydd cyfyngiadau **Lefel Rhybudd 4** yn gymwys i ardal:

- mae gofyniad cyffredinol i aros gartref os ydych yn byw yn yr ardal a pheidio â theithio i'r ardal os ydych yn byw y tu allan iddi;
- mae'n ofynnol cau'r rhan fwyaf o fangreoddd sydd ar agor i'r cyhoedd fel arfer.

Mae'r gallu i bobl ddod at ei gilydd ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir yn ffurfiol, ac i fangreoddd fod ar agor i'r cyhoedd, yn ddarostyngedig i'r angen i gymryd "pob mesur rhesymol" i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu (gweler Rhan 5).

Mae cysylltiad agos rhwng y cyfyngiadau ar ddigwyddiadau a'r cyfyngiadau ar gynulliadau gan y gallai pobl sy'n mynychu digwyddiad hefyd fod yn ymgynnull gydag eraill. Caiff digwyddiad ei ddiffinio yn eang (yn rheoliad 57(4)) fel unrhyw achlysur sydd wedi ei gynllunio neu ei amserlennu at ddiben penodol lle y mae pobl yn yr un man at y diben hwnnw (pa un a ydynt hefyd yn ymgynnull ai peidio).

Fel eithriad i'r system hon, mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth benodol sy'n addasu'r cyfyngiadau sy'n ymwneud ag aelwydydd estynedig (a theithio i gwrdd ag aelodau o aelwyd estynedig) am y cyfnod rhwng 23 a 27 Rhagfyr 2020 (gyda diwrnod ychwanegol yn cael ei ganiatáu cyn ac ar ôl y cyfnod hwn yn achos personau sy'n teithio o Ogledd Iwerddon ac i Ogledd Iwerddon).

Mae **Rhannau 3 i 6** yn gosod cyfyngiadau a gofynion pellach sy'n gymwys yn gyffredinol o dan bob amgylchiad.

When **Alert Level 4** restrictions apply to an area:

- there is an overarching requirement to stay at home if you live in the area and not to travel to the area if you live outside;
- most premises ordinarily open to the public are required to be closed.

The ability to come together for events and formally organised activities, and for premises to be open to the public, is subject to the need to take all "reasonable measures" to minimise the spread of, and exposure to, the coronavirus (see Part 5).

The restrictions on events are closely associated with the restrictions on gathering as people attending an event may also be gathering with others. An event is widely defined (in regulation 57(4)) as any occasion planned or scheduled for a particular purpose at which people are at the same place for that purpose (regardless of whether they are also gathering).

As an exception to this system, Schedule 6 makes specific provision modifying the restrictions relating to extended households (and travelling to meet members of an extended household) for the period between 23 and 27 December 2020 (with an additional day allowed before and after this period in the case of persons travelling from and to Northern Ireland).

Parts 3 to 6 impose further restrictions and requirements which generally apply in all circumstances.

Mae **Rhan 3** yn gosod gofynion ar bobl sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws a'u cysylltiadau agos. Mae rheoliadau 6 a 7 yn darparu na chaiff oedolion na phlant sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws ymadael â'r man lle y maent yn byw am 10 niwrnod (ac eithrio o dan yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer gan reoliad 10). Mae rheoliadau 8 a 9 yn darparu na chaiff pobl sydd wedi cael "cysylltiad agos" â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws ymadael â'r man lle y maent yn byw am 10 niwrnod (ac eithrio o dan yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer gan reoliad 10). Mae'r cyfnod ynysu o 10 niwrnod yn dechrau naill ai'r diwrnod ar ôl i berson gael canlyniad positif, y diwrnod ar ôl y diwrnod y mae person yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y profodd y symptomau gyntaf neu'r diwrnod ar ôl i berson gael cysylltiad agos. Mae rheoliad 11 yn darparu eithriad i'r gofyniad i ynysu os yw pobl yn profi'n negyddol yn rheolaidd yn unol â chynllun profi ffurfiol. Mae rheoliad 12 yn ymwneud â rhwymedigaethau oedolion mewn cysylltiad â phlant y mae'n ofynnol iddynt ynysu, mae rheoliad 13 yn galluogi i hysbysiadau a roddir o dan y Rhan hon gan swyddogion olrhain cysylltiadau gael eu tynnu'n ôl ac mae rheoliad 14 yn gwneud darpariaeth ynghylch defnyddio'r wybodaeth a ddelir gan swyddogion olrhain cysylltiadau.

Mae **Rhan 4** yn gwneud darpariaeth at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoeedd sydd ar agor i'r cyhoedd ac mewn gweithleoedd. Mae rheoliad 16 yn gymwys i "mangreoeedd rheoleiddiedig" ac mae'n ei gwneud yn ofynnol: (1) i bob mesur rhesymol gael ei gymryd i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau yn y fangre; (2) i bob mesur rhesymol arall gael ei gymryd, er enghraifft i gyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb agos a chynnal hylendid; a (3) i wybodaeth gael ei darparu i'r rheini sy'n mynd i fangre neu sy'n gweithio mewn mangre ynghylch sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae hefyd yn pennu y gall peidio â chynnal gweithgaredd, cau rhan o fangre, caniatáu i staff ynysu a chasglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth y rheini sydd yn y fangre fod yn fesurau rhesymol.

Mae **Rhan 5** yn darparu bod rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys mewn tacsis, ac mewn mannau penodol o dan do, yn ddarostyngedig i esemptiadau ac eithriadau a restrir.

Mae **Rhan 6** yn darparu ar gyfer amgylchiadau pan fo rhaid i ysgolion fod ar agor pan fyddant ar gau fel arall i ganiatáu i blant gweithwyr hanfodol neu blant sy'n agored i niwed fynychu.

Part 3 imposes requirements on people who have tested positive for coronavirus and their close contacts. Regulations 6 and 7 provide that adults and children who have tested positive for coronavirus must not leave the place they are living for 10 days (except in the circumstances provided for by regulation 10). Regulations 8 and 9 provide that people who have had "close contact" with someone who has tested positive for coronavirus must not leave the place they are living for 10 days (except in the circumstances provided for by regulation 10). The 10 day period of isolation begins either the day after a person tests positive, the day after the day which a person reports as the day they first experience symptoms or the day after a person has close contact. Regulation 11 provides an exception to the requirement to isolate if people test negative regularly in accordance with a formal scheme of testing. Regulation 12 relates to obligations of adults in respect of children required to isolate, regulation 13 enables notices given under this Part by contact tracers to be withdrawn and regulation 14 makes provision about the use of information held by contact tracers.

Part 4 makes provision for the purpose of minimising risk of exposure to coronavirus in premises open to the public and in workplaces. Regulation 16 applies to "regulated premises" and requires: (1) all reasonable measures to be taken to ensure that a distance of 2 metres is maintained between persons on the premises; (2) all other reasonable measures to be taken, for example to limit close face to face interaction and maintain hygiene; and (3) information to be provided to those entering or working at premises about how to minimise risk of exposure to coronavirus. It also specifies that not carrying out an activity, closing part of premises, allowing staff to isolate and collecting contact information from those on the premises may be reasonable measures.

Part 5 provides that face coverings must be worn on public transport, including taxis, and in certain indoor places, subject to listed exemptions and exceptions.

Part 6 provides for circumstances in which schools may be required to be open when they may otherwise be closed to allow children of critical workers or children who are vulnerable to attend.

Mae **Rhan 7** yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion. Mae rheoliad 25 yn gwneud darpariaeth ynghylch y rheini a gaiff gymryd camau gorfodi, mae rheoliad 26 yn gwneud darpariaeth bellach (yn Atodlenni 8 a 9) ynghylch gorfodi'r angen i gymryd camau ataliol o dan reoliad 16, mae rheoliad 27 yn ymwneud â hysbysiadau cydymffurfio, ac mae rheoliad 28 yn ymwneud â phwerau symud a gwasgaru. Mae rheoliadau 29 i 32 yn ymwneud yn benodol â gorfodi'r gofynion mewn perthynas â theithio, ynysu, digwyddiadau a gwisgo gorchudd wyneb ac mae rheoliad 33 yn ymwneud â chymhwyso'r gofynion i blant. Mae rheoliad 34 yn cynnwys pŵer i fynd i fangre, mae rheoliad 35 yn ymwneud â phwerau'r heddlu i gynnal archwiliadau ffyrdd ac mae rheoliad 36 yn gwneud darpariaeth atodol ynghylch arfer pwerau drwy bwerau gorfodi.

Mae **Rhan 8** yn gwneud darpariaeth ynghylch troseddau a chosbau. Mae rheoliadau 37 i 43 ym Mhennod 1 yn darparu bod person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri'r cyfyngiadau neu'r gofynion y cyfeirir atynt yn cyflawni trosedd. Mae trosedd i'w chosbi drwy ddirwy ddiderfyn (rheoliad 44). Mae Pennod 2 yn caniatáu i droseddau gael eu cosbi drwy hysbysiadau cosb benodedig ac yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y cânt eu cymhwyso ac mae Pennod 3 yn ymwneud ag achosion am droseddau o dan y Rheoliadau.

Mae **Rhan 9** yn cynnwys termau wedi eu diffinio (rheoliad 57), yn dirymu Rheoliadau blaenorol ac yn gwneud diwygiad canlyniadol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 7 relates to the enforcement of the restrictions and requirements. Regulation 25 makes provision about those who can take enforcement action, regulation 26 makes further provision (in Schedules 8 and 9) about enforcing the need to take preventative measures under regulation 16, regulation 27 relates to compliance notices, and regulation 28 to powers of removal and dispersal. Regulations 29 to 32 relate specifically to enforcing the requirements in relation to travelling, isolation, events, and wearing a face covering; and regulation 33 relates to the requirements' application to children. Regulation 34 contains a power to enter premises, regulation 35 relates to police powers to conduct road checks and regulation 36 makes supplemental provision about the exercise of powers by enforcement powers.

Part 8 makes provision about offences and penalties. Regulations 37 to 43 in Chapter 1 provide that a person who, without a reasonable excuse, contravenes the restrictions or requirements referred to commits an offence. An offence is punishable by an unlimited fine (regulation 44). Chapter 2 allows for offences to be punished by way of fixed penalty notices and makes provision about how they are applied and Chapter 3 relates to proceedings for offences under the Regulations.

Part 9 contains defined terms (regulation 57), revokes previous Regulations and makes a consequential amendment.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2020 Rhif 1609 (Cy. 335)

2020 No. 1609 (W. 335)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) 2020**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
Regulations 2020**

Cymeradywyd gan Senedd Cymru

Approved in Senedd Cymru

Gwnaed am 5.45 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020

Made at 5.45 p.m. on 18 December 2020

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 10.00 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020*

*Laid before Senedd
Cymru at 10.00 p.m. on 18 December 2020*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3) a (4)

*Coming into force in accordance with
regulation 1(3) and (4)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3), 45F(2) and 45P of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

Cyflwyniad, adolygu a dod i ben

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio Rhan 6, i rym ar 21 Rhagfyr 2020.

(4) Daw Rhan 6 i rym ar 23 Rhagfyr 2020.

Adolygu

2. Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, a pha un a yw'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

- (a) erbyn 7 Ionawr 2021;
- (b) o leiaf unwaith yn y cyfnod rhwng 8 Ionawr 2021 a 28 Ionawr 2021;
- (c) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

Dod i ben

3. Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth 2021.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

PART 1

Introduction, review and expiry

Title, application and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations, other than Part 6, come into force on 21 December 2020.

(4) Part 6 comes into force on 23 December 2020.

Review

2. The Welsh Ministers must review the need for the restrictions and requirements imposed by these Regulations, and whether those restrictions and requirements are proportionate to what the Welsh Ministers seek to achieve by them—

- (a) by 7 January 2021;
- (b) at least once in the period from 8 January 2021 to 28 January 2021;
- (c) at least once in each subsequent period of 21 days.

Expiry

3. These Regulations expire at the end of the day on 31 March 2021.

RHAN 2

Lefelau o gyfyngiadau ar ymgynnull, ar deithio ac ar ddefnyddio mangroedd busnesau a gwasanaethau

Lefelau o gyfyngiadau

4.—(1) Mae Atodlenni 1 i 4 yn nodi cyfyngiadau a gofynion a all fod yn gymwys mewn ardal mewn perthynas ag—

- (a) cynulliadau;
- (b) trefnu digwyddiadau;
- (c) teithio i ardaloedd eraill ac o ardaloedd eraill;
- (d) defnyddio mangroedd busnesau neu wasanaethau penodedig sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd.

(2) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 1.

(3) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 2 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 2.

(4) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 3 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3.

(5) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 4 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 4.

(6) Mae Atodlen 5 yn nodi pa un o Atodlenni 1 i 4 sy'n gymwys i ardal drwy bennu lefel ar gyfer yr ardal honno.

(7) Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth dros dro sy'n addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n ymwneud â phersonau yn ymgynnull ac yn teithio dros gyfnod y Nadolig.

(8) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) “ardal Lefel Rhybudd 1” yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 1;
- (b) “ardal Lefel Rhybudd 2” yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 2;
- (c) “ardal Lefel Rhybudd 3” yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 3;
- (d) “ardal Lefel Rhybudd 4” yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 4.

PART 2

Levels of restrictions on gathering, travelling, and on use of premises of businesses and services

Levels of restrictions

4.—(1) Schedules 1 to 4 set out restrictions and requirements that may apply in an area in relation to—

- (a) gatherings;
- (b) organising events;
- (c) travelling to and from other areas;
- (d) the use of premises of specified businesses or services that are ordinarily open to the public.

(2) The restrictions and requirements set out in Schedule 1 apply in relation to an Alert Level 1 area.

(3) The restrictions and requirements set out in Schedule 2 apply in relation to an Alert Level 2 area.

(4) The restrictions and requirements set out in Schedule 3 apply in relation to an Alert Level 3 area.

(5) The restrictions and requirements set out in Schedule 4 apply in relation to an Alert Level 4 area.

(6) Schedule 5 sets out which one of Schedules 1 to 4 apply to an area by specifying a level for that area.

(7) Schedule 6 makes temporary provision modifying the restrictions and requirements relating to persons gathering and travelling over the Christmas period.

(8) In these Regulations—

- (a) an “Alert Level 1 area” is an area specified in the table in Schedule 5, where the table indicates it is an Alert Level 1 area;
- (b) an “Alert Level 2 area” is an area specified in the table in Schedule 5, where the table indicates it is an Alert Level 2 area;
- (c) an “Alert Level 3 area” is an area specified in the table in Schedule 5, where the table indicates it is an Alert Level 3 area;
- (d) an “Alert Level 4 area” is an area specified in the table in Schedule 5, where the table indicates it is an Alert Level 4 area.

RHAN 3

Gofyniad i ynysu etc.

PENNOD 1

Gofyniad i ynysu etc. pan fo person yn cael canlyniad positif am y coronafeirws neu wedi dod i gysylltiad agos â pherson o'r fath

Dehongli'r Rhan

5.—(1) Yn y Rhan hon, ystyr “cysylltiad agos” yw cysylltiad y mae swyddog olrhain cysylltiadau yn ystyried y gall arwain at risg o haint neu halogiad â'r coronafeirws, gan gynnwys—

- (a) dod i gysylltiad wyneb yn wyneb â pherson o bellter o lai nag 1 metr;
- (b) treulio mwy na 15 munud o fewn 2 fetr i berson;
- (c) teithio mewn car neu gerbyd bach arall gyda pherson neu'n agos i berson ar awyren neu yn yr un cerbyd mewn trên.

(2) Yn rheoliadau 6 ac 8, mae cyfeiriadau at “oedolyn” (“O”) yn cynnwys cyfeiriadau at blentyn sy'n 16 neu'n 17 oed.

(3) At ddibenion y Rhan hon, mae gan berson gyfrifoldeb dros blentyn os oes gan y person—

- (a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu
- (b) cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw hysbysiad drwy ap ffôn clyfar Covid 19 y GIG a ddatblygir ac a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysiad.

Gofyniad i ynysu: oedolyn â'r coronafeirws

6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn (“O”) fod O wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

(2) Ni chaiff O ymadael â'r man lle y mae O yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad O oni bai bod rheoliad 10 neu 11 yn gymwys.

(3) Os yw swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn am hynny, rhaid i O hysbysu'r swyddog—

- (a) am enw pob person sy'n byw yn y man lle y mae O yn byw, a
- (b) am gyfeiriad y man hwnnw.

PART 3

Requirement to isolate etc.

CHAPTER 1

Requirement to isolate etc. where person tests positive for coronavirus or has close contact with such person

Interpretation of Part

5.—(1) In this Part, “close contact” means contact that a contact tracer considers may lead to a risk of infection or contamination with coronavirus, including—

- (a) having face-to-face contact with a person at a distance of less than 1 metre;
- (b) spending more than 15 minutes within 2 metres of a person;
- (c) travelling in a car or other small vehicle with a person or in close proximity to a person on an aeroplane or in the same carriage of a train.

(2) In regulations 6 and 8, references to an “adult” (“A”) include references to a child aged 16 or 17.

(3) For the purposes of this Part, a person has responsibility for a child if the person has—

- (a) custody or charge of the child for the time being, or
- (b) parental responsibility for the child.

(4) For the purposes of these Regulations, notification by means of the NHS Covid 19 smartphone app developed and operated by the Secretary of State is not a notification.

Requirement to isolate: adult with coronavirus

6.—(1) This regulation applies where an adult (“A”) is notified by a contact tracer that A has tested positive for coronavirus.

(2) A may not leave or be outside the place where A is living before the end of the last day of A's isolation unless regulation 10 or 11 applies.

(3) If requested by a contact tracer, A must notify the contact tracer—

- (a) of the name of each person living at the place A is living, and
- (b) of the address of that place.

(4) Diwrnod olaf ynysiad O yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod y prawf a arweiniodd at roi'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond pan fo O yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd symptomau gyntaf, diwrnod olaf ynysiad O yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae O yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd y symptomau gyntaf.

Gofyniad i ynysu: plentyn â'r coronafeirws

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn ("O") fod plentyn ("P") y mae O yn gyfrifol amdano wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

(2) Ni chaiff P ymadael â'r man lle y mae P yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P oni bai bod rheoliad 10 neu 11 yn gymwys.

(3) Os yw swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn am hynny, rhaid i O hysbysu'r swyddog—

- (a) am enw pob person sy'n byw yn y man lle y mae P yn byw, a
- (b) am gyfeiriad y man hwnnw.

(4) Diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod y prawf a arweiniodd at roi'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond mewn achos pan fo O yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd P symptomau gyntaf, diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae O yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd P symptomau gyntaf.

Gofyniad i ynysu ar ôl cysylltiad agos: oedolyn

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn ("O") fod O wedi dod i gysylltiad agos â pherson ("C") sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

(2) Ni chaiff O ymadael â'r man lle y mae O yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad O oni bai bod rheoliad 10 neu 11 yn gymwys.

(3) Os gofynnir iddo gan swyddog olrhain cysylltiadau, rhaid i O hysbysu'r swyddog am gyfeiriad y man lle y mae O yn byw.

(4) The last day of A's isolation is the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day of the test which led to the notification referred to in paragraph (1) being given.

(5) But where A reports to a contact tracer the day on which symptoms first developed, the last day of A's isolation is the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day which A reports as being the day on which the symptoms first developed.

Requirement to isolate: child with coronavirus

7.—(1) This regulation applies where an adult ("A") is notified by a contact tracer that a child ("C") for whom A is a responsible adult has tested positive for coronavirus.

(2) C may not leave or be outside the place where C is living before the end of the last day of C's isolation unless regulation 10 or 11 applies.

(3) If requested by a contact tracer, A must notify the contact tracer—

- (a) of the name of each person living at the place where C is living, and
- (b) of the address of that place.

(4) The last day of C's isolation is the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day of the test which led to the notification referred to in paragraph (1) being given.

(5) But in a case where A reports to a contact tracer the day on which C's symptoms first developed, the last day of C's isolation is the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day which A reports as being the day on which C's symptoms first developed.

Requirement to isolate after close contact: adult

8.—(1) This regulation applies where an adult ("A") is notified by a contact tracer that A has had close contact with a person ("P") who has tested positive for coronavirus.

(2) A may not leave or be outside the place where A is living before the end of the last day of A's isolation unless regulation 10 or 11 applies.

(3) If requested by a contact tracer, A must notify the contact tracer of the address of the place where A is living.

(4) Diwrnod olaf ynysiad O yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae swyddog olrhain cysylltiadau yn ei gofnodi fel y diwrnod olaf y daeth O i gysylltiad agos ag C cyn i O gael yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond pan fo O yn byw yn yr un man ag C, diwrnod olaf ynysiad O yw—

- (a) pan fo C, neu, pan fo C yn blentyn, oedolyn cyfrifol ("OC") ar ran C, yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf, diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae C, neu OC, yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf;
- (b) pan na roddir gwybod am unrhyw symptomau, diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y prawf a arweiniodd at roi'r hysbysiad i C, neu OC, fod C wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

Gofyniad i ynysu ar ôl cysylltiad agos: plentyn

9.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau yn hysbysu oedolyn ("O") fod plentyn ("P") y mae O yn gyfrifol amdano wedi dod i gysylltiad agos â pherson ("C") sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

(2) Ni chaiff P ymadael â'r man lle y mae P yn byw, neu fod y tu allan i'r man hwnnw, cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P oni bai bod rheoliad 10 neu 11 yn gymwys.

(3) Os gofynnir iddo gan swyddog olrhain cysylltiadau, rhaid i O hysbysu'r swyddog am gyfeiriad y man lle y mae P yn byw.

(4) Diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae swyddog olrhain cysylltiadau yn ei gofnodi fel y diwrnod olaf y daeth P i gysylltiad agos ag C cyn i O gael yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1).

(5) Ond pan fo P yn byw yn yr un man ag C, diwrnod olaf ynysiad P yw—

- (a) pan fo C, neu, pan fo C yn blentyn, oedolyn cyfrifol ("OC") ar ran C, yn rhoi gwybod i swyddog olrhain cysylltiadau y diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf, diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae C, neu OC, yn rhoi gwybod mai dyna'r diwrnod y datblygodd C symptomau gyntaf, neu

(4) The last day of A's isolation is the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day which a contact tracer records as being the last day on which A had close contact with P before A received the notification referred to in paragraph (1).

(5) But where A is living in the same place as P, the last day of A's isolation is—

- (a) where P, or, where P is a child, a responsible adult ("R") on P's behalf, reports to a contact tracer the day on which P's symptoms first developed, the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day on which P, or R, reports as being the day on which P's symptoms first developed;
- (b) where no symptoms are reported, the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day of the test which led to the notification being given to P, or R, that P had tested positive for coronavirus.

Requirement to isolate after close contact: child

9.—(1) This regulation applies where an adult ("A") is notified by a contact tracer that a child ("C") for whom A is responsible has had close contact with a person ("P") who has tested positive for coronavirus.

(2) C may not leave or be outside the place where C is living before the end of the last day of C's isolation unless regulation 10 or 11 applies.

(3) If requested by a contact tracer, A must notify the contact tracer of the address of the place where C is living.

(4) The last day of C's isolation is the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day which a contact tracer records as being the last day on which C had close contact with P before A received the notification referred to in paragraph (1).

(5) But where C is living in the same place as P, the last day of C's isolation is—

- (a) where P, or, where P is a child, a responsible adult ("R") on P's behalf, reports to a contact tracer the day on which P's symptoms first developed, the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day on which P, or R, reports as being the day on which P's symptoms first developed, or

- (b) pan na roddir gwybod am unrhyw symptomau, diwrnod olaf y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl diwrnod y prawf a arweiniodd at roi'r hysbysiad i C, neu OC, fod C wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws.

- (b) where no symptoms are reported, the last day of the period of 10 days beginning with the day after the day of the test which led to the notification being given to P, or R, that P had tested positive for coronavirus.

Gofynion ynysu: eithriadau cyffredinol

10.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo'n ofynnol i berson beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw, neu fod y tu allan iddo, yn rhinwedd rheoliad 6(2), 7(2), 8(2) neu 9(2).

(2) Caiff y person ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw a bod y tu allan iddo am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol i—

- (a) ceisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen hyn ar frys neu ar gais ymarferydd meddygol cofrestredig;
- (b) cael gafael ar wasanaethau milfeddygol—
 - (i) pan fo eu hangen ar frys, a
 - (ii) pan na fo'n bosibl i berson arall yn y man lle y mae'r person yn byw gael gafael ar y gwasanaethau hynny;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol, pan na fo'n bosibl nac yn ymarferol gwneud hynny heb ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw;
- (d) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (e) am resymau tosturiol, gan gynnwys mynd i angladd—
 - (i) aelod o'r teulu;
 - (ii) ffrind agos;
- (f) cael angenrheidiau sylfaenol (gan gynnwys ar gyfer personau eraill yn y man lle y mae'r person yn byw neu unrhyw anifeiliaid anwes yn y man hwnnw) pan na fo'n bosibl nac yn ymarferol—
 - (i) i berson arall yn y man lle y mae'r person yn byw eu cael, neu
 - (ii) eu cael drwy eu danfon i'r man hwnnw gan drydydd parti;
- (g) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau i ddioddefwyr)—
 - (i) pan fo cael gafael ar y gwasanaeth yn hanfodol i lesiant y person, a
 - (ii) pan na fo'r gwasanaeth yn gallu cael ei ddarparu os yw'r person yn aros yn y man lle y mae'r person yn byw;

Isolation requirements: general exceptions

10.—(1) Paragraph (2) applies where a person is required to not leave or be outside of the place where the person is living by virtue of regulation 6(2), 7(2), 8(2) or 9(2).

(2) The person may leave and be outside the place where the person is living for as long as is necessary—

- (a) to seek medical assistance, where this is required urgently or on the advice of a registered medical practitioner;
- (b) to access veterinary services where—
 - (i) they are urgently required, and
 - (ii) it is not possible for another person at the place that the person is living to access those services;
- (c) to fulfil a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings, where it is not possible or practicable to do so without leaving the place where the person is living;
- (d) to avoid illness, injury or other risk of harm;
- (e) for compassionate reasons, including to attend the funeral of—
 - (i) a family member;
 - (ii) a close friend;
- (f) to obtain basic necessities (including for other persons at the place where the person is living or any pets at that place) where it is not possible or practicable—
 - (i) for another person at the place where the person is living to obtain them, or
 - (ii) to obtain them by delivery to that place from a third party;
- (g) to access public services (including social services or victims' services) where—
 - (i) access to the service is critical to the person's well-being, and
 - (ii) the service cannot be provided if the person remains at the place where the person is living;

- (h) symud i fan gwahanol i fyw pan fo'n mynd yn anymarferol aros yn y man lle y mae'r person yn byw;
- (i) pan fo'r person yn blentyn nad yw'n byw ar yr un aelwyd â rhieni'r plentyn, neu un o rieni'r plentyn, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld y plentyn a rhieni'r plentyn, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion yr is-baragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, neu sy'n gofalu amdano.

(3) Nid yw rheoliadau 6(2), 7(2), 8(2) a 9(2) yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

(4) Nid yw rheoliad 6(2) yn gymwys i berson—

- (a) sydd wedi cael canlyniad positif am y coronafeirws yn ystod astudiaeth ymchwil (y "prawf blaenorol"), a
- (b) sy'n cael canlyniad positif am y coronafeirws yn ystod yr un astudiaeth o fewn y cyfnod o 90 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad y prawf blaenorol.

Gofynion ynysu: eithriad ar gyfer y rheini sy'n cymryd rhan mewn cynllun profi

11.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan—

- (a) bo'n ofynnol i berson ("P") beidio ag ymadael â'r man lle y mae P yn byw neu fod y tu allan i'r man hwnnw yn rhinwedd rheoliad 8(2) neu 9(2) ("y gofyniad ynysu"), a
- (b) bo P yn cytuno i gymryd rhan mewn cynllun profi.

(2) Os yw prawf cyntaf P o dan y cynllun profi yn negatiff am y coronafeirws, mae'r gofyniad ynysu yn peidio â bod yn gymwys i P o'r adeg y mae P yn cael canlyniad y prawf, yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4).

(3) Os yw canlyniad prawf a gymerir gan P o dan y cynllun profi yn positif am y coronafeirws, mae'r gofyniad ynysu yn gymwys i P o'r adeg y mae P yn cael canlyniad y prawf fel pe na bai wedi peidio â bod yn gymwys yn rhinwedd y paragraff (2).

(4) Er gwaethaf paragraff (2), mae'r gofyniad ynysu yn gymwys i P ar—

- (a) diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau prawf;
- (b) unrhyw ddiwrnod y mae'n ofynnol i P gymryd prawf o dan y cynllun ond y mae'n methu â gwneud hynny.

- (h) to move to a different place to live where it becomes impracticable to remain at the place where the person is living;
- (i) where the person is a child who does not live in the same household as the child's parents, or one of the child's parents, to continue existing arrangements for access to, and contact between, the child and the child's parents, and for the purposes of this subparagraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child.

(3) Regulations 6(2), 7(2), 8(2) and 9(2) do not apply to a person who is homeless.

(4) Regulation 6(2) does not apply to a person who—

- (a) has tested positive for coronavirus in the course of a research study (the "prior test"), and
- (b) tests positive for coronavirus in the course of the same study within the period of 90 days beginning with the date of the prior test.

Isolation requirements: exception for participants in a testing scheme

11.—(1) This regulation applies where—

- (a) a person ("P") is required to not leave or be outside of the place where P is living by virtue of regulation 8(2) or 9(2) ("the isolation requirement"), and
- (b) P agrees to participate in a testing scheme.

(2) If P's first test under the testing scheme is negative for coronavirus, the isolation requirement ceases to apply to P from the time P receives the result of the test, subject to paragraphs (3) and (4).

(3) If the result of a test taken by P under the testing scheme is positive for coronavirus, the isolation requirement applies to P from the time P receives the result of the test as if it had not ceased to apply by virtue of paragraph (2).

(4) Despite paragraph (2) the isolation requirement applies to P on—

- (a) non-test days;
- (b) any day on which P is required to take a test under the scheme but fails to do so.

(5) Os yw P yn cael canlyniad negatiff am y coronafeirws yn ei prawf olaf o dan y cynllun profi, mae'r gofyniad ynysu yn peidio â bod yn gymwys i P o'r cynharaf o—

- (a) yr adeg y mae P yn cael canlyniad y prawf, neu
- (b) diwrnod olaf ynysiad P a gyfrifir yn unol â rheoliad 8 neu 9 yn ôl y digwydd.

(6) Pan fo P yn blentyn—

- (a) rhaid i berson a chanddo gyfrifoldeb dros P gytuno ar ran P fod P i gymryd rhan mewn cynllun profi;
- (b) mae'r cyfeiriadau ym mharagraffau (2) a (5)(a) at P yn cael canlyniad prawf yn cynnwys cyfeiriadau at berson a chanddo gyfrifoldeb dros P yn cael y canlyniad.

(7) Yn y rheoliad hwn—

- (a) ystyr "cynllun profi" yw cynllun sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru y mae'n ofynnol odano i P gymryd nifer o brofion am y coronafeirws a bennir yn y cynllun, ar ddyddiadau ac mewn modd a bennir felly;
- (b) ystyr "diwrnod nad yw'n ddiwrnod prawf" yw diwrnod, rhwng y diwrnod y mae P yn cymryd y prawf cyntaf a'r prawf olaf o dan y cynllun, nad yw'n ofynnol i P gymryd prawf o dan y cynllun.

Gofyniad ar bersonau a chanddynt gyfrifoldeb dros blant

12. Pan fo gofyniad wedi ei osod ar blentyn o dan reoliad 7(2) neu 9(2), rhaid i berson a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn cydymffurfio â'r gofyniad.

Tynnu'n ôl hysbysiad sy'n gwneud ynysu yn ofynnol

13.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog olrhain cysylltiadau—

- (a) wedi rhoi hysbysiad o dan reoliad 6(1), 7(1), 8(1) neu 9(1) ("yr hysbysiad gwreiddiol"), ond
- (b) yn hysbysu derbynnydd yr hysbysiad gwreiddiol wedi hynny fod yr hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl.

(2) Mae'r hysbysiad gwreiddiol i'w drin fel pe na bai wedi ei roi.

(5) If P's last test under the testing scheme is negative for coronavirus, the isolation requirement ceases to apply to P from the earlier of—

- (a) the time P receives the result of the test, or
- (b) P's last day of isolation calculated in accordance with regulation 8 or 9 as the case may be.

(6) Where P is a child—

- (a) a person with responsibility for P must agree on P's behalf that P is to participate in a testing scheme;
- (b) the references in paragraphs (2) and (5)(a) to P receiving the result of a test include references to a person with responsibility for P receiving the result.

(7) In this regulation—

- (a) "testing scheme" means a scheme designated by the Welsh Ministers under which P is required to take a number of tests for coronavirus specified in the scheme, on dates and in a manner so specified;
- (b) "non-test day" means a day between the day on which P takes the first and last test under the scheme on which P is not required to take a test under the scheme.

Requirement on persons with responsibility for children

12. Where a requirement is imposed under regulation 7(2) or 9(2) on a child, a person with responsibility for the child must take all reasonable measures to ensure that the child complies with the requirement.

Withdrawing a notice which requires isolation

13.—(1) This regulation applies where a contact tracer—

- (a) has given a notification under regulation 6(1), 7(1), 8(1) or 9(1) ("the original notification"), but
- (b) subsequently notifies the recipient of the original notification that it is withdrawn.

(2) The original notification is treated as if it had not been given.

Pŵer i ddefnyddio a datgelu gwybodaeth

14.—(1) Ni chaiff swyddog olrhain cysylltiadau ond datgelu gwybodaeth berthnasol i berson (“deiliad yr wybodaeth”) y mae’n angenrheidiol i ddeiliad yr wybodaeth ei chael—

- (a) at ddibenion—
 - (i) cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn,
 - (ii) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad â’r coronafeirws, neu
 - (iii) monitro lledaeniad haint neu halogiad â’r coronafeirws, neu
- (b) at ddiben sy’n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu sydd fel arall â chysylltiad â’r diben hwnnw.

(2) Gwybodaeth berthnasol yw—

- (a) pan fo’n ofynnol i berson ynysu yn unol â rheoliad 6(2), 7(2), 8(2) neu 9(2)—
 - (i) gwybodaeth gyswllt a dyddiad geni’r person, neu, pan fo’r person yn blentyn, manylion cyswllt yr oedolyn a hysbysir ei bod yn ofynnol i’r plentyn ynysu a dyddiad geni’r plentyn;
 - (ii) y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad o dan reoliad 6(1), 7(1), 8(1) neu 9(1);
 - (iii) y cyfnod penodol y mae’n ofynnol i’r person beidio ag ymadael â’r man lle y mae’r person yn byw neu fod y tu allan iddo mewn cysylltiad ag ef, wedi ei gyfrifo yn unol â rheoliad 6, 7, 8 neu 9;
- (b) cadarnhad na chafodd person ganlyniad positif am y coronafeirws ac enw, gwybodaeth gyswllt a dyddiad geni’r person, neu, pan fo’r person yn blentyn, enw a manylion cyswllt oedolyn a chanddo gyfrifoldeb dros y plentyn yn ogystal ag enw a dyddiad geni’r plentyn.

(3) Ni chaiff deiliad yr wybodaeth ddefnyddio gwybodaeth berthnasol a ddatgelir o dan baragraff (1) ond i’r graddau y bo hynny’n angenrheidiol—

- (a) at ddibenion—
 - (i) cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn,

Power to use and disclose information

14.—(1) A contact tracer may disclose only such relevant information to a person (“the information holder”) as is necessary for the information holder to have—

- (a) for the purposes of—
 - (i) carrying out a function under these Regulations,
 - (ii) preventing danger to the health of the public as a result of the spread of infection or contamination with coronavirus, or
 - (iii) monitoring the spread of infection or contamination with coronavirus, or
- (b) for a purpose connected with, or otherwise incidental to, a purpose described in subparagraph (a).

(2) Relevant information is—

- (a) where a person is required to isolate in accordance with regulation 6(2), 7(2), 8(2) or 9(2)—
 - (i) the person’s contact information and date of birth, or, where the person is a child, the contact details of the adult who is notified that the child is required to isolate and the child’s date of birth;
 - (ii) the date the notification was given under regulation 6(1), 7(1), 8(1) or 9(1);
 - (iii) the particular period in respect of which the person is required to not leave or be outside of the place where the person is living calculated in accordance with regulation 6, 7, 8 or 9;
- (b) confirmation a person did not receive a positive coronavirus test and the person’s name, contact information and date of birth, or, where the person is a child, the name and contact details of an adult with responsibility for the child in addition to the child’s name and date of birth.

(3) The information holder may use relevant information disclosed under paragraph (1) only to the extent that it is necessary—

- (a) for the purposes of—
 - (i) carrying out a function under these Regulations,

(ii) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu

(iii) monitro lledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu

(b) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir ym is-baragraff (a) neu sydd fel arall â chysylltiad â'r diben hwnnw.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), ni chaiff deiliad yr wybodaeth ond datgelu hynny o wybodaeth berthnasol i berson arall (y "derbynnydd") y mae'n angenrheidiol i'r derbynnydd ei chael—

(a) at ddibenion—

(i) cyflawni un o swyddogaethau'r derbynnydd o dan y Rheoliadau hyn,

(ii) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu

(iii) monitro lledaeniad haint neu halogiad â'r coronafeirws, neu

(b) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu sydd fel arall â chysylltiad â'r diben hwnnw.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), nid yw datgeliad sydd wedi ei awdurdodi gan y rheoliad hwn yn torri—

(a) rhwymedigaeth o safbwynt cyfrinachedd sy'n ddyledus gan y person sy'n gwneud y datgeliad, na

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y'i gorfodir).

(6) Nid yw'r rheoliad hwn yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan ganiateir i wybodaeth gael ei datgelu fel arall o dan unrhyw ddeddfiad arall neu reol gyfreithiol.

(7) Nid oes unrhyw beth yn y rheoliad hwn yn awdurdodi defnyddio neu ddatgelu data personol pan fo gwneud hynny yn torri'r ddeddfwriaeth diogelu data.

(8) Yn y rheoliad hwn, mae i "deddfwriaeth diogelu data" a "data personol" yr un ystyrion â "data protection legislation" a "personal data" yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018(1).

(ii) preventing danger to the health of the public as a result of the spread of infection or contamination with coronavirus, or

(iii) monitoring the spread of infection or contamination with coronavirus, or

(b) for a purpose connected with, or otherwise incidental to, a purpose described in subparagraph (a).

(4) Subject to paragraph (6), the information holder may disclose only such relevant information to another person (the "recipient") as is necessary for the recipient to have—

(a) for the purposes of—

(i) carrying out a function of the recipient under these Regulations,

(ii) preventing danger to the health of the public as a result of the spread of infection or contamination with coronavirus, or

(iii) monitoring the spread of infection or contamination with coronavirus, or

(b) for a purpose connected with, or otherwise incidental to, a purpose described in subparagraph (a).

(5) Subject to paragraph (7), disclosure which is authorised by this regulation does not breach—

(a) an obligation of confidence owed by the person making the disclosure, or

(b) any other restriction on the disclosure of information (however imposed).

(6) This regulation does not limit the circumstances in which information may otherwise be disclosed under any other enactment or rule of law.

(7) Nothing in this regulation authorises the use or disclosure of personal data where doing so contravenes the data protection legislation.

(8) In this regulation, "data protection legislation" and "personal data" have the same meanings as in section 3 of the Data Protection Act 2018(1).

(1) 2018 p. 12.

(1) 2018 c. 12.

RHAN 4

Cymryd mesurau ataliol mewn mangreoedd rheoleiddiedig

Mangreoedd rheoleiddiedig a phersonau cyfrifol

15.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, y canlynol yw “mangreoedd rheoleiddiedig”—

- (a) mangreoedd busnesau neu wasanaethau a restrir yn Atodlen 7, i'r graddau y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt neu y caniateir i'r cyhoedd gael fynediad iddynt;
- (b) cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus;
- (c) mangre arall lle y mae gwaith yn cael ei wneud.

(2) Yn y Rhan hon, ystyr “person cyfrifol”, mewn perthynas â mangre reoleiddiedig, yw—

- (a) mewn perthynas â mangre y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(a) a (b), y person sy'n gyfrifol am y fangre,
- (b) mewn perthynas â mangre y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(c), y person sy'n gyfrifol am y gwaith sy'n cael ei wneud yn y fangre.

Gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws

16.—(1) At ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre reoleiddiedig, neu ledaenu'r coronafeirws gan y rheini sydd wedi bod mewn mangre reoleiddiedig, rhaid i'r person cyfrifol—

- (a) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—
 - (i) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person sy'n cael cynhorthwy gan y gofalwr);
 - (ii) pan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i'r fangre, y cynhelir pellter o 2 fetr rhyngddynt (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person sy'n cael cynhorthwy gan y gofalwr),
- (b) cymryd pob mesur rhesymol arall at y diben hwnnw, er enghraifft mesur sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac yn cynnal hylendid megis—
 - (i) newid trefn mangre gan gynnwys lleoliad dodrefn a gweithfannau;
 - (ii) rheoli'r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau;

PART 4

Taking preventative measures in regulated premises

Regulated premises and responsible persons

15.—(1) For the purposes of these Regulations, the following are “regulated premises”—

- (a) premises of businesses or services listed in Schedule 7, to the extent that that the public have or are permitted access to the premises;
- (b) a vehicle used to provide a public transport service;
- (c) other premises where work is being carried out.

(2) In this Part, “responsible person”, in relation to regulated premises, means—

- (a) in relation to premises referred to in paragraph (1)(a) and (b), the person responsible for the premises,
- (b) in relation to premises referred to in paragraph (1)(c), the person responsible for the work being carried out on the premises.

Requirement to take all reasonable measures to minimise the risk of exposure to coronavirus

16.—(1) For the purposes of minimising the risk of exposure to coronavirus at regulated premises, or the spread of coronavirus by those who have been at regulated premises, the responsible person must—

- (a) take all reasonable measures to ensure—
 - (i) that a distance of 2 metres is maintained between any persons on the premises (except between members of the same household or a carer and the person assisted by the carer);
 - (ii) where persons are required to wait to enter the premises, that a distance of 2 metres is maintained between them (except between members of the same household or a carer and the person assisted by the carer),
- (b) take all other reasonable measures for that purpose, for example measures which limit close face-to-face interaction and maintain hygiene such as—
 - (i) changing the layout of premises including the location of furniture and workstations;
 - (ii) controlling use of entrances, passageways, stairs and lifts;

- (iii) rheoli'r defnydd o gyfleusterau a rennir megis toiledau a cheginau;
 - (iv) fel arall, rheoli'r defnydd o unrhyw ran arall o'r fangre neu fynediad iddi;
 - (v) gosod rhwystrau neu sgriniau;
 - (vi) darparu, neu'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio, cyfarpar diogelu personol, ac
- (c) darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n mynd i'r fangre neu'n gweithio ynddi ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(2) Mae mesurau y gellir eu cymryd o dan baragraff (1) hefyd yn cynnwys—

- (a) peidio â gwneud gweithgareddau penodol;
- (b) cau rhan o'r fangre;
- (c) caniatáu i berson sydd fel arfer yn gweithio yn y fangre ynysu, a'i alluogi i wneud hynny, oherwydd profi'n bositif am y coronafeirws neu am ei fod wedi dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif, am gyfnod—
 - (i) a argymhellir mewn canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru;
 - (ii) a bennir mewn hysbysiad a roddir i'r person gan swyddog olrhain cysylltiadau;
- (d) casglu gwybodaeth gyswllt oddi wrth bob person yn y fangre a'i chadw am 21 o ddiwrnodau at ddiben ei darparu i unrhyw un o'r canlynol, ar eu cais neu ar ei gais—
 - (i) Gweinidogion Cymru;
 - (ii) swyddog olrhain cysylltiadau;
- (e) cymryd mesurau rhesymol i sicrhau bod gwybodaeth gyswllt o'r fath yn gywir.

Mesurau penodol sy'n gymwys i fangroedd trwyddedig

17.—(1) Pan fo rheoliad 16(1) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, rhaid gwerthu neu gyflenwi bwyd neu ddiodydd i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre yn unol â'r mesurau rhesymol a bennir ym mharagraff (2) (yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4)).

(2) Y mesurau rhesymol yw—

- (a) bod rhaid bod person yn rheoli mynediad i'r fangre ac yn dyrannu cyfnod amser cyfyngedig y caiff cwsmeriaid aros yn y fangre ar ei gyfer;

- (iii) controlling use of shared facilities such as toilets and kitchens;
 - (iv) otherwise controlling the use of, or access to, any other part of the premises;
 - (v) installing barriers or screens;
 - (vi) providing or requiring use of personal protective equipment, and
- (c) provide information to those entering or working at the premises about how to minimise the risk of exposure to coronavirus.

(2) Measures that may be taken under paragraph (1) also include—

- (a) not carrying out certain activities;
- (b) closing a part of the premises;
- (c) allowing and enabling a person who ordinarily works at the premises to isolate due to testing positive for coronavirus or having had close contact with somebody who has tested positive, for a period—
 - (i) recommended in guidance published by the Welsh Ministers;
 - (ii) specified in a notification given to the person by a contact tracer;
- (d) collecting contact information from each person at the premises and retaining it for 21 days for the purpose of providing it to any of the following, upon their request—
 - (i) the Welsh Ministers;
 - (ii) a contact tracer;
- (e) taking reasonable measures to ensure that such contact information is correct.

Specific measures applicable to licensed premises

17.—(1) Where regulation 16(1) applies to a person responsible for premises authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises, the sale or supply of food or drink for consumption on the premises must be carried out in accordance with the reasonable measures specified in paragraph (2) (subject to paragraphs (3) and (4)).

(2) The reasonable measures are that—

- (a) there must be a person controlling entry to the premises and allocating a limited time period during which customers may stay in the premises;

- (b) bod rhaid i gwsmeriaid fod yn eistedd yn y fangre yn unrhyw le ac eithrio wrth far—
 - (i) pan fyddant yn archebu bwyd neu ddiod,
 - (ii) pan weinir bwyd neu ddiod iddynt, a
 - (iii) pan fyddant yn bwyta neu'n yfed.

(3) Ond pan fo bwyd yn cael ei ddarparu yn y fangre ar sail bwffe, caiff cwsmeriaid ddewis bwyd o'r bwffe a dychwelyd i'r man lle y maent yn eistedd.

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i—

- (a) ffreuturau yn y gweithle, neu
- (b) mangreoddedd mewn sefydliad addysgol.

(5) At ddibenion paragraff (1)—

- (a) nid yw bwyd neu ddiod a werthir mewn llety gwyliau neu lety teithio fel rhan o wasanaeth ystafell i'w drin neu i'w thrin fel pe bai'n cael ei werthu i'w fwyta yn y fangre neu ei gwerthu i'w hyfed yn y fangre;
- (b) mae bwyd neu ddiod a werthir i'w fwyta neu i'w hyfed mewn ardal sy'n gyfagos i'r fangre lle y mae seddi yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid i'w drin neu i'w thrin fel pe bai'n cael ei werthu i'w fwyta yn y fangre neu ei gwerthu i'w hyfed yn y fangre.

(6) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae paragraffau (1) i (4) yn gymwys i'r fangre honno fel y maent yn gymwys i fangreoddedd sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

Canllawiau ynghylch cymryd mesurau rhesymol

18.—(1) Rhaid i berson y mae'n ofynnol iddo gymryd mesurau rhesymol o dan reoliad 16(1) neu 17(1) roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y mesurau hynny.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1), a
- (b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).

(3) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy'n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).

(4) Mae canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan—

- (b) customers must be seated in the premises anywhere other than at a bar—
 - (i) when ordering food or drink,
 - (ii) when being served with food or drink, and
 - (iii) when consuming food or drink.

(3) But where food is provided at the premises on a buffet basis, customers may select food from the buffet and return to where they are seated.

(4) Paragraph (2) does not apply to—

- (a) workplace canteens, or
- (b) premises in an educational establishment.

(5) For the purposes of paragraph (1)—

- (a) food or drink sold in holiday or travel accommodation as part of room service is not to be treated as being sold for consumption on the premises;
- (b) food or drink sold for consumption in an area adjacent to the premises where seating is made available for customers is to be treated as being sold for consumption on the premises.

(6) Where regulated premises not authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises allow customers to consume their own alcohol on the premises, paragraphs (1) to (4) apply to those premises as they apply to premises that are authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises.

Guidance about taking reasonable measures

18.—(1) A person required to take reasonable measures under regulation 16(1) or 17(1) must have regard to guidance issued by the Welsh Ministers about those measures.

(2) The Welsh Ministers—

- (a) may revise guidance issued under paragraph (1), and
- (b) must publish the guidance (and any revisions).

(3) Guidance under this regulation may incorporate (by reference or transposition) guidance, codes of practice or other documents published by another person (for example, a trade association, body representing members of an industry or a trade union).

(4) Guidance issued by the Welsh Ministers under—

- (a) paragraff (1) o reoliad 20 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020(1), neu
- (b) paragraff (1) o reoliad 24 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020(2),

i'w trin fel pe baent yn ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn.

- (a) paragraph (1) of regulation 20 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020(1), or
- (b) paragraph (1) of regulation 24 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020(2),

is to be treated as if it were guidance issued under paragraph (1) of this regulation.

RHAN 5

Gorchuddion wyneb

Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus

19.—(1) Rhaid i berson (“P”) sy’n teithio fel teithiwr mewn cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus wisgo gorchudd wyneb.

(2) Ond nid yw hyn yn ofynnol—

- (a) pan fo esemptiad yn gymwys o dan baragraff (3);
- (b) pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, ac o ran hynny gweler paragraff (4).

(3) Mae esemptiad i'r gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn gymwys—

- (a) pan fo P yn blentyn o dan 11 oed;
- (b) mewn cerbyd sy'n darparu gwasanaeth cludiant i'r ysgol;
- (c) ar fferi—
 - (i) pan fo'r rhan o'r fferi sydd ar agor i deithwyr yn yr awyr agored yn gyfan gwbl, neu
 - (ii) pan ellir cynnal pellter o 2 fetr o leiaf rhwng personau ar y rhan o'r fferi sydd ar agor i deithwyr;
- (d) ar long fordeithio;
- (e) pan ddyrennir caban, man cysgu neu lety tebyg arall i P yn y cerbyd, ar unrhyw adeg pan yw P yn y llety hwnnw—
 - (i) ar ei ben ei hunan, neu
 - (ii) gydag aelodau o aelwyd P neu ofalwr i aelod o'r aelwyd yn unig;
- (f) pan—

PART 5

Face coverings

Requirement to wear face covering on public transport

19.—(1) A person (“P”) who is travelling as a passenger on a vehicle used to provide a public transport service must wear a face covering.

(2) But this is not required—

- (a) where an exemption applies under paragraph (3);
- (b) where P has a reasonable excuse not to wear a face covering, as to which see paragraph (4).

(3) An exemption to the requirement to wear a face covering applies—

- (a) where P is a child under the age of 11;
- (b) on a vehicle providing a school transport service;
- (c) on a ferry where—
 - (i) the part of the ferry which is open to passengers is entirely outdoors, or
 - (ii) a distance of at least 2 metres can be maintained between persons on the part of the ferry which is open to passengers;
- (d) on a cruise ship;
- (e) where P is allocated a cabin, berth or other similar accommodation on the vehicle, at any time when P is in that accommodation—
 - (i) alone, or
 - (ii) only with members of P's household or a member of the household's carer;
- (f) where—

(1) O.S. 2020/1149 (Cy. 261).

(2) O.S. 2020/1219 (Cy. 276), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1409 (Cy. 311), O.S. 2020/1477 (Cy. 316) ac O.S. 2020/1522 (Cy. 326).

(1) S.I. 2020/1149 (W. 261).

(2) S.I. 2020/1219 (W. 276), as amended by S.I. 2020/1237 (W. 279), S.I. 2020/1288 (W. 286), S.I. 2020/1409 (W. 311), S.I. 2020/1477 (W. 316) and S.I. 2020/1522 (W. 326).

- (i) caniateir i P, neu pan fo'n ofynnol fel arfer i P, fynd i gerbyd ac aros ynddo wrth ddefnyddio'r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus,
- (ii) na fo'r cerbyd ei hunan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus, a
- (iii) bo P yn aros yn y cerbyd hwnnw;
- (g) ar gerbyd awyr na chychwynnodd o fan yng Nghymru, ac nad yw i lanio mewn man yng Nghymru;
- (h) ar lestr nad yw'n docio mewn porthladd yng Nghymru.

(4) Mae'r amgylchiadau pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb yn cynnwys—

- (a) pan na fo P yn gallu rhoi gorchudd am ei wyneb, neu wisgo neu dynnu gorchudd wyneb, oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i "disability" yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(1));
- (b) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn cyfathrebu â pherson sy'n cael anhawster i gyfathrebu (mewn perthynas â llferydd, iaith neu fel arall);
- (c) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, neu'r risg o niwed neu anaf, i P neu i eraill;
- (d) pan fo P yn teithio i osgoi anaf, neu i ddianc rhag risg o niwed, ac nad oes gan P orchudd wyneb;
- (e) pan fo P yn gorfod tynnu'r gorchudd wyneb i—
 - (i) cymryd meddyginiaeth;
 - (ii) bwyta neu yfed, os caniateir gwneud hyn yn y cerbyd a bod hynny'n rhesymol angenrheidiol (er enghraifft oherwydd hyd y daith);
- (f) pan ofynnir i P dynnu'r gorchudd wyneb gan—
 - (i) swyddog gorfodaeth, neu
 - (ii) gweithredwr y gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus, cyflogai i'r gweithredwr neu berson sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr.

- (i) P is permitted, or ordinarily required, to board and to stay in a vehicle when using the public transport service,
- (ii) the vehicle is not itself used for the provision of a public transport service, and
- (iii) P stays in that vehicle;
- (g) on an aircraft which neither took off from, nor is to land at, a place in Wales;
- (h) on a vessel which does not dock at a port in Wales.

(4) The circumstances in which P has a reasonable excuse to not wear a face covering include—

- (a) where P is unable to put on, wear or remove a face covering because of a physical or mental illness or impairment, or a disability (within the meaning of section 6 of the Equality Act 2010(1));
- (b) where P has to remove the face covering to communicate with a person who has difficulty communicating (in relation to speech, language or otherwise);
- (c) where P has to remove the face covering in order to avoid harm or injury, or the risk of harm or injury, to P or others;
- (d) where P is travelling to avoid injury, or to escape a risk of harm, and does not have a face covering;
- (e) where P has to remove the face covering to—
 - (i) take medication;
 - (ii) eat or drink, if this is allowed on the vehicle and is reasonably necessary (for example due to the length of the journey);
- (f) where P is asked to remove the face covering by—
 - (i) an enforcement officer, or
 - (ii) the operator of the public transport service, an employee of the operator or a person authorised by the operator.

(1) 2010 p. 15.

(1) 2010 c. 15.

(5) Rhaid i weithredwr gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus y mae paragraff (1) yn gymwys iddo ddarparu gwybodaeth i deithwyr am y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb yn ei gerbydau.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr “gwasanaeth cludiant i’r ysgol” yw unrhyw wasanaeth cludiant nad yw ond yn cael ei ddarparu at ddiben—

- (a) cludo person i’r ysgol ac o’r ysgol neu’r man arall y mae’r person yn cael addysg neu hyfforddiant ynddo, neu
- (b) hwyluso fel arall bresenoldeb person mewn ysgol neu fan arall y mae’r person yn cael addysg neu hyfforddiant ynddo.

Gofyniad i wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus penodol o dan do

20.—(1) Rhaid i berson (“P”) wisgo gorchudd wyneb yn ardaloedd cyhoeddus o dan do mangreoddedd y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt neu y caniateir i’r cyhoedd gael mynediad iddynt.

(2) Ond nid yw hyn yn ofynnol—

- (a) pan fo P yn blentyn o dan 11 oed;
- (b) pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb, ac o ran hynny gweler paragraff (3).

(3) Mae’r amgylchiadau pan fo gan P esgus rhesymol dros beidio â gwisgo gorchudd wyneb yn cynnwys—

- (a) pan na fo P yn gallu rhoi gorchudd am ei wyneb, neu wisgo neu dynnu gorchudd wyneb, oherwydd salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i “disability” yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010);
- (b) pan fo P yn ymgymryd â gweithgaredd ac y gellir ystyried fod gwisgo gorchudd wyneb yn ystod y gweithgaredd hwnnw yn peri risg i iechyd P;
- (c) pan fo P yn gorfod tynnu’r gorchudd wyneb er mwyn cyfathrebu â pherson sy’n cael anhawster i gyfathrebu (mewn perthynas â lleferydd, iaith neu fel arall);
- (d) pan fo P yn gorfod tynnu’r gorchudd wyneb er mwyn osgoi niwed neu anaf, neu’r risg o niwed neu anaf, i P neu i eraill;
- (e) pan fo P yn y fangre i osgoi anaf, neu i ddianc rhag risg o niwed, ac nad oes gan P orchudd wyneb;
- (f) pan fo P yn gorfod tynnu’r gorchudd wyneb i—
 - (i) cymryd meddyginiaeth;
 - (ii) bwyta neu yfed, pan fo’n rhesymol angenrheidiol;

(5) An operator of a public transport service to which paragraph (1) applies must provide information to passengers about the requirement to wear face coverings on their vehicles.

(6) For the purposes of this regulation a “school transport service” means any transport service provided solely for the purpose of—

- (a) carrying a person to and from the school or other place at which the person receives education or training, or
- (b) otherwise facilitating a person’s attendance at a school or other place at which the person receives education or training.

Requirement to wear face covering in certain indoor public places

20.—(1) A person (“P”) must wear a face covering in indoor public areas of premises to which the public have or are permitted access.

(2) But this is not required—

- (a) where P is a child under the age of 11;
- (b) where P has a reasonable excuse not to wear a face covering, as to which see paragraph (3).

(3) The circumstances in which P has a reasonable excuse to not wear a face covering include—

- (a) where P is unable to put on, wear or remove a face covering because of a physical or mental illness or impairment, or a disability (within the meaning of section 6 of the Equality Act 2010);
- (b) where P is undertaking an activity and wearing a face covering during that activity may be considered to be a risk to P’s health;
- (c) where P has to remove the face covering to communicate with a person who has difficulty communicating (in relation to speech, language or otherwise);
- (d) where P has to remove the face covering in order to avoid harm or injury, or the risk of harm or injury, to P or others;
- (e) where P is at the premises to avoid injury, or to escape a risk of harm, and does not have a face covering;
- (f) where P has to remove the face covering to—
 - (i) take medication;
 - (ii) eat or drink, where reasonably necessary;

- (g) pan ofynnir i P dynnu'r gorchudd wyneb gan swyddog gorfodaeth;
- (h) pan fo P yn eistedd mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y'i darperir fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre.

- (g) where P is asked to remove the face covering by an enforcement officer;
- (h) where P is seated in premises where food or drink is sold, or otherwise provided, for consumption on the premises.

Canllawiau ynghylch gofynion i wisgo gorchuddion wyneb

21.—(1) Rhaid i weithredwr gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus y mae rheoliad 19 yn gymwys iddo roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch—

- (a) y gofyniad i wisgo gorchudd wyneb yn unol â pharagraffau (1) i (4) o reoliad 19 a gorfodi'r gofyniad hwnnw o dan reoliad 32;
- (b) darparu gwybodaeth i deithwyr yn unol â pharagraff (5) o reoliad 19.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1), a
- (b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau).

(3) Caiff canllawiau o dan y rheoliad hwn gynnwys (drwy gyfeirio neu drosi) ganllawiau, codau ymarfer neu ddogfennau eraill a gyhoeddir gan berson arall (er enghraifft, cymdeithas fasnach, corff sy'n cynrychioli aelodau o ddiwydiant neu undeb llafur).

(4) Mae canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan—

- (a) paragraff (2) o reoliad 20 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, neu
- (b) paragraff (2) o reoliad 24 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020,

i'w trin fel pe baent yn ganllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn.

Guidance about requirements to wear face coverings

21.—(1) An operator of a public transport service to which regulation 19 applies must have regard to guidance issued by the Welsh Ministers about—

- (a) the requirement to wear a face covering in accordance with paragraphs (1) to (4) of regulation 19 and the enforcement of that requirement under regulation 32;
- (b) providing information to passengers in accordance with paragraph (5) of regulation 19.

(2) The Welsh Ministers—

- (a) may revise guidance issued under paragraph (1), and
- (b) must publish the guidance (and any revisions).

(3) Guidance under this regulation may incorporate (by reference or transposition) guidance, codes of practice or other documents published by another person (for example, a trade association, body representing members of an industry or a trade union).

(4) Guidance issued by the Welsh Ministers under—

- (a) paragraph (2) of regulation 20 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020, or
- (b) paragraph (2) of regulation 24 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020,

is to be treated as if it were guidance issued under paragraph (1) of this regulation.

RHAN 6

Darparu addysg mewn ysgol

Darparu addysg mewn ysgol i ddisgyblion penodol pan fo mangroedd ysgolion ar gau

22.—(1) Mae paragraff (3) yn gymwys mewn perthynas â disgybl perthnasol—

- (a) os yw mangre'r ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi ar gau i'r disgybl hwnnw am gyfnod o 3 diwrnod ysgol yn olynol o leiaf, a

PART 6

Provision of education in school

Provision of education in school to certain pupils when school premises are closed

22.—(1) Paragraph (3) applies in relation to a relevant pupil if—

- (a) the premises of the school at which the pupil is registered are closed to that pupil for a period of at least 3 consecutive school days, and

- (b) os yw'r cau mewn ymateb i fygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad y coronafeirws.

(2) At ddibenion paragraff (1), ystyr “disgybl perthnasol” yw disgybl cofrestredig—

- (a) y mae'r awdurdod lleol priodol sy'n cynnal yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi yn ystyried ei fod yn blentyn i weithiwr hanfodol, neu
- (b) y mae perchennog yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi yn ystyried y dylai'r disgybl fynd i'r ysgol oherwydd ei hylwyfedd.

(3) Rhaid i berchennog yr ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi wneud trefniadau i'r disgybl fynd i fangre ysgol at ddiben darparu addysg ar y trydydd diwrnod ysgol a phob diwrnod ysgol dilynol yn y cyfnod pan fydd mangre'r ysgol y mae'r disgybl wedi ei gofrestru ynddi ar gau.

(4) Ond nid yw paragraff (3) yn gymwys os, ar y diwrnod ysgol o dan sylw—

- (a) yw'n ofynnol i'r disgybl beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r disgybl yn byw neu beidio â bod y tu allan i'r man hwnnw yn rhinwedd rheoliad 6(2), 7(2), 8(2) neu 9(2), neu
- (b) os yw'r disgybl yn ynysu fel arall ar ôl—
 - (i) cael ei hysbysu drwy ap ffôn clyfar Covid 19 y GIG a ddatblygir ac a weithredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu
 - (ii) cael ei gynghori i wneud hynny gan berchennog yr ysgol lle y mae'r disgybl wedi ei gofrestru neu gan ddarparwr gofal plant.

(5) Wrth benderfynu, at ddibenion paragraff (1)(a), a yw mangre ysgol ar gau i ddisgybl, mae'r ffaith y gall y fangre honno fod ar agor yn rhinwedd paragraff (3) i'w diystyru.

(6) Wrth benderfynu a yw disgybl yn blentyn i weithiwr hanfodol, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch nodi plant gweithwyr hanfodol.

Methiant i gydymffurfio â rheoliad 22

23. Mae unrhyw fethiant gan berchennog i gydymffurfio â rheoliad 22 yn orfodadwy drwy gais am waharddeb gan Weinidogion Cymru neu gan yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol, heb rybudd.

- (b) the closure is a response to a threat to public health posed by the incidence and spread of coronavirus.

(2) For the purposes of paragraph (1), “relevant pupil” means a registered pupil—

- (a) who the local authority which maintains the school at which the pupil is registered considers is the child of a critical worker, or
- (b) who the proprietor of the school at which the pupil is registered considers should attend school by reason of the pupil's vulnerability.

(3) The proprietor of the school at which the pupil is registered must make arrangements for the pupil to attend the premises of a school for the purpose of the provision of education on the third and each subsequent school day of the period during which the premises of the school at which the pupil is registered are closed.

(4) But paragraph (3) does not apply if, on the school day in question—

- (a) the pupil is required to not leave or be outside of the place where the pupil is living by virtue of regulation 6(2), 7(2), 8(2) or 9(2), or
- (b) the pupil is otherwise isolating having been—
 - (i) notified by means of the NHS Covid 19 smartphone app developed and operated by the Secretary of State, or
 - (ii) advised to do so by the proprietor of the school at which the pupil is registered or by a childcare provider.

(5) In determining, for the purposes of paragraph (1)(a), whether the premises of a school are closed to a pupil, the fact that those premises may be open by virtue of paragraph (3) is to be disregarded.

(6) In deciding whether a pupil is the child of a critical worker, the local authority must have regard to any guidance published by the Welsh Ministers about identifying children of critical workers.

Failure to comply with regulation 22

23. Any failure by a proprietor to comply with regulation 22 is enforceable by an application for an injunction by the Welsh Ministers or the local authority which maintains the school to the High Court or County Court, without notice.

Dehongli'r Rhan hon

24. Yn y Rhan hon—

- (a) mae i “ysgol feithrin a gynhelir” yr ystyr a roddir i “maintained nursery school” gan adran 22(9) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(1);
- (b) mae i “ysgol a gynhelir” yr ystyr a roddir i “maintained school” gan adran 20(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;
- (c) mae i “perchennog” yr ystyr a roddir i “proprietor” gan adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996(2);
- (d) mae i “disgybl” yr un ystyr â “pupil” yn adran 3 o Ddeddf Addysg 1996;
- (e) mae i “uned cyfeirio disgyblion” yr ystyr a roddir i “pupil referral unit” gan adran 19(2) o Ddeddf Addysg 1996;
- (f) mae i “disgybl cofrestredig” yr ystyr a roddir i “registered pupil” gan adran 434(5) o Ddeddf Addysg 1996;
- (g) ystyr “ysgol” yw ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion;
- (h) mae i “diwrnod ysgol” yr ystyr a roddir i “school day” gan adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

RHAN 7

Gorfodi

Swyddogion gorfodaeth

25.—(1) At ddibenion rheoliad 26 ac Atodlen 8, ystyr “swyddog gorfodaeth” yw person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod lleol—

- (a) at ddibenion y Rheoliadau hyn,
- (b) o dan reoliad 17(A1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(3),
- (c) o dan reoliad 21(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, neu
- (d) o dan reoliad 25(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020.

(1) 1998 p. 31.

(2) 1996 p. 56.

(3) O.S. 2020/725 (Cy. 162).

Interpretation of this Part

24. In this Part—

- (a) “maintained nursery school” has the meaning given by section 22(9) of the School Standards and Framework Act 1998(1);
- (b) “maintained school” has the meaning given by section 20(7) of the School Standards and Framework Act 1998;
- (c) “proprietor” has the meaning given by section 579(1) of the Education Act 1996(2);
- (d) “pupil” has the same meaning as in section 3 of the Education Act 1996;
- (e) “pupil referral unit” has the meaning given by section 19(2) of the Education Act 1996;
- (f) “registered pupil” has the meaning given by section 434(5) of the Education Act 1996;
- (g) “school” means a maintained school, a maintained nursery school or a pupil referral unit;
- (h) “school day” has the meaning given by section 579(1) of the Education Act 1996.

PART 7

Enforcement

Enforcement officers

25.—(1) For the purposes of regulation 26 and Schedule 8, an “enforcement officer” means a person designated by a local authority—

- (a) for the purposes of these Regulations,
- (b) under regulation 17(A1) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020(3),
- (c) under regulation 21(1) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020, or
- (d) under regulation 25(1) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020.

(1) 1998 c. 31.

(2) 1996 c. 56.

(3) S.I. 2020/725 (W. 162).

(2) At ddibenion rheoliadau 19, 20, 27 i 34, 36 a 47, ystyr “swyddog gorfodaeth” yw—

- (a) cwnstabl,
- (b) swyddog cymorth cymunedol yr heddlu,
- (c) person sydd wedi ei ddynodi gan—
 - (i) Gweinidogion Cymru, neu
 - (ii) awdurdod lleol,at ddibenion y Rheoliadau hyn (ond gweler paragraff (3)), neu
- (d) person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol o dan—
 - (i) rheoliad 10(11)(c) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(1) yn berson perthnasol (o fewn yr ystyr a roddir gan y rheoliad hwnnw),
 - (ii) rheoliad 17(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 at ddibenion y Rheoliadau hynny,
 - (iii) rheoliad 21(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 at ddibenion y Rheoliadau hynny, neu
 - (iv) o dan reoliad 25(2) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020,(ond gweler paragraff (3)).

(3) Ni chaiff person sydd wedi ei ddynodi gan awdurdod lleol arfer swyddogaethau swyddog gorfodaeth ond—

- (a) mewn perthynas â thorri gofyniad (neu achos honedig o’i dorri) yn—
 - (i) rheoliad 16(1) neu 17(1),
 - (ii) paragraff 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 1,
 - (iii) paragraff 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 2,
 - (iv) paragraff 7(1), 8(1) neu (2) neu 10(1) o Atodlen 3, neu
 - (v) paragraff 7(1), 8(1), 9(1) neu 10(1) o Atodlen 4, neu
- (b) o dan ac yn rhinwedd Atodlen 8.

(2) For the purposes of regulations 19, 20, 27 to 34, 36 and 47, an “enforcement officer” means—

- (a) a constable,
- (b) a police community support officer,
- (c) a person designated by—
 - (i) the Welsh Ministers, or
 - (ii) a local authority,for the purposes of these Regulations (but see paragraph (3)), or
- (d) a person designated by the Welsh Ministers or a local authority under—
 - (i) regulation 10(11)(c) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020(1) as a relevant person (within the meaning given by that regulation),
 - (ii) regulation 17(1) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 for the purposes of those Regulations,
 - (iii) regulation 21(2) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020 for the purposes of those Regulations, or
 - (iv) under regulation 25(2) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020,(but see paragraph (3)).

(3) A person designated by a local authority may exercise an enforcement officer’s functions only—

- (a) in relation to a contravention (or alleged contravention) of a requirement in—
 - (i) regulation 16(1) or 17(1),
 - (ii) paragraph 7(1) or 8(1) or (2) of Schedule 1,
 - (iii) paragraph 7(1) or 8(1) or (2) of Schedule 2,
 - (iv) paragraph 7(1), 8(1) or (2) or 10(1) of Schedule 3, or
 - (v) paragraph 7(1), 8(1), 9(1) or 10(1) of Schedule 4, or
- (b) under and by virtue of Schedule 8.

Gorfodi'r gofyniad i gymryd mesurau ataliol

26. Mae Atodlenni 8 a 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi swyddogaethau i swyddogion gorfodaeth at ddiben gorfodi rheoliadau 16(1) a 17(1) ac mewn cysylltiad â rhoi'r swyddogaethau hynny.

Hysbysiadau cydymffurfio

27.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth roi hysbysiad cydymffurfio i berson os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod y person yn torri gofyniad yn—

- (a) rheoliad 19(5),
- (b) paragraff 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 1,
- (c) paragraff 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 2,
- (d) paragraff 7(1), 8(1) neu (2) neu 10(1) o Atodlen 3, neu
- (e) paragraff 7(1), 8(1), 9(1) neu 10(1) o Atodlen 4.

(2) Caiff hysbysiad cydymffurfio bennu mesurau y mae rhaid i'r person y'i rhoddir iddo eu cymryd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol er mwyn atal y person hwnnw rhag parhau i dorri'r gofyniad.

Pwerau symud a gwasgaru: cynullïadau a bod oddi cartref

28.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn cymryd rhan mewn cynullïad mewn annedd breifat yn groes i—

- (a) paragraff 1(1) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 1(1) o Atodlen 2,
- (c) paragraff 1(1) o Atodlen 3, neu
- (d) paragraff 2(1) o Atodlen 4.

(2) Caiff y swyddog gorfodaeth—

- (a) cyfarwyddo'r cynullïad i wasgaru;
- (b) os oes gan y swyddog sail resymol dros amau nad yw'r person yn byw yn yr annedd—

(i) cyfarwyddo'r person i ymadael â'r annedd;

(ii) symud y person o'r annedd.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn cymryd rhan mewn cynullïad mewn man ac eithrio annedd breifat yn groes i—

- (a) paragraff 2(1) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 2(1) neu (3) o Atodlen 2,
- (c) paragraff 2(1) neu (3) o Atodlen 3, neu
- (d) paragraff 2(1) o Atodlen 4.

Enforcement of requirement to take preventative measures

26. Schedules 8 and 9 make provision for and in connection with conferring functions on enforcement officers for the purpose of enforcing regulations 16(1) and 17(1).

Compliance notices

27.—(1) An enforcement officer may give a compliance notice to a person if the officer has reasonable grounds for suspecting that the person is contravening a requirement in—

- (a) regulation 19(5),
- (b) paragraph 7(1) or 8(1) or (2) of Schedule 1,
- (c) paragraph 7(1) or 8(1) or (2) of Schedule 2,
- (d) paragraph 7(1), 8(1) or (2) or 10(1) of Schedule 3, or
- (e) paragraph 7(1), 8(1), 9(1) or 10(1) of Schedule 4.

(2) A compliance notice may specify measures that the person to whom it is given must take as soon as is reasonably practicable so as to prevent that person from continuing to contravene the requirement.

Powers of removal and dispersal: gatherings and being away from home

28.—(1) Paragraph (2) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is participating in a gathering in a private dwelling in contravention of—

- (a) paragraph 1(1) of Schedule 1,
- (b) paragraph 1(1) of Schedule 2,
- (c) paragraph 1(1) of Schedule 3, or
- (d) paragraph 2(1) of Schedule 4.

(2) The enforcement officer may—

- (a) direct the gathering to disperse;
- (b) if the officer has reasonable grounds to suspect that the person does not live at the dwelling—

(i) direct the person to leave the dwelling;

(ii) remove the person from the dwelling.

(3) Paragraph (4) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is participating in a gathering in a place other than a private dwelling in contravention of—

- (a) paragraph 2(1) of Schedule 1,
- (b) paragraph 2(1) or (3) of Schedule 2,
- (c) paragraph 2(1) or (3) of Schedule 3, or
- (d) paragraph 2(1) of Schedule 4.

- (4) Caiff y swyddog gorfodaeth—
- (a) cyfarwyddo'r cynulliad i wasgaru;
 - (b) cyfarwyddo'r person i ymadael â'r man lle y mae'r cynulliad yn digwydd;
 - (c) symud y person o'r man hwnnw.
- (5) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person i ffwrdd o'r man lle y mae'r person yn byw yn groes i baragraff 1(1) o Atodlen 4, caiff y swyddog—
- (a) cyfarwyddo'r person i ddychwelyd i'r man lle y mae'r person yn byw;
 - (b) symud y person i'r man hwnnw.

Pwerau sy'n ymwneud â chyfyngiadau teithio

29.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ar fin mynd i ardal yn groes i—

- (a) paragraff 6(1) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 6(1) o Atodlen 2,
- (c) paragraff 6(1) o Atodlen 3, neu
- (d) paragraff 6(1) o Atodlen 4.

(2) Caiff y swyddog gorfodaeth gyfarwyddo'r person i beidio â mynd i'r ardal.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person mewn ardal yn groes i—

- (a) paragraff 6(1) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 6(1) o Atodlen 2,
- (c) paragraff 6(1) o Atodlen 3, neu
- (d) paragraff 6(1) o Atodlen 4.

(4) Caiff y swyddog gorfodaeth—

- (a) cyfarwyddo'r person i ymadael â'r ardal;
- (b) symud y person o'r ardal.

(5) Mae paragraff (6) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ar fin ymadael ag ardal yn groes i—

- (a) paragraff 6(2) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 6(2) o Atodlen 2, neu
- (c) paragraff 6(2) o Atodlen 3.

(6) Caiff y swyddog gorfodaeth gyfarwyddo'r person i beidio ag ymadael â'r ardal.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person wedi ymadael ag ardal yn groes i—

- (a) paragraff 6(2) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 6(2) o Atodlen 2, neu
- (c) paragraff 6(2) o Atodlen 3.

- (4) The enforcement officer may—
- (a) direct the gathering to disperse;
 - (b) direct the person to leave the place where the gathering is taking place;
 - (c) remove the person from that place.
- (5) Where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is away from the place where the person is living in contravention of paragraph 1(1) of Schedule 4, the officer may—
- (a) direct the person to return to the place where the person is living;
 - (b) remove the person to that place.

Powers relating to travel restrictions

29.—(1) Paragraph (2) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is about to enter an area in contravention of—

- (a) paragraph 6(1) of Schedule 1,
- (b) paragraph 6(1) of Schedule 2,
- (c) paragraph 6(1) of Schedule 3, or
- (d) paragraph 6(1) of Schedule 4.

(2) The enforcement officer may direct the person not to enter the area.

(3) Paragraph (4) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is in an area in contravention of—

- (a) paragraph 6(1) of Schedule 1,
- (b) paragraph 6(1) of Schedule 2,
- (c) paragraph 6(1) of Schedule 3, or
- (d) paragraph 6(1) of Schedule 4.

(4) The enforcement officer may—

- (a) direct the person to leave the area;
- (b) remove the person from the area.

(5) Paragraph (6) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is about to leave an area in contravention of—

- (a) paragraph 6(2) of Schedule 1,
- (b) paragraph 6(2) of Schedule 2, or
- (c) paragraph 6(2) of Schedule 3.

(6) The enforcement officer may direct the person not to leave the area.

(7) Paragraph (8) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person has left an area in contravention of—

- (a) paragraph 6(2) of Schedule 1,
- (b) paragraph 6(2) of Schedule 2, or
- (c) paragraph 6(2) of Schedule 3.

- (8) Caiff y swyddog gorfodaeth—
- (a) cyfarwyddo'r person i ddychwelyd i'r ardal;
 - (b) dychwelyd y person i'r ardal.

Pwerau sy'n ymwneud â thorri gofyniad ynysu

30. Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person i ffwrdd o'r man lle y mae'n byw yn groes i reoliad 6(2), 7(2), 8(2) neu 9(2), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo'r person i ddychwelyd i'r man lle y mae'r person yn byw;
- (b) symud y person i'r man hwnnw.

Pwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau

31.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”)—

- (a) yn cyflawni trosedd o dan reoliad 39(2);
- (b) yn ymwneud â threfnu digwyddiad yn groes i (neu y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried ei fod yn debygol o fod yn groes i) baragraff 4 o Atodlen 1, paragraff 4 o Atodlen 2, paragraff 4 o Atodlen 3 neu baragraff 4 o Atodlen 4.

(2) Caiff y swyddog gorfodaeth—

- (a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn stopio'r digwyddiad;
- (b) symud P o leoliad y digwyddiad;
- (c) cyfarwyddo unrhyw berson i ymadael â'r digwyddiad;
- (d) symud unrhyw berson o'r digwyddiad;
- (e) pan na fo'r digwyddiad wedi dechrau—
 - (i) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn atal y digwyddiad rhag digwydd;
 - (ii) symud P o leoliad arfaethedig y digwyddiad.

(3) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person (“P”) yn ymwneud â threfnu digwyddiad sydd wedi ei awdurdodi o dan baragraff 5 o Atodlen 1, paragraff 5 o Atodlen 2, paragraff 5 o Atodlen 3 neu baragraff 5 o Atodlen 4 y mae'r swyddog yn ystyried ei fod yn cael ei gynnal yn groes i ofyniad, cyfyngiad neu amod arall a bennir mewn perthynas â'r awdurdodiad, caiff y swyddog—

- (8) The enforcement officer may—
- (a) direct the person to return to the area;
 - (b) return the person to the area.

Powers relating to contravention of isolation requirement

30. Where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is away from the place where they are living in contravention of regulation 6(2), 7(2), 8(2) or 9(2), the officer may—

- (a) direct the person to return to the place where the person is living;
- (b) remove the person to that place.

Powers relating to events

31.—(1) Paragraph (2) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person (“P”) is—

- (a) committing an offence under regulation 39(2);
- (b) involved in organising an event in contravention of (or which the officer considers likely to be in contravention of) paragraph 4 of Schedule 1, paragraph 4 of Schedule 2, paragraph 4 of Schedule 3 or paragraph 4 of Schedule 4.

(2) The enforcement officer may—

- (a) direct P to follow such instructions as the officer considers necessary in order to stop the event;
- (b) remove P from the location of the event;
- (c) direct any person to leave the event;
- (d) remove any person from the event;
- (e) where the event has not started—
 - (i) direct P to follow such instructions as the officer considers necessary in order to stop the event from taking place;
 - (ii) remove P from the proposed location of the event.

(3) Where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person (“P”) is involved in organising an event authorised under paragraph 5 of Schedule 1, paragraph 5 of Schedule 2, paragraph 5 of Schedule 3 or paragraph 5 of Schedule 4 which the officer considers is being held in contravention of a requirement, restriction or other condition specified in relation to the authorisation, the officer may—

- (a) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r gofyniad, y cyfyngiad neu'r amod arall;
- (b) cyfarwyddo P i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn stopio'r digwyddiad;
- (c) symud P o leoliad y digwyddiad;
- (d) cyfarwyddo unrhyw berson i ymadael â'r digwyddiad;
- (e) symud unrhyw berson o'r digwyddiad.

- (a) direct P to follow such instructions as the officer considers necessary in order to secure compliance with the requirement, restriction or other condition;
- (b) direct P to follow such instructions as the officer considers necessary in order to stop the event;
- (c) remove P from the location of the event;
- (d) direct any person to leave the event;
- (e) remove any person from the event.

Gorfodi gofynion gorchuddion wyneb

32.—(1) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 19(1), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo'r person i beidio â mynd i'r cerbyd sy'n darparu'r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus o dan sylw;
- (b) symud y person o'r cerbyd.

(2) Pan fo gan—

- (a) gweithredwr gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus,
- (b) cyflogai i'r gweithredwr, neu
- (c) person sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr,

sail resymol dros amau bod person ar fin torri rheoliad 19(1), caiff y gweithredwr, y cyflogai neu'r person awdurdodedig gyfarwyddo'r person i beidio â mynd i'r cerbyd sy'n darparu'r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus o dan sylw.

(3) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person yn torri (neu ar fin torri) rheoliad 20(1), caiff y swyddog—

- (a) cyfarwyddo'r person i beidio â mynd i'r fangre;
- (b) symud y person o'r fangre.

Gorfodi: plant

33.—(1) Pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ("P") y caiff y swyddog arfer pŵer mewn cysylltiad ag ef o dan y Rhan hon yn blentyn gydag unigolyn ("U") a chanddo gyfrifoldeb dros P—

- (a) caiff y swyddog gyfarwyddo U i gymryd unrhyw gamau gweithredu mewn cysylltiad â P y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol, a

Enforcement of face covering requirements

32.—(1) Where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting that a person is contravening (or is about to contravene) regulation 19(1), the officer may—

- (a) direct the person not to board the vehicle providing the public transport service in question;
- (b) remove the person from the vehicle.

(2) Where—

- (a) the operator of a public transport service,
- (b) an employee of the operator, or
- (c) a person authorised by the operator,

has reasonable grounds to suspect that a person is about to contravene regulation 19(1), the operator, employee or authorised person may direct the person not to board the vehicle providing the public transport service in question.

(3) Where an enforcement officer has reasonable grounds to suspect that a person is contravening (or is about to contravene) regulation 20(1), the officer may—

- (a) direct the person not to enter the premises;
- (b) remove the person from the premises.

Enforcement: children

33.—(1) Where an enforcement officer has reasonable grounds to suspect that a person ("P") in respect of whom the officer may exercise a power under this Part is a child accompanied by an individual ("I") who has responsibility for P—

- (a) the officer may direct I to take such action in respect of P as the officer considers appropriate, and

- (b) rhaid i U, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod P yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu gyfarwyddiad a roddir gan y swyddog i P.

(2) At ddibenion paragraff (1), mae gan U gyfrifoldeb dros blentyn os oes gan U—

- (a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn am y tro, neu
(b) cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

Pŵer mynediad

34.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre—

- (a) os oes gan y swyddog sail resymol dros amau bod gofyniad a osodir gan y Rheoliadau hyn yn cael, wedi cael neu ar fin cael ei dorri yn y fangre, a
(b) os yw'n ystyried ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw'r gofyniad yn cael, wedi cael neu ar fin cael ei dorri.

(2) Caiff swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1) fynd ag unrhyw bersonau eraill, cyfarpar a deunyddiau i'r fangre y mae'n ymddangos i'r swyddog eu bod yn briodol.

(3) Rhaid i swyddog gorfodaeth sy'n mynd i fangre yn unol â pharagraff (1)—

- (a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos tystiolaeth o bwy yw'r swyddog ac amlinellu'r diben yr arferir y pŵer ato;
(b) os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, adael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi.

(4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth fynd i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd breifat onid yw'r swyddog gorfodaeth yn gwnstabl.

Pŵer yr heddlu i gynnal archwiliadau ar y ffyrdd

35.—(1) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "archwiliad ar y ffordd" yw arfer y pŵer a roddir gan adran 163 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(1) mewn ardal yn y fath fodd i stopio, yn ystod y cyfnod pan fydd y pŵer hwnnw yn parhau i gael ei arfer yn yr ardal honno, bob cerbyd neu gerbydau sydd wedi eu dethol yn ôl unrhyw faen prawf.

(1) 1988 p. 52, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40) a Deddf Rheoli Traffig 2004 (p. 18).

- (b) I must, so far as reasonably practicable, ensure that P complies with any direction or instruction given by the officer to P.

(2) For the purposes of paragraph (1), I has responsibility for a child if I—

- (a) has custody or charge of the child for the time being, or
(b) has parental responsibility for the child.

Power of entry

34.—(1) An enforcement officer may enter premises, if the officer—

- (a) has reasonable grounds for suspecting that a requirement imposed by these Regulations is being, has been or is about to be contravened on the premises, and
(b) considers it necessary to enter the premises for the purpose of ascertaining whether the requirement is being, has been or is about to be contravened.

(2) An enforcement officer entering premises in accordance with paragraph (1) may take such other persons, equipment and materials onto the premises as appears to the officer to be appropriate.

(3) An enforcement officer entering premises in accordance with paragraph (1)—

- (a) if asked by a person on the premises, must show evidence of the officer's identity and outline the purpose for which the power is exercised;
(b) if the premises are unoccupied or the occupier is temporarily absent, must leave the premises as effectively secured against unauthorised entry as when the officer found them.

(4) An enforcement officer may enter premises which are wholly or mainly used as a private dwelling only if the enforcement officer is a constable.

Power of police to conduct road checks

35.—(1) For the purposes of this regulation, a "road check" means the exercise in a locality of the power conferred by section 163 of the Road Traffic Act 1988(1) in such a way as to stop, during the period for which the exercise of that power in that locality continues, all vehicles or vehicles selected by any criterion.

(1) 1988 c. 52, as amended by the Road Traffic Act 1991 (c. 40) and the Traffic Management Act 2004 (c. 18).

(2) Caiff cwnstabl gynnal archwiliad ar y ffordd at ddiben canfod a yw cerbyd yn cario person y mae'r cwnstabl yn credu'n rhesymol—

- (a) ei fod wedi cyflawni, neu
- (b) ei fod yn bwriadu cyflawni

trosedd o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i archwiliad ar y ffordd gael ei awdurdodi gan gwnstabl o reng uwch-arolygydd neu'n uwch.

(4) Ond caiff cwnstabl o dan y rheng honno awdurdodi archwiliad ar y ffordd os yw'r cwnstabl yn ystyried ei fod yn angenrheidiol fel mater o frys.

(5) Caiff cwnstabl awdurdodi archwiliad ar y ffordd os oes gan y cwnstabl sail resymol dros gredu bod person y cyfeirir ato ym mharagraff (2) yn yr ardal y byddai cerbydau'n cael eu stopio ynddi, neu ar fin bod yn yr ardal honno.

(6) Rhaid i awdurdodiad fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo bennu—

- (a) yr ardal y mae cerbydau i'w stopio ynddi;
- (b) y cyfnod, nad yw'n hwy na 7 niwrnod, pan ganiateir cynnal yr archwiliad ar y ffordd;
- (c) a yw'r archwiliad ar y ffordd i'w gynnal—
 - (i) yn barhaus drwy gydol y cyfnod, neu
 - (ii) ar adegau penodol yn ystod y cyfnod (ac yn yr achos hwnnw rhaid i'r awdurdodiad bennu'r adegau hynny);
- (d) enw'r cwnstabl sy'n rhoi'r awdurdodiad.

(7) Pan fo archwiliad ar y ffordd wedi ei awdurdodi o dan baragraff (4)—

- (a) ni chaiff y cyfnod a bennir ym mharagraff (6)(b) fod yn hwy na 2 ddiwrnod;
- (b) rhaid i'r cwnstabl sy'n rhoi'r awdurdodiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl rhoi'r awdurdodiad, roi gwybod i gwnstabl o reng uwch-arolygydd neu'n uwch ei fod wedi ei roi.

(8) Caiff cwnstabl o reng uwch-arolygydd neu'n uwch roi awdurdodiad yn ysgrifenedig i archwiliad ar y ffordd barhau am gyfnod pellach, nad yw'n hwy na 7 niwrnod, y tu hwnt i'r cyfnod yr awdurdodwyd yr archwiliad ar y ffordd amdano yn wreiddiol.

(9) Pan fo cerbyd yn cael ei stopio yn ystod archwiliad ar y ffordd, mae gan y person sy'n gyfrifol am y cerbyd ar yr adeg pan yw'n cael ei stopio hawlogaeth i gael datganiad ysgrifenedig am ddiben yr archwiliad ar y ffordd drwy gyflwyno cais yn ysgrifenedig—

- (a) i'r heddlu sy'n gyfrifol am yr ardal lle y cynhelir yr archwiliad ar y ffordd, a
- (b) heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o 12 mis o'r diwrnod pan stopiwyd y cerbyd.

(2) A constable may conduct a road check for the purpose of ascertaining whether a vehicle is carrying a person who the constable reasonably believes—

- (a) has committed, or
- (b) intends to commit,

an offence under these Regulations.

(3) A road check must be authorised by a constable of the rank of superintendent or above.

(4) But a road check may be authorised by a constable below that rank if the constable considers it necessary as a matter of urgency.

(5) A constable may authorise a road check if the constable has reasonable grounds to believe that a person referred to in paragraph (2) is, or is about to be, in the locality in which vehicles would be stopped.

(6) An authorisation must be in writing and must specify—

- (a) the locality in which vehicles are to be stopped;
- (b) the period, not exceeding 7 days, during which the road check may take place;
- (c) whether the road check is to be conducted—
 - (i) continuously throughout the period, or
 - (ii) at particular times during the period (in which case the authorisation must specify those times);
- (d) the name of the constable giving the authorisation.

(7) Where a road check is authorised under paragraph (4)—

- (a) the period specified in paragraph (6)(b) may not exceed 2 days;
- (b) the constable giving the authorisation must, as soon as is reasonably practicable after giving it, inform a constable of the rank of superintendent or above that it has been given.

(8) A constable of the rank of superintendent or above may give authorisation in writing for a road check to continue for a further period, not exceeding 7 days, beyond the period for which the road check was initially authorised.

(9) Where a vehicle is stopped in a road check, the person in charge of the vehicle at the time when it is stopped is entitled to obtain a written statement of the purpose of the road check by applying in writing—

- (a) to the police force responsible for the locality where the road check is conducted, and
- (b) no later than the end of the period of 12 months from the day on which the vehicle was stopped.

Gorfodi: darpariaeth atodol

36.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth gymryd camau gweithredu eraill i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan y Rhan hon.

(2) Caiff y camau gweithredu a gymerir o dan baragraff (1) gynnwys—

- (a) ei gwneud yn ofynnol i berson roi unrhyw wybodaeth neu ateb unrhyw gwestiwn y mae'r swyddog yn ystyried—
 - (i) ei bod neu ei fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi'r swyddog i benderfynu pa un ai i arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan y Rhan hon, neu
 - (ii) ei bod neu ei fod yn berthnasol fel arall i arfer pŵer o'r fath;
- (b) cyfarwyddo person i ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol.

(3) Caiff cwnstabl ddefnyddio grym rhesymol wrth arfer pŵer o dan—

- (a) rheoliad 28(2)(b)(ii), (4)(c) neu (5)(b);
- (b) rheoliad 29(4)(b) neu (8)(b);
- (c) rheoliad 30(b);
- (d) rheoliad 31(2)(b), (d) neu (e)(ii), neu (3)(c) neu (e);
- (e) rheoliad 32(1)(b) neu (3)(b);
- (f) rheoliad 34(1).

(4) Ni chaiff swyddog gorfodaeth ond arfer pŵer o dan y Rhan hon os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

(5) Yn y Rhan hon a Rhan 8, mae cyfeiriadau at ofyniad yn cynnwys cyfeiriadau at gyfyngiad.

RHAN 8

Troseddau a chosbau

PENNOD 1

Troseddau

Troseddau sy'n ymwneud â chynulladau a bod oddi cartref

37.—(1) Mae person sy'n torri gofyniad yn—

- (a) Paragraff 1(1) neu 2(1) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 1(1) neu 2(1) neu (3) o Atodlen 2,
- (c) paragraff 1(1) neu 2(1) neu (3) o Atodlen 3, neu
- (d) paragraff 1(1) neu 2(1) o Atodlen 4,

yn cyflawni trosedd.

Enforcement: supplemental provision

36.—(1) An enforcement officer may take other action to facilitate the exercise of a power conferred on the officer by this Part.

(2) Action taken under paragraph (1) may include—

- (a) requiring a person to give any information or answer any question the officer considers—
 - (i) necessary to enable the officer to determine whether to exercise a power conferred on the officer by this Part, or
 - (ii) is otherwise relevant to the exercise of such a power;
- (b) directing a person to follow such instructions as the officer considers necessary.

(3) A constable may use reasonable force in the exercise of a power under—

- (a) regulation 28(2)(b)(ii), (4)(c) or (5)(b);
- (b) regulation 29(4)(b) or (8)(b);
- (c) regulation 30(b);
- (d) regulation 31(2)(b) (d) or (e)(ii), or (3)(c) or (e);
- (e) regulation 32(1)(b) or (3)(b);
- (f) regulation 34(1).

(4) An enforcement officer may only exercise a power under this Part if the officer considers that it is necessary and proportionate to do so.

(5) In this Part and Part 8 references to a requirement include references to a restriction.

PART 8

Offences and penalties

CHAPTER 1

Offences

Offences relating to gatherings and being away from home

37.—(1) A person who contravenes a requirement in—

- (a) paragraph 1(1) or 2(1) of Schedule 1,
- (b) paragraph 1(1) or 2(1) or (3) of Schedule 2,
- (c) paragraph 1(1) or 2(1) or (3) of Schedule 3, or
- (d) paragraph 1(1) or 2(1) of Schedule 4,

commits an offence.

(2) Mae person sy'n cymryd rhan mewn cynulliad—

- (a) sy'n digwydd mewn annedd breifat,
- (b) lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol, ac
- (c) lle y mae pobl yn ymgynnull yn groes i—
 - (i) paragraff 1(1) o Atodlen 1,
 - (ii) paragraff 1(1) o Atodlen 2,
 - (iii) paragraff 1(1) o Atodlen 3, neu
 - (iv) paragraff 2(1) o Atodlen 4,

yn cyflawni trosedd.

Troseddau cyfyngiadau teithio

38. Mae person sy'n torri gofyniad yn—

- (a) paragraff 6(1) neu (2) o Atodlen 1,
- (b) paragraff 6(1) neu (2) o Atodlen 2,
- (c) paragraff 6(1) neu (2) o Atodlen 3, neu
- (d) paragraff 6(1) o Atodlen 4,

yn cyflawni trosedd.

Troseddau sy'n ymwneud â threfnu digwyddiadau

39.—(1) Mae person sy'n torri gofyniad yn—

- (a) paragraff 4 o Atodlen 1,
- (b) paragraff 4 o Atodlen 2,
- (c) paragraff 4 o Atodlen 3,
- (d) paragraff 4 o Atodlen 4,

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn ymwneud â threfnu digwyddiad cerddoriaeth mawr sydd heb ei drwyddedu yn cyflawni trosedd.

(3) At ddibenion paragraff (2)—

- (a) ystyr “digwyddiad cerddoriaeth mawr sydd heb ei drwyddedu” yw digwyddiad—
 - (i) y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol ynddo,
 - (ii) lle y mae cerddoriaeth yn cael ei chwarae neu ei pherfformio at ddiben adloniant neu at ddibenion sy'n cynnwys y diben hwnnw, a
 - (iii) lle o ran chwarae neu berfformio cerddoriaeth—
 - (aa) y mae'n weithgaredd trwyddedadwy (o fewn ystyr “licensable activity” yn Neddf Trwyddedu 2003(1)), a

(2) A person who participates in a gathering—

- (a) which takes place in a private dwelling,
- (b) which consists of more than 15 people, and
- (c) at which people are gathered in contravention of—
 - (i) paragraph 1(1) of Schedule 1,
 - (ii) paragraph 1(1) of Schedule 2,
 - (iii) paragraph 1(1) of Schedule 3, or
 - (iv) paragraph 2(1) of Schedule 4,

commits an offence.

Travel restriction offences

38. A person who contravenes a requirement in—

- (a) paragraph 6(1) or (2) of Schedule 1,
- (b) paragraph 6(1) or (2) of Schedule 2,
- (c) paragraph 6(1) or (2) of Schedule 3, or
- (d) paragraph 6(1) of Schedule 4,

commits an offence.

Offences relating to organising events

39.—(1) A person who contravenes a requirement in—

- (a) paragraph 4 of Schedule 1,
- (b) paragraph 4 of Schedule 2,
- (c) paragraph 4 of Schedule 3, or
- (d) paragraph 4 of Schedule 4,

commits an offence.

(2) A person who, without reasonable excuse, is involved in organising a large unlicensed music event commits an offence.

(3) For the purposes of paragraph (2)—

- (a) “large unlicensed music event” means an event—
 - (i) at which more than 30 people are in attendance,
 - (ii) at which music is played or performed for the purpose, or for purposes which include the purpose, of entertainment, and
 - (iii) where the playing or performance of the music is—
 - (aa) a licensable activity (within the meaning of the Licensing Act 2003(1)), and

(1) 2003 p. 17.

(1) 2003 c. 17.

(bb) nas cynhelir o dan awdurdodiad nac yn unol ag awdurdodiad (o fewn yr ystyr a roddir i “authorisation” gan adran 136(5) o’r Ddeddf honno);

(b) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad cerddorol mawr sydd heb ei drwyddedu os nad yw’r person ond yn ymwneud â’r digwyddiad drwy fynd iddo.

Troseddau sy’n ymwneud â gofynion ynysu ac olrhain cysylltiadau

40.—(1) Mae person sydd—

- (a) yn torri gofyniad yn rheoliad 6(2), 7(2), 8(2), 9(2) neu 12, neu
- (b) heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn rheoliad 6(3), 7(3), 8(3) neu 9(3),

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae’n drosedd i berson (“P”) roi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i swyddog olrhain cysylltiadau—

- (a) o dan reoliad 6(3), 7(3), 8(3) neu 9(3), neu
- (b) ynghylch—
 - (i) gwybodaeth gyswllt P, neu
 - (ii) personau y gall P fod wedi dod i gysylltiad agos â hwy,

pan fo P yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu’n gamarweiniol, neu pan fo P yn ddi-hid o ran a yw’r wybodaeth yn anwir neu’n gamarweiniol.

(3) Ym mharagraff (2), mae i “cysylltiad agos” yr un ystyr ag yn Rhan 3.

Trosedd o fethu â gwisgo gorchudd wyneb

41. Mae person sy’n torri’r gofyniad yn rheoliad 19(1) neu 20(1) yn cyflawni trosedd.

Troseddau sy’n ymwneud â busnesau a gwasanaethau

42.—(1) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri gofyniad yn—

- (a) paragraffau 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 1,
- (b) paragraffau 7(1) neu 8(1) neu (2) o Atodlen 2,
- (c) paragraffau 7(1), 8(1) neu (2) neu 10(1) o Atodlen 3, neu
- (d) paragraffau 7(1), 8(1), 9(1) neu 10(1) o Atodlen 4,

yn cyflawni trosedd.

(bb) not carried on under and in accordance with an authorisation (within the meaning given by section 136(5) of that Act);

(b) a person is not involved in organising a large unlicensed music event if the person’s only involvement is attending it.

Offences relating to isolation requirements and contact tracing

40.—(1) A person who—

- (a) contravenes a requirement in regulation 6(2), 7(2), 8(2), 9(2) or 12, or
- (b) without reasonable excuse, contravenes a requirement in regulation 6(3), 7(3), 8(3) or 9(3),

commits an offence.

(2) It is an offence for a person (“P”) to give false or misleading information to a contact tracer—

- (a) under regulation 6(3), 7(3), 8(3) or 9(3), or
- (b) about—
 - (i) P’s contact information, or
 - (ii) persons with whom P may have had close contact,

where P knows the information is false or misleading, or P is reckless as to whether the information is false or misleading.

(3) In paragraph (2), “close contact” has the same meaning as in Part 3.

Offence of failing to wear a face covering

41. A person who contravenes the requirement in regulation 19(1) or 20(1) commits an offence.

Offences relating to businesses and services

42.—(1) A person who, without reasonable excuse, contravenes a requirement in—

- (a) paragraphs 7(1) or 8(1) or (2) of Schedule 1,
- (b) paragraphs 7(1) or 8(1) or (2) of Schedule 2,
- (c) paragraphs 7(1), 8(1) or (2) or 10(1) of Schedule 3, or
- (d) paragraphs 7(1), 8(1), 9(1) or 10(1) of Schedule 4,

commits an offence.

(2) Mae gweithredwr gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus sydd, heb esgus rhesymol, yn torri'r gofyniad yn rheoliad 19(5) yn cyflawni trosedd.

(3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a ddyroddir o dan baragraff 1(1) o Atodlen 8 o fewn y terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad yn cyflawni trosedd.

(4) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn torri paragraff 3(1) o Atodlen 8 yn cyflawni trosedd.

(5) Mae person sydd—

- (a) yn torri paragraff 3(2) o Atodlen 8, neu
- (b) heb esgus rhesymol, yn tynnu, yn cuddio neu'n difrodi hysbysiad neu arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan baragraff 7(2)(a) o'r Atodlen honno,

yn cyflawni trosedd.

Rhwystro a thorri cyfarwyddydau a hysbysiadau cydymffurfio

43.—(1) Mae person sy'n rhwystro, heb esgus rhesymol, unrhyw berson rhag cyflawni swyddogaeth o dan y Rheoliadau hyn yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sydd, heb esgus rhesymol—

- (a) yn torri cyfarwyddyd a roddir—
 - (i) gan swyddog gorfodaeth o dan Ran 7, neu
 - (ii) gan weithredwr gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus, cyflogai i'r gweithredwr, neu berson sydd wedi ei awdurdodi gan y gweithredwr, o dan reoliad 32(2), neu
- (b) yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio a roddir gan swyddog gorfodaeth o dan reoliad 27(1),

yn cyflawni trosedd.

Cosb

44. Mae trosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w chosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy.

Arestio heb warant

45. Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(1) yn gymwys mewn perthynas â throedd o dan y Rheoliadau hyn fel pe bai'r rhesymau yn is-adran (5) yn cynnwys—

(2) An operator of a public transport service who, without reasonable excuse, contravenes the requirement in regulation 19(5) commits an offence.

(3) A person who, without reasonable excuse, fails to take the measures specified in a premises improvement notice issued under paragraph 1(1) of Schedule 8 within the time limit specified in the notice commits an offence.

(4) A person who, without reasonable excuse, contravenes paragraph 3(1) of Schedule 8 commits an offence.

(5) A person who—

- (a) contravenes paragraph 3(2) of Schedule 8, or
- (b) without reasonable excuse, removes, obscures or damages a notice or sign required to be displayed under paragraph 7(2)(a) of that Schedule,

commits an offence.

Obstruction and contravention of directions and compliance notices

43.—(1) A person who obstructs, without reasonable excuse, any person carrying out a function under these Regulations commits an offence.

(2) A person who, without reasonable excuse—

- (a) contravenes a direction given—
 - (i) by an enforcement officer under Part 7, or
 - (ii) by the operator of a public transport service, an employee of the operator, or a person authorised by the operator, under regulation 32(2), or
- (b) fails to comply with a compliance notice given by an enforcement officer under regulation 27(1),

commits an offence.

Penalty

44. An offence under these Regulations is punishable on summary conviction by a fine.

Arrest without warrant

45. Section 24 of the Police and Criminal Evidence Act 1984(1) applies in relation to an offence under these Regulations as if the reasons in subsection (5) included—

(1) 1984 p. 60. Amnewidiwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

(1) 1984 c. 60. Section 24 was substituted by section 110(1) of the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15).

- (a) cynnal iechyd y cyhoedd;
- (b) cynnal trefn gyhoeddus.

- (a) to maintain public health;
- (b) to maintain public order.

Troseddau a gyflawnwyd gan gyrff corfforedig etc.

46.—(1) Os profir bod trosedd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforedig—

- (a) wedi ei chyflawni â chydsyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff, neu
- (b) i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog o'r fath,

mae'r swyddog (yn ogystal â'r corff corfforedig) yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn, i gael achos yn ei erbyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "swyddog", mewn perthynas â chorff corfforedig, yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff corfforedig.

(3) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid.

(4) Caniateir i achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth gael ei ddwyn yn enw'r corff yn hytrach nag yn enw unrhyw un neu ragor o'i aelodau ac, at ddibenion unrhyw achos o'r fath, mae unrhyw reolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r corff hwnnw yn gorff corfforedig.

(5) Mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(1) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(2) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

(6) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth ar ei heuogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o asedau'r bartneriaeth.

(7) Mae dirwy a osodir ar gorff anghorfforedig ac eithrio partneriaeth ar ei euogfarnu o drosedd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu o gronfeydd y corff.

Offences committed by bodies corporate etc.

46.—(1) If an offence under these Regulations committed by a body corporate is proved—

- (a) to have been committed with the consent or connivance of an officer of the body, or
- (b) to be attributable to any neglect on the part of such an officer,

the officer (as well as the body corporate) is guilty of the offence and liable to be prosecuted and proceeded against and punished accordingly.

(2) In paragraph (1), "officer", in relation to a body corporate, means a director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate.

(3) Proceedings for an offence under these Regulations alleged to have been committed by a partnership may be brought in the name of the partnership instead of in the name of any of the partners.

(4) Proceedings for an offence under these Regulations alleged to have been committed by an unincorporated body other than a partnership may be brought in the name of the body instead of in the name of any of its members and, for the purposes of any such proceedings, any rules of court relating to the service of documents have effect as if that body were a body corporate.

(5) Section 33 of the Criminal Justice Act 1925(1) and Schedule 3 to the Magistrates' Courts Act 1980(2) apply in proceedings for an offence brought against a partnership or an unincorporated body other than a partnership as they apply in relation to a body corporate.

(6) A fine imposed on a partnership on its conviction for an offence under these Regulations is to be paid out of the partnership assets.

(7) A fine imposed on an unincorporated body other than a partnership on its conviction for an offence under these Regulations is to be paid out of the funds of the body.

(1) 1925 p. 86.
(2) 1980 p. 43.

(1) 1925 c. 86.
(2) 1980 c. 43.

Hysbysiadau cosb benodedig

47.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i berson y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol—

- (a) ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, a
- (b) ei fod yn 18 oed neu drosodd.

(2) Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

- (a) awdurdod lleol, neu
- (b) person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn,

a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru eu dynodi hwy eu hunain o dan baragraff (2)(b).

(4) Mae person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan—

- (a) rheoliad 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
- (b) rheoliad 21 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020,
- (c) rheoliad 31 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, neu
- (d) rheoliad 37 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020

i'w drin fel pe bai wedi ei ddynodi at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.

(5) Pan fo awdurdod lleol wedi ei bennu yn yr hysbysiad rhaid iddo fod yn awdurdod (neu yn ôl y digwydd, un o'r awdurdodau) yr honnir bod y drosedd wedi ei chyflawni yn ei ardal.

(6) Pan fo hysbysiad wedi ei ddyroddi i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—

- (a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;
- (b) ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

Fixed penalty notices

47.—(1) An enforcement officer may issue a fixed penalty notice to a person the officer reasonably believes—

- (a) has committed an offence under these Regulations, and
- (b) is aged 18 or over.

(2) A fixed penalty notice is a notice offering the person to whom it is issued the opportunity of discharging any liability to conviction for the offence by payment of a fixed penalty to—

- (a) a local authority, or
- (b) a person designated by the Welsh Ministers for the purposes of receiving payment under this regulation,

as the notice may specify.

(3) The Welsh Ministers may designate themselves under paragraph (2)(b).

(4) A person designated by the Welsh Ministers for the purposes of receiving payment under—

- (a) regulation 13 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020,
- (b) regulation 21 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020,
- (c) regulation 31 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020, or
- (d) regulation 37 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020

is to be treated as if designated for the purposes of receiving payment under this regulation.

(5) Where a local authority is specified in the notice it must be the authority (or as the case may be, one of the authorities) in whose area the offence is alleged to have been committed.

(6) Where a person is issued with a notice under this regulation in respect of an offence—

- (a) no proceedings may be taken for the offence before the end of the period of 28 days following the date the notice is issued;
- (b) the person may not be convicted of the offence if the person pays the fixed penalty before the end of that period.

Swm cosb benodedig: cyffredinol

48.—(1) Oni bai bod rheoliad 49, 50, 51 neu 52 yn gymwys, swm cosb benodedig yw—

- (a) £60, neu
- (b) os telir £30 cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau yn dilyn dyddiad yr hysbysiad, £30.

(2) Ond os yw'r person y dyroddir hysbysiad cosb benodedig o'r fath iddo eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig perthnasol—

- (a) nid yw paragraff (1) yn gymwys, a
- (b) y swm a bennir fel y gosb benodedig yw—
 - (i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £120;
 - (ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £240;
 - (iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £480;
 - (iv) yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, £960;
 - (v) yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig perthnasol a geir wedi hynny, £1,920.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr “hysbysiad cosb benodedig perthnasol” yw—

- (a) hysbysiad cosb benodedig pan fo swm y gosb benodedig wedi ei bennu o dan y rheoliad hwn;
- (b) hysbysiad cosb benodedig o dan—
 - (i) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
 - (ii) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ac eithrio hysbysiad y mae rheoliad 21(7A) o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo,
 - (iii) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ac eithrio hysbysiad y mae rheoliad 31(8) o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo,
 - (iv) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ac eithrio hysbysiad y mae rheoliad 39, 40, 41 neu 42 o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo,
 - (v) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)

Amount of fixed penalty: general

48.—(1) Unless regulation 49, 50, 51 or 52 applies, the amount of a fixed penalty is—

- (a) £60, or
- (b) if £30 is paid before the end of the period of 14 days following the date of the notice, £30.

(2) But if the person to whom such a fixed penalty notice is issued has already received a relevant fixed penalty notice—

- (a) paragraph (1) does not apply, and
- (b) the amount specified as the fixed penalty is—
 - (i) in the case of the second relevant fixed penalty notice received, £120;
 - (ii) in the case of the third relevant fixed penalty notice received, £240;
 - (iii) in the case of the fourth relevant fixed penalty notice received, £480;
 - (iv) in the case of the fifth relevant fixed penalty notice received, £960;
 - (v) in the case of the sixth and any subsequent relevant fixed penalty notice received, £1,920.

(3) In paragraph (2), “relevant fixed penalty notice” means—

- (a) a fixed penalty notice where the amount of fixed penalty is determined under this regulation;
- (b) a fixed penalty notice under—
 - (i) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020,
 - (ii) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020 other than a notice to which regulation 21(7A) of those Regulations applies,
 - (iii) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020 other than a notice to which regulation 31(8) of those Regulations applies,
 - (iv) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020 other than a notice to which regulation 39, 40, 41 or 42 of those Regulations applies,
 - (v) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local

Swm cosb benodedig: cymryd rhan mewn cynulliad mawr mewn annedd breifat

49. Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throedd honedig o dan reoliad 37(2), swm y gosb benodedig yw £60.

Swm cosb benodedig: trefnu digwyddiad

50.—(1) Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throedd honedig o dan reoliad 39(1), swm y gosb benodedig yw £500.

(2) Ond os yw'r person y dyroddir iddo hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throedd honedig o'r fath eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig perthnasol—

- (a) nid yw paragraff (1) yn gymwys, a
- (b) swm y gosb benodedig yw—
 - (i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £1,000;
 - (ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £2,000;
 - (iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, £4,000.

(3) Ym mharagraff (2), ystyr “hysbysiad cosb benodedig perthnasol” yw—

- (a) hysbysiad cosb benodedig pan fo swm y gosb benodedig wedi ei bennu o dan y rheoliad hwn;
- (b) hysbysiad cosb benodedig o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 y mae rheoliad 40 o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo.

Swm cosb benodedig: trefnu digwyddiad cerddoriaeth sydd heb ei drwyddedu

51. Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throedd honedig o dan reoliad 39(2), swm y gosb benodedig yw £10,000.

Swm cosb benodedig: troseddau sy'n gysylltiedig â busnes

52.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â throedd honedig o dan reoliad 42(1), (2), (3) neu (4) (“trosedd busnes honedig”).

Amount of fixed penalty: participating in a large gathering at a private dwelling

49. Where a fixed penalty notice is issued in respect of an alleged offence under regulation 37(2), the amount of the fixed penalty is £60.

Amount of fixed penalty: organising an event

50.—(1) Where a fixed penalty notice is issued in respect of an alleged offence under regulation 39(1), the amount of the fixed penalty is £500.

(2) But if the person to whom a fixed penalty notice is issued in respect of such an alleged offence has already received a relevant fixed penalty notice—

- (a) paragraph (1) does not apply, and
- (b) the amount of the fixed penalty is—
 - (i) in the case of the second such fixed penalty notice received, £1,000;
 - (ii) in the case of the third such fixed penalty notice received, £2,000;
 - (iii) in the case of the fourth and any subsequent such fixed penalty notice received, £4,000.

(3) In paragraph (2), “relevant fixed penalty notice” means—

- (a) a fixed penalty notice where the amount of fixed penalty is determined under this regulation;
- (b) a fixed penalty notice under the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020 to which regulation 40 of those Regulations applies.

Amount of fixed penalty: organising an unlicensed music event

51. Where a fixed penalty notice is issued in respect of an alleged offence under regulation 39(2), the amount of the fixed penalty is £10,000.

Amount of fixed penalty: business-related offences

52.—(1) This regulation applies to a fixed penalty notice issued in respect of an alleged offence under regulation 42(1), (2), (3) or (4) (an “alleged business offence”).

(2) Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throedd busnes honedig, swm y gosb benodedig yw £1,000.

(3) Ond os yw'r person y dyroddir iddo hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throedd busnes honedig eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig perthnasol—

- (a) nid yw paragraff (2) yn gymwys, a
- (b) swm y gosb benodedig yw—
 - (i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £2,000;
 - (ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, £4,000;
 - (iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig o'r fath a geir wedi hynny, £10,000.

(4) Ym mharagraff (3), ystyr “hysbysiad cosb benodedig perthnasol” yw—

- (a) hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â throedd busnes honedig;
- (b) hysbysiad cosb benodedig o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 y mae rheoliad 42 o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo.

Cosbau penodedig: ffurf a gweithdrefn

53.—(1) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

- (a) rhoi manylion rhesymol fanwl am yr amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd;
- (b) datgan y cyfnod pryd (oherwydd rheoliad 47(6)(a)) na ddygir achos am y drosedd;
- (c) pennu swm y gosb benodedig a bennir o dan reoliad 48, 49, 50, 51 neu 52 (yn ôl y digwydd);
- (d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo;
- (e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

(2) Pa ddull bynnag arall a bennir o dan baragraff (1)(e), caniateir talu cosb benodedig drwy dalu ymlaen llaw a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) at y person y nodir ei enw o dan baragraff (1)(d) i'r cyfeiriad a nodir.

(3) Pan fo llythyr yn cael ei anfon fel y'i crybwyllir ym mharagraff (2), ystyrir bod taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw wedi cael ei ddanfon yn nhrefn arferol y post.

(2) Where a fixed penalty notice is issued in respect of an alleged business offence, the amount of the fixed penalty is £1,000.

(3) But if the person to whom a fixed penalty notice is issued in respect of an alleged business offence has already received a relevant fixed penalty notice—

- (a) paragraph (2) does not apply, and
- (b) the amount of the fixed penalty is—
 - (i) in the case of the second such fixed penalty notice received, £2,000;
 - (ii) in the case of the third such fixed penalty notice received, £4,000;
 - (iii) in the case of the fourth and any subsequent such fixed penalty notice received, £10,000.

(4) In paragraph (3), “relevant fixed penalty notice” means—

- (a) a fixed penalty notice issued in respect of an alleged business offence;
- (b) a fixed penalty notice under the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020 to which regulation 42 of those Regulations applies.

Fixed penalties: form and procedure

53.—(1) A fixed penalty notice must—

- (a) give reasonably detailed particulars of the circumstances alleged to constitute the offence;
- (b) state the period during which (because of regulation 47(6)(a)) proceedings will not be taken for the offence;
- (c) specify the amount of the fixed penalty determined under regulation 48, 49, 50, 51 or 52 (as the case may be);
- (d) state the name and address of the person to whom the fixed penalty may be paid;
- (e) specify permissible methods of payment.

(2) Whatever other method may be specified under paragraph (1)(e), payment of a fixed penalty may be made by pre-paying and posting to the person whose name is stated under paragraph (1)(d), at the stated address, a letter containing the amount of the penalty (in cash or otherwise).

(3) Where a letter is sent as mentioned in paragraph (2), payment is regarded as having been made at the time at which that letter would be delivered in the ordinary course of post.

- (4) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—
- (a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y person a chanddo gyfrifoldeb am faterion ariannol—
 - (i) yr awdurdod lleol, neu
 - (ii) y person sydd wedi ei ddynodi o dan reoliad 47(2)(b),
 a bennir yn yr hysbysiad cosb benodedig y mae'r achos yn ymwneud ag ef, a
 - (b) sy'n datgan bod y taliad am gosb benodedig wedi dod i law, neu heb ddod i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a nodwyd.

Hysbysiadau cosb benodedig: gwahardd cosbi ddwywaith

54.—(1) Pan fo'r un weithred neu anweithred, neu fwy neu lai yr un weithred neu anweithred, gan berson yn gallu arwain at gred resymol bod y person wedi cyflawni mwy nag un drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ni chaniateir dyroddi hysbysiad cosb benodedig i'r person ond mewn cysylltiad ag un o'r troseddau honedig.

(2) Ond caniateir dyroddi hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd honedig o dan reoliad 37(1) yn ogystal â throsedd honedig o dan reoliad 37(2) pan fo'r un weithred, neu fwy neu lai yr un weithred, gan berson yn arwain at gred resymol bod y person wedi cyflawni'r naill drosedd a'r llall.

PENNOD 3

Achosion

Hunanargyhuddo

55.—(1) Caniateir i wybodaeth berthnasol gael ei defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef mewn achos troseddol.

(2) Pan fo'r wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn achos ac eithrio am drosedd o dan y Rheoliadau hyn neu adran 5 o Ddeddf Anudon 1911(1) (datganiadau anwir a wneir ac eithrio ar lw)—

- (a) ni chaniateir i unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei rhoi gan yr erlyniad nac ar ei ran, a
- (b) ni chaniateir i unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei ofyn gan yr erlyniad nac ar ei ran.

(1) 1911 p. 6. Diwygiwyd adran 5 gan adran 1(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1948 (p. 58).

- (4) In any proceedings, a certificate—
- (a) that purports to be signed by or on behalf of the person with responsibility for the financial affairs of—
 - (i) the local authority, or
 - (ii) the person designated under regulation 47(2)(b),
 specified in the fixed penalty notice to which the proceedings relate, and
 - (b) which states that the payment of a fixed penalty was, or was not, received by the date specified in the certificate,

is evidence of the facts stated.

Fixed penalty notices: prohibition of double jeopardy

54.—(1) Where the same, or largely the same, act or omission by a person may give rise to a reasonable belief that the person has committed more than one offence under these Regulations, a fixed penalty notice may be issued to the person only in respect of one of the alleged offences.

(2) But a fixed penalty notice may be issued in respect of both an alleged offence under regulation 37(1) and under regulation 37(2) where the same, or largely the same, act by a person gives rise to a reasonable belief that the person has committed both offences.

CHAPTER 3

Proceedings

Self-incrimination

55.—(1) Relevant information may be used in evidence against the person to whom the information relates in criminal proceedings.

(2) Where the information is used in proceedings other than for an offence under these Regulations or section 5 of the Perjury Act 1911(1) (false statements made otherwise than on oath)—

- (a) no evidence relating to the information may be adduced by or on behalf of the prosecution, and
- (b) no question relating to the information may be asked by or on behalf of the prosecution.

(1) 1911 c. 6. Section 5 was amended by section 1(2) of the Criminal Justice Act 1948 (c. 58).

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

- (a) os rhoddir tystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person a'i darparodd, neu ar ei ran, yn ystod yr achos, neu
- (b) os gofynnir cwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person hwnnw, neu ar ei ran, yn ystod yr achos.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr “gwybodaeth berthnasol” yw—

- (a) gwybodaeth sy'n wybodaeth berthnasol at ddibenion rheoliad 14;
- (b) gwybodaeth, neu'r ateb i gwestiwn, a roddir mewn ymateb i ofyniad a osodir o dan reoliad 36(1);
- (c) unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys mewn dogfen neu gofnodion electronig a ddangosir mewn ymateb i ofyniad a osodir o dan baragraff 8(1) o Atodlen 8.

Erlyn

56.—(1) Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ond gan—

- (a) y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus,
- (b) unrhyw berson sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru, neu
- (c) mewn perthynas ag achos am drosedd o dan reoliad 42, awdurdod lleol.

(2) Mae person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru o dan—

- (a) rheoliad 14 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
- (b) rheoliad 22 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020,
- (c) rheoliad 32 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, neu
- (d) rheoliad 46 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020,

i'w drin fel pe bai wedi ei ddynodi o dan y rheoliad hwn.

RHAN 9 Cyffredinol

Dehongli

57.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(3) Paragraph (2) does not apply if, in the proceedings—

- (a) evidence relating to the information is adduced by or on behalf of the person who provided it, or
- (b) a question relating to the information is asked by or on behalf of that person.

(4) In this regulation, “relevant information” means—

- (a) information which is relevant information for the purposes of regulation 14;
- (b) information, or the answer to a question, given in response to a requirement imposed under regulation 36(1);
- (c) anything contained in a document or electronic records produced in response to a requirement imposed under paragraph 8(1) of Schedule 8.

Prosecutions

56.—(1) No proceedings for an offence under these Regulations may be brought other than by—

- (a) the Director of Public Prosecutions,
- (b) any person designated by the Welsh Ministers, or
- (c) in relation to proceedings for an offence under regulation 42, a local authority.

(2) A person designated by the Welsh Ministers under—

- (a) regulation 14 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020,
- (b) regulation 22 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020,
- (c) regulation 32 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020, or
- (d) regulation 46 of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020,

is to be treated as if designated under this regulation.

PART 9 General

Interpretation

57.—(1) In these Regulations—

- (a) “mae i “alcohol” yr ystyr a roddir i “alcohol” gan adran 191 o Ddeddf Trwyddedu 2003(1);
- (b) ystyr “seremoni briodas arall” yw seremoni—
- (i) sy’n seiliedig ar ffydd neu gred person, neu ei ddiffyg cred, i nodi uniad dau o bobl, ac eithrio seremoni at ddibenion gweinyddiad priodas neu ffurfio partneriaeth sifil,
- (ii) a gynhelir mewn mangre reoleiddiedig, a
- (iii) a drefnir gan sefydliad elusennol, llesianol neu ddyngarol;
- (c) ystyr “gofalwr” yw person sy’n darparu gofal ar gyfer y person a gynorthwyr pan fo—
- (i) hawlogaeth gan y gofalwr i asesiad o dan adran 24 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(2),
- (ii) y gofal yn rhan o ddarparu gwasanaethau gofal cymunedol o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
- (iii) y gofal wedi ei ddarparu gan ddarparwr gofal sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(3);
- (d) ystyr “plentyn” yw person sydd o dan 18 oed;
- (e) ystyr “gwybodaeth gyswllt”, mewn perthynas â pherson, yw enw’r person a gwybodaeth sy’n ddigon i alluogi cysylltiad â’r person, (gan gynnwys rhif ffôn, ac, mewn perthynas â pherson mewn mangre reoleiddiedig, y dyddiad a’r amser yr oedd y person yn y fangre);
- (f) ystyr “swyddog olrhain cysylltiadau” yw—
- (i) person sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen at ddibenion y gwasanaeth iechyd (o fewn ystyr “the health service” yn adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(4) neu adran 108 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(5));
- (ii) person sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan awdurdod lleol,
- (a) “alcohol” has the meaning given by section 191 of the Licensing Act 2003(1);
- (b) “alternative wedding ceremony” means a ceremony—
- (i) based on a person’s faith or belief or lack of belief, to mark the union of two people, other than a ceremony for the purposes of solemnising a marriage or forming a civil partnership,
- (ii) held in regulated premises, and
- (iii) organised by a charitable, benevolent or philanthropic institution;
- (c) “carer” means a person who provides care for the person assisted where—
- (i) the carer is entitled to an assessment under section 24 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(2),
- (ii) the care is part of the provision of community care services under Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, or
- (iii) the care is provided by a care provider registered under Part 1 of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(3);
- (d) “child” means a person who is aged under 18;
- (e) “contact information”, in relation to a person, means the person’s name and information sufficient to enable the person to be contacted, (including a telephone number, and, in relation to a person at regulated premises, the date and time at which the person was at the premises);
- (f) “contact tracer” means—
- (i) a person employed or engaged for the purposes of the health service (within the meaning of section 206 of the National Health Service (Wales) Act 2006(4) or section 108 of the National Health Service (Scotland) Act 1978(5));
- (ii) a person employed or engaged by a local authority,

(1) Diwygiwyd adran 191 gan Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3) ac O.S. 2006/2407.

(2) 2014 dccc 4.

(3) 2016 dccc 2.

(4) 2006 p. 42.

(5) 1978 p. 29.

(1) Section 191 has been amended by the Policing and Crime Act 2017 (c. 3) and S.I. 2006/2407.

(2) 2014 anaw 4.

(3) 2016 anaw 2.

(4) 2006 c. 42.

(5) 1978 c. 29.

- sydd wedi ei ddynodi at ddibenion Rhan 3 gan Fwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru(1) neu awdurdod lleol;
- (g) ystyr “coronafeirws” yw coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);
- (h) ystyr “athletwr elit” yw unigolyn sydd wedi ei ddynodi felly gan Gyngor Chwaraeon Cymru at ddibenion—
- (i) y Rheoliadau hyn,
- (ii) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
- (iii) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020,
- (iv) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, neu
- (v) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020;
- (i) ystyr “digwyddiad chwaraeon elit” yw digwyddiad chwaraeon nad yw ond athletwyr elit yn cystadlu ynddo;
- (j) ystyr “gorchudd wyneb” yw gorchudd o unrhyw fath sy’n gorchuddio trwyn a cheg person;
- (k) ystyr “busnes bwyd a diod” yw—
- (i) bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau);
- (ii) tafarndai;
- (iii) caffis, ffreuturau a bwytai (gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau);
- (l) ystyr “safle gwyliau” yw unrhyw dir yng Nghymru lle y gosodir cartref symudol neu garafân at ddibenion byw gan bobl (gan gynnwys unrhyw dir yng Nghymru a ddefnyddir ar y cyd â’r tir hwnnw), y mae’r caniatâd cynllunio perthnasol neu’r drwydded safle ar gyfer y tir mewn cysylltiad ag ef—
- (i) wedi ei fynegi i’w roi neu wedi ei fynegi i’w rhoi at ddefnydd gwyliau yn unig, neu
- designated for the purposes of Part 3 by a Local Health Board, Public Health Wales National Health Service Trust(1) or a local authority;
- (g) “coronavirus” means severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2);
- (h) “elite athlete” means an individual designated as such by the Sports Council for Wales for the purposes of—
- (i) these Regulations,
- (ii) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020,
- (iii) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020,
- (iv) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020, or
- (v) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020;
- (i) “elite sporting event” means a sporting event at which only elite athletes are competing;
- (j) “face covering” means a covering of any type which covers a person’s nose and mouth;
- (k) “food and drink business” means—
- (i) bars (including bars in members’ clubs);
- (ii) public houses;
- (iii) cafes, canteens and restaurants (including workplace canteens and dining rooms in members’ clubs);
- (l) “holiday site” means any land in Wales on which a mobile home or caravan is stationed for the purposes of human habitation (including any land in Wales used in conjunction with that land), in respect of which the relevant planning permission or the site licence for the land—
- (i) is expressed to be granted for holiday use only, or

(1) Sefydlwyd gan O.S. 2009/2058 (Cy. 177).

(1) Established by S.I. 2009/2058 (W. 177).

- (ii) yn ei gwneud yn ofynnol bod adegau o'r flwyddyn pan na chaniateir gosod unrhyw gartref symudol neu garafán ar y safle i bobl fyw ynddo neu ynddi.
- (m) ystyr "llety gwyliau neu lety teithio" yw llety mewn—
- (i) safleoedd gwersylla;
- (ii) safleoedd gwyliau;
- (iii) gwystai a llety gwely a brecwast;
- (iv) llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio);
- (n) ystyr "awdurdod lleol" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;
- (o) mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr un ystyr ag a roddir i "parental responsibility" yn Neddf Plant 1989(1);
- (p) mae "person sy'n gyfrifol am gynnal busnes" yn cynnwys perchennog a rheolwr y busnes hwnnw;
- (q) mae "mangre" yn cynnwys unrhyw adeilad neu strwythur ac unrhyw dir;
- (r) ystyr "gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus" yw gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd ar gyfer cludo teithwyr ar ffordd, ar reilffordd, ar dramffordd, yn yr awyr neu ar y dŵr;
- (s) mae i "mangre reoleiddiedig" yr ystyr a roddir gan reoliad 15(1);
- (t) ystyr "ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau" yw—
- (i) ardal o Loegr y pennir neu y disgrifir am y tro yn Rhan 2 o Atodlen 4 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau) (Pob Haen) (Lloegr) 2020(2) ei bod o fewn yr ardal Haen 3;
- (ii) ardal o'r Alban a bennir am y tro yn y tabl yn Atodlen 6 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cyfyngiadau a Gofynion) (Lefelau Lleol) (Yr Alban) 2020(3), pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel 3 neu Lefel 4;
- (iii) Gogledd Iwerddon;
- (ii) requires that there are times of the year when no mobile home or caravan may be stationed on the site for human habitation;
- (m) "holiday or travel accommodation" means accommodation in—
- (i) camping sites;
- (ii) holiday sites;
- (iii) hotels and bed and breakfast accommodation;
- (iv) other holiday accommodation (including holiday apartments, hostels and boarding houses);
- (n) "local authority" means the council of a county or county borough in Wales;
- (o) "parental responsibility" has the same meaning as in the Children Act 1989(1);
- (p) a "person responsible for carrying on a business" includes the owner, proprietor, and manager of that business;
- (q) "premises" includes any building or structure and any land;
- (r) "public transport service" means a service provided to the general public for the carriage of passengers by road, railway, tramway, air or water;
- (s) "regulated premises" has the meaning given by regulation 15(1);
- (t) "restricted UK area" means—
- (i) an area of England for the time being specified or described in Part 2 of Schedule 4 to the Health Protection (Coronavirus, Restrictions) (All Tiers) (England) Regulations 2020(2) as being within the Tier 3 area;
- (ii) an area of Scotland for the time being specified in the table in Schedule 6 to the Health Protection (Coronavirus) (Restrictions and Requirements) (Local Levels) (Scotland) Regulations 2020(3), where the table indicates it is a Level 3 or Level 4 area;
- (iii) Northern Ireland;

(1) 1989 p. 41. Gweler Rhan 1 o'r Ddeddf, y mae diwygiadau amrywiol wedi eu gwneud iddi, gan gynnwys gan Ddeddf Ffirwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (p. 22) ac O.S. 2019/1458.

(2) O.S. 2020/1374, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1533 ac O.S. 2020/1572.

(3) O.S.A. 2020/344, fel y'i diwygiwyd gan O.S.A. 2020/347, O.S.A. 2020/374, O.S.A. 2020/389, O.S.A. 2020/392, O.S.A. 2020/400, O.S.A. 2020/415 ac O.S.A. 2020/427.

(1) 1989 c. 41. See Part 1 of the Act, to which there have been various amendments, including by the Human Fertilisation and Embryology Act 2008 (c. 22) and S.I. 2019/1458.

(2) S.I. 2020/1374, as amended by S.I. 2020/1533 and S.I. 2020/1572.

(3) S.S.I. 2020/344, as amended by S.S.I. 2020/347, S.S.I. 2020/374, S.S.I. 2020/389, S.S.I. 2020/392, S.S.I. 2020/400, S.S.I. 2020/415 and S.S.I. 2020/427.

- (u) ystyr “aelwyd un oedolyn” yw—
 - (i) aelwyd sydd ag 1 oedolyn (ac unrhyw nifer o blant), neu
 - (ii) aelwyd sydd ag—
 - (aa) 1 oedolyn sydd â chyfrifoldebau gofalu am 1 oedolyn arall neu ragor ar yr aelwyd,
 - (bb) yr oedolyn neu'r oedolion y gofelir amdanynt,
 - (cc) dim oedolion eraill, a
 - (dd) unrhyw nifer o blant;
- (v) mae “cerbyd” yn cynnwys awyren, car cebl, trêen, tram a llestr;
- (w) mae “person hyglwyf” yn cynnwys—
 - (i) unrhyw berson sy'n 70 oed neu'n hŷn;
 - (ii) unrhyw berson o dan 70 oed sydd â chyflwr iechyd isorwedddol;
 - (iii) unrhyw berson sy'n feichiog;
 - (iv) unrhyw blentyn;
 - (v) unrhyw berson sy'n oedolyn hyglwyf o fewn yr ystyr a roddir i “vulnerable adult” gan adran 60(1) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1).

(2) At ddibenion penderfynu a yw safle yn safle gwyliau ai peidio yn unol â pharagraff (1)(l), mae unrhyw ddarpariaeth yn y caniatâd cynllunio perthnasol neu yn y drwydded safle sy'n caniatáu gosod cartref symudol ar y tir i bobl fyw ynddo drwy gydol y flwyddyn i'w hanwybyddu os yw wedi ei hawdurdodi i'r canlynol feddiannu'r cartref symudol—

- (a) y person sy'n berchen ar y safle, neu
- (b) person sydd wedi ei gyflogi gan y person hwnnw nad yw'n meddiannu'r cartref symudol o dan gytundeb y mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(2) yn gymwys iddo.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, o ran cyfeiriadau at “annedd breifat”—

- (a) maent yn cynnwys cwch preswyl ac unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, tŷ allan neu unrhyw atodyn arall i'r annedd;
- (b) nid ydynt yn cynnwys y canlynol—
 - (i) llety gwyliau neu lety teithio;

- (u) “single adult household” means—
 - (i) a household comprising of 1 adult (and any number of children), or
 - (ii) a household comprising of—
 - (aa) 1 adult who has caring responsibilities for 1 or more other adults in the household,
 - (bb) the adult or adults being cared for,
 - (cc) no other adults, and
 - (dd) any number of children;
- (v) “vehicle” includes an aircraft, a cable car, a train, a tram and a vessel;
- (w) “vulnerable person” includes—
 - (i) any person aged 70 or older;
 - (ii) any person under 70 who has an underlying health condition;
 - (iii) any person who is pregnant;
 - (iv) any child;
 - (v) any person who is a vulnerable adult within the meaning given by section 60(1) of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006(1).

(2) For the purposes of determining whether or not a site is a holiday site in accordance with paragraph (1)(l), any provision of the relevant planning permission or of the site licence which permits the stationing of a mobile home on the land for human habitation all year round is to be ignored if the mobile home is authorised to be occupied by—

- (a) the person who is the owner of the site, or
- (b) a person employed by that person who does not occupy the mobile home under an agreement to which Part 4 of the Mobile Homes (Wales) Act 2013(2) applies.

(3) In these Regulations, references to a “private dwelling”—

- (a) include a houseboat and any garden, yard, passage, stair, outhouse or other appurtenance of the dwelling;
- (b) do not include the following—
 - (i) holiday or travel accommodation;

(1) Diwygiwyd adran 60 gan adran 65 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

(2) 2013 decc 6, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (decc 7).

(1) Section 60 was amended by section 65 of the Protection of Freedoms Act 2012 (c. 9).

(2) 2013 anaw 6, as amended by the Housing (Wales) Act 2014 (anaw 7).

(ii) llety mewn gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, o fewn yr ystyr a roddir i'r termau hynny gan Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

(iii) llety cyfiawnder troseddol.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

- (a) mae cynulliad pan fydd dau neu ragor o bobl yn yr un man er mwyn gwneud rhywbeth gyda'i gilydd;
- (b) mae digwyddiad yn achlysur—
 - (i) sydd wedi ei gynllunio neu ei amserlennu at ddiben penodol, a
 - (ii) pan fo unrhyw nifer o bobl yn yr un man at y diben hwnnw, pa un a ydynt yn cymryd rhan mewn cynulliad ai peidio.

(5) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

- (a) mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(1);
- (b) mae mangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol pan fo awdurdodiad wedi ei ganiatáu neu ei roi i'r fangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ac mae i "awdurdodiad" yr ystyr a roddir i "authorisation" gan adran 136(5) o'r Ddeddf honno.

(6) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae mangre sinema neu theatr yn sinema o sedd cerbyd neu'n theatr o sedd cerbyd—

- (a) os yw'r fangre yn yr awyr agored, a
- (b) os o ran personau sy'n mynd i arddangosiad ffilm neu berfformiad yn y fangre—
 - (i) ni chânt ond gwneud hynny mewn cerbyd caeedig, a
 - (ii) ni chânt, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, adael y cerbyd tra byddant yn y fangre.

(7) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae gweithgaredd "wedi ei drefnu"—

- (a) os yw wedi ei drefnu gan—
 - (i) busnes,
 - (ii) corff cyhoeddus neu sefydliad elusenol, llesiannol, addysgol neu ddyngarol,
 - (iii) clwb neu sefydliad gwleidyddol, neu

(ii) accommodation in a care home service, secure accommodation service or residential family centre service, within the meaning given to those terms by Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016(1);

(iii) criminal justice accommodation.

(4) For the purposes of these Regulations—

- (a) there is a gathering when two or more people are in the same place in order to do something together;
- (b) an event is an occasion—
 - (i) which is planned or scheduled for a particular purpose, and
 - (ii) at which any number of people are in the same place for that purpose, whether or not they are participating in a gathering.

(5) For the purposes of these Regulations—

- (a) premises are indoors if they are enclosed or substantially enclosed within the meaning given by regulation 2 of the Smoke-free Premises etc. (Wales) Regulations 2007(2);
- (b) premises are authorised for the sale or supply of alcohol where the premises have been granted or given an authorisation under the Licensing Act 2003, and "authorisation" has the meaning given by section 136(5) of that Act.

(6) For the purposes of these Regulations, the premises of a cinema or theatre is a drive-in cinema or theatre if—

- (a) the premises are outdoors, and
- (b) persons attending the showing of a film or performance at the premises—
 - (i) may only do so in an enclosed vehicle, and
 - (ii) may not, in so far as is reasonably practicable, leave the vehicle while at the premises.

(7) For the purposes of these Regulations, an activity is "organised" if—

- (a) it is organised by—
 - (i) a business,
 - (ii) a public body or a charitable, benevolent, educational or philanthropic institution,
 - (iii) a club or political organisation, or

(1) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

(1) 2016 anaw 2.

(2) S.I. 2007/787 (W. 68).

- (iv) corff llywodraethu cenedlaethol camp neu weithgaredd arall, a
- (b) os yw'r person sy'n ei drefnu wedi—
 - (i) cynnal asesiad risg a fyddai'n bodloni gofynion rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999(1), pa un a yw'r person yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau hynny ai peidio, a
 - (ii) cydymffurfio â gofynion rheoliadau 16 ac 18(1).
- (8) At ddibenion paragraff (7)(b)—
 - (a) mae rheoliad 3 o Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn gymwys fel pe bai'r gweithgaredd yn ymgymieriad a wneir gan y person sy'n ei drefnu;
 - (b) mae rheoliad 16 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel pe bai—
 - (i) y man lle y mae'r gweithgaredd yn digwydd yn fangre reoleiddiedig at ddibenion y rheoliad hwnnw, a
 - (ii) y person sy'n trefnu'r gweithgaredd oedd y person cyfrifol mewn perthynas â'r fangre reoleiddiedig honno.

- (iv) the national governing body of a sport or other activity, and
- (b) the person organising it has—
 - (i) carried out a risk assessment which would satisfy the requirements of regulation 3 of the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999(1), whether or not the person is subject to those Regulations, and
 - (ii) complied with the requirements of regulations 16 and 18(1).
- (8) For the purposes of paragraph (7)(b)—
 - (a) regulation 3 of the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 applies as if the activity were an undertaking conducted by the person organising it;
 - (b) regulation 16 of these Regulations applies as if—
 - (i) the place where the activity takes place were regulated premises for the purposes of that regulation, and
 - (ii) the person organising the activity were the responsible person in relation to those regulated premises.

Dirymu

- 58.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—
- (a) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020, ac eithrio rheoliad 48;
 - (b) rheoliad 4 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020(2);
 - (c) rheoliad 6 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020(3).

Diwygiad canlyniadol

59. Yn rheoliad 19(10) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020, ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

Revocation

- 58.** The following Regulations are revoked—
- (a) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020, other than regulation 48;
 - (b) regulation 4 of the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (Wales) Regulations 2020(2);
 - (c) regulation 6 of the Health Protection (Coronavirus, International Travel and Restrictions) (Amendment) (No. 2) (Wales) Regulations 2020(3).

Consequential amendment

59. In regulation 19(10) of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Functions of Local Authorities etc.) (Wales) Regulations 2020, after sub-paragraph (d) insert—

(1) O.S. 1992/3242. Diwygiwyd rheoliad 3 gan O.S. 2005/1541, O.S. 2015/21 ac O.S. 2015/1637.
 (2) O.S. 2020/1237 (Cy. 279) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1288 (Cy. 286).
 (3) O.S. 2020/1288 (Cy. 286).

(1) S.I. 1999/3242. Regulation 3 was amended by S.I. 2005/1541, S.I. 2015/21 and S.I. 2015/1637.
 (2) S.I. 2020/1237 (W. 279) as amended by S.I. 2020/1288 (W. 286).
 (3) S.I. 2020/1288 (W. 286).

“(e) Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5)
(Cymru) 2020 os yw rheoliad 48 o’r
Rheoliadau hynny yn gymwys i’r
hysbysiad.”

“(e) the Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
Regulations 2020 if regulation 48 of
those Regulations applies to the notice.
”

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 5.45 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020

First Minister, one of the Welsh Ministers
At 5.45 p.m. on 18 December 2020

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 1

RHAN 1

Cyfyngiadau ar ymgynnull

Cyfyngiad ar gynulladau mewn anheddau preifat

1.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad mewn annedd breifat sy'n cynnwys mwy na 6 o bobl oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd neu'r un aelwyd estynedig.

(2) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (1), nifer y personau sy'n cymryd rhan mewn cynulliad nid yw'r canlynol i'w hystyried—

- (a) unrhyw blant o dan 11 oed, neu
- (b) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(3) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

Alert Level 1 Restrictions

PART 1

Restrictions on gathering

Restriction on gatherings in private dwellings

1.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering in a private dwelling which consists of more than 6 people unless all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household.

(2) In determining, for the purposes of sub-paragraph (1), the number of persons participating in a gathering no account is to be taken of—

- (a) any children under the age of 11, or
- (b) the carer of a person who is participating in the gathering.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (5) applies.

(4) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;

- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

(5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3)(b) yw bod y person yn—

- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed.

(6) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

Cyfyngiad ar gynulladau mewn mannau cyhoeddus

2.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy'n digwydd ac eithrio mewn anedd breifat—

- (a) o dan do, neu yn yr awyr agored mewn mangre reoleiddiedig, sy'n cynnwys mwy na 6 o bobl oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd;
- (b) yn yr awyr agored mewn mangre nad yw'n fangre reoleiddiedig, sy'n cynnwys mwy na 30 o bobl oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig.

(2) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (1), nifer y personau sy'n cymryd rhan mewn cynulliad nid yw'r canlynol i'w hystyried—

- (a) unrhyw blant o dan 11 oed, neu
- (b) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(3) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving educational services.

(5) The circumstances referred to in sub-paragraph (3)(b) are that the person is—

- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm.

(6) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Restriction on gatherings in public places

2.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which takes place other than in a private dwelling—

- (a) indoors, or outdoors in regulated premises, which consists of more than 6 people unless all the persons participating in the gathering are members of the same household;
- (b) outdoors in premises that are not regulated premises, which consists of more than 30 people unless all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household.

(2) In determining, for the purposes of sub-paragraph (1), the number of persons participating in a gathering no account is to be taken of—

- (a) any children under the age of 11, or
- (b) the carer of a person who is participating in the gathering.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (5) applies.

(4) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;

- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.
- (5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiadartneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,
- (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
- (d) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (e) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 50 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, heb gyfrif personau o dan 11 oed neu bersonau sy'n gweithio yn y fangre, i—
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving public services;
- (i) accessing or receiving educational services.
- (5) The circumstances referred to in sub-paragraph (3)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
- (c) attending a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or an alternative wedding ceremony—
- (i) as a party to the marriage, civil partnership or alternative wedding,
- (ii) if invited to attend, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
- (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (e) participating in a gathering of no more than 50 people at regulated premises, not counting persons under the age of 11 or persons working at the premises, to—

- (i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
- (ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
- (f) mynd i addoldy;
- (g) athletwr elit ac yn hyfforddi neu'n cystadlu;
- (h) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elit, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon elit;
- (i) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu o dan do neu hwyluso digwyddiad o'r fath—
 - (i) nad oes mwy na 50 o bobl yn bresennol ynddo, heb gyfrif personau o dan 11 oed neu bersonau sy'n gweithio fel rhan o'r gweithgaredd neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol fel rhan ohono, a
 - (ii) nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed ynddo;
- (j) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored neu hwyluso digwyddiad o'r fath—
 - (i) nad oes mwy na 100 o bobl yn bresennol ynddo, heb gyfrif personau o dan 11 oed neu bersonau sy'n gweithio fel rhan o'r gweithgaredd neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol fel rhan ohono, a
 - (ii) nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed ynddo;
- (k) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol);
- (l) mynd i ddigwyddiad neu hwyluso digwyddiad sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 5.
- (i) celebrate a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony that takes place on or after 22 August 2020;
- (ii) celebrate the life of a deceased person whose funeral is held on or after 22 August 2020;
- (f) attending a place of worship;
- (g) an elite athlete and is training or competing;
- (h) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at an elite sporting event;
- (i) participating in or facilitating an indoor organised activity at which—
 - (i) no more than 50 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, as part of the activity, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (j) participating in or facilitating an outdoor organised activity at which—
 - (i) no more than 100 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, as part of the activity, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (k) participating in or facilitating an organised activity for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays);
- (l) attending or facilitating an event authorised by the Welsh Ministers in accordance with paragraph 5.

Aelwydydd estynedig

3.—(1) Caiff hyd at 3 aelwyd gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig.

(2) Yn ychwanegol at yr hyd at 3 aelwyd a gaiff gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan is-baragraff (1), caiff 1 aelwyd un oedolyn hefyd gytuno i gael ei thrin fel rhan o'r aelwyd estynedig honno.

Extended households

3.—(1) Up to 3 households may agree to be treated as an extended household.

(2) In addition to the up to 3 households who may agree to be treated as an extended household under sub-paragraph (1), 1 single adult household may also agree to be treated as part of that extended household.

(3) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i'r holl aelodau o'r aelwydydd sy'n oedolion gytuno.

(4) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o 1 aelwyd estynedig.

(5) Pan fo aelwydydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan—

- (a) paragraff 3 o Atodlen 2,
- (b) paragraff 3 o Atodlen 3, neu
- (c) paragraff 3 o Atodlen 4,

mae'r aelwydydd hynny i'w trin fel pe baent wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan y paragraff hwn.

(6) Mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(7) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall.

(8) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

(3) To agree to be treated as an extended household, all of the adult members of the households must agree.

(4) A household may only agree to be treated as being in 1 extended household.

(5) Where households have agreed to be treated as an extended household under—

- (a) paragraph 3 of Schedule 2,
- (b) paragraph 3 of Schedule 3, or
- (c) paragraph 3 of Schedule 4,

those households are to be treated as having agreed to be treated as an extended household under this paragraph.

(6) A household ceases to be treated as being in an extended household if any adult member of the household ceases to agree to be treated as being in the extended household.

(7) If a household ceases to be treated as being in an extended household, the household may not agree to be treated as being in an extended household with any other household.

(8) In this Schedule, references to an extended household are references to an extended household formed under or by virtue of this paragraph.

RHAN 2

Cyfyngiadau ar drefnu digwyddiadau

Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau

4.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do lle y mae mwy na 50 o bobl yn bresennol, neu
- (b) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored lle y mae mwy na 100 o bobl yn bresennol,

heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad drwy fynd iddo;

PART 2

Restrictions on organising events

Prohibition on organising events

4.—(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising—

- (a) an event held wholly or mainly indoors at which more than 50 people are in attendance, or
- (b) an event held wholly or mainly outdoors at which more than 100 people are in attendance,

not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the event.

(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising an event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 5.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) a person is not involved in organising an event if the person's only involvement is attending it;

- (b) mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oes mwy na 50 neu 100 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd;
- (c) nid yw'r canlynol i'w trin yn ddigwyddiadau—
 - (i) arddangosiad ffilm;
 - (ii) perfformiad mewn theatr;
 - (iii) marchnad;
 - (iv) gwasanaeth crefyddol;
 - (v) digwyddiad chwaraeon elit nad yw ond athletwyr elit a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yn bresennol ynddo.

- (b) a reasonable excuse includes where the person has taken all reasonable measures to ensure that no more than 50 or 100 people are in attendance, as the case may be;
- (c) the following are not to be treated as events—
 - (i) the showing of a film;
 - (ii) a performance at a theatre;
 - (iii) a market;
 - (iv) a religious service;
 - (v) an elite sporting event at which the only people present are elite athletes and persons working or providing voluntary services at the event.

Digwyddiadau awdurdodedig

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi awdurdodiad ysgrifenedig i ddigwyddiad gael ei gynnal—

- (a) lle y mae mwy na 50 o bobl yn bresennol pan fo'r digwyddiad yn digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do, neu
- (b) lle y mae mwy na 100 o bobl yn bresennol pan fo'r digwyddiad yn digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored;

(2) Nid yw'r cyfeiriadau yn is-baragraff (1) at niferoedd o bobl yn cynnwys personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

(3) Caniateir rhoi awdurdodiad o dan is-baragraff (1) mewn perthynas â digwyddiad penodol neu ddisgrifiad penodol o ddigwyddiadau.

(4) O ran awdurdodiad o dan is-baragraff (1)—

- (a) rhaid iddo gael ei roi i berson y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad, a
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r digwyddiad gael ei gynnal yn unol ag unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi—

- (a) awdurdodiad a roddir o dan is-baragraff (1), a
- (b) manylion unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â digwyddiad sydd i'w gynnal o dan yr awdurdodiad.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu awdurdodiad yn ôl ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person y rhoddwyd yr awdurdodiad iddo.

Authorised events

5.—(1) The Welsh Ministers may give authorisation in writing for an event to be held—

- (a) at which more than 50 people are in attendance where the event takes place wholly or mainly indoors, or
- (b) at which more than 100 people are in attendance where the event takes place wholly or mainly outdoors;

(2) References in sub-paragraph (1) to numbers of people do not include persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the event.

(3) An authorisation may be given under sub-paragraph (1) in relation to a particular event or a particular description of events.

(4) An authorisation under sub-paragraph (1)—

- (a) must be given to a person the Welsh Ministers consider is responsible for organising the event, and
- (b) may require the event to be held in accordance with any requirements, restrictions or other conditions as may be specified by the Welsh Ministers.

(5) The Welsh Ministers must publish—

- (a) an authorisation given under sub-paragraph (1), and
- (b) details of any requirements, restrictions or other conditions specified by the Welsh Ministers in relation to an event to be held under the authorisation.

(6) The Welsh Ministers may withdraw an authorisation at any time by giving notice in writing to the person to whom the authorisation was given.

(7) Ni chaniateir i awdurdodiad gael ei dynnu yn ôl o dan baragraff (6)—

- (a) onid oes gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu na chaiff y digwyddiad ei gynnal, neu nad yw'n cael ei gynnal, yn unol â gofyniad, cyfyngiad neu amod arall a bennir ganddynt, neu
- (b) onid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur tynnu'r awdurdodiad yn ôl at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint gan y coronafeirws.

RHAN 3

Cyfyngiadau ar deithio

Cyfyngiad ar deithio i ardal Lefel Rhybudd 1 ac o ardal Lefel Rhybudd 1

6.—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw—

- (a) mewn ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau, neu
- (b) mewn ardal Lefel Rhybudd 3 neu Lefel Rhybudd 4,

fynd i ardal Lefel Rhybudd 1 neu aros mewn ardal Lefel Rhybudd 1 heb esgus rhesymol.

(2) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw mewn ardal Lefel Rhybudd 1, heb esgus rhesymol, ymadael â'r ardal at ddibenion mynd i'r ardaloedd a ganlyn neu aros ynddynt—

- (a) ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau;
- (b) ardal Lefel Rhybudd 3 neu Lefel Rhybudd 4.

(3) At ddibenion is-baragraffau (1) a (2), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn mynd i'r ardal neu'n ymadael â'r ardal at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol ymarferol i berson fynd i'r ardal neu ymadael â'r ardal atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

(7) An authorisation may be withdrawn under sub-paragraph (6) only if the Welsh Ministers —

- (a) have reasonable grounds to believe that the event will not be held, or is not being held, in accordance with a requirement, restriction or other condition specified by them, or
- (b) consider that it is necessary and proportionate to withdraw the authorisation for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection by coronavirus.

PART 3

Restrictions on travelling

Restriction on travel to and from Alert Level 1 area

6.—(1) No person living in—

- (a) a restricted UK area, or
- (b) an Alert Level 3 or Alert Level 4 area,

may enter or remain in an Alert Level 1 area without a reasonable excuse.

(2) No person living in an Alert Level 1 area may, without a reasonable excuse, leave the area for the purposes of entering or remaining in—

- (a) a restricted UK area;
- (b) an Alert Level 3 or Alert Level 4 area.

(3) For the purposes of sub-paragraphs (1) and (2), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person enters or leaves the area for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative;
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (5) applies.

(4) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to enter or leave the area include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;

- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael gwasanaethau addysgol;
- (j) cael—
- (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;
- (ii) chyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;
- (k) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 39(g) o Atodlen 7 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
- (l) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).
- (5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni priodas arall—
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or participating in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving public services;
- (i) accessing or receiving educational services;
- (j) obtaining—
- (i) food and medical supplies for those in the same household (including animals in the household) or for vulnerable persons;
- (ii) supplies for the essential upkeep, maintenance and functioning of the household, or the household of a vulnerable person;
- (k) obtaining money from or depositing money with any business or service listed in paragraph 39(g) of Schedule 7;
- (l) participating in or facilitating an organised activity for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).
- (5) The circumstances referred to in sub-paragraph (3)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
- (c) attending a solemnization of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—

- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
- (d) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (e) athletwr elít ac yn teithio at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;
- (f) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elít, neu'n darparu cymorth mewn—
- (i) digwyddiad chwaraeon elít, neu
 - (ii) digwyddiad chwaraeon sy'n digwydd y tu allan i Gymru;
- (g) teithio i bleidleisio mewn etholiad;
- (h) teithio ar daith sydd—
- (i) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (1), yn dechrau ac yn gorffen y tu allan i'r ardal, neu
 - (ii) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (2), yn gorffen mewn ardal nad yw'r person wedi ei wahardd rhag mynd iddi neu aros ynddi o dan yr is-baragraff hwnnw,
- ar yr amod bod y person yn cymryd pob mesur sy'n rhesymol ymarferol i stopio cyn lleied ag y bo modd yn ystod y daith;
- (i) teithio i gymryd rhan mewn cynulliad gydag aelwyd estynedig y person yn unol ag unrhyw gyfyngiadau ar gynullïadau sy'n gymwys lle y mae'r cynulliad yn digwydd.

- (i) as a party to the marriage, civil partnership or alternative wedding,
 - (ii) if invited to attend, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
 - (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
- (e) an elite athlete and is and is travelling for the purposes of training or competition;
- (f) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at—
- (i) an elite sporting event, or
 - (ii) a sporting event taking place outside Wales;
- (g) travelling to vote in an election;
- (h) travelling on a journey which—
- (i) in relation to the restriction in sub-paragraph (1), begins and ends outside the area, or
 - (ii) in relation to the restriction in sub-paragraph (2), ends in an area which the person is not prohibited from entering or remaining in under that sub-paragraph,
- provided that the person takes all reasonably practicable measures to minimise any stops during the journey;
- (i) travelling to participate in a gathering with the person's extended household in accordance with any restrictions on gatherings applicable where the gathering takes place.

RHAN 4

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

Cau mangreoedd a ddefnyddir gan fusnesau a gwasanaethau penodol

7.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal neu ddarparu busnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 9 neu 10—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a

PART 4

Restrictions on certain businesses and services

Closure of premises used by certain businesses and services

7.—(1) A person responsible for carrying on or providing a business or service listed in paragraph 9 or 10 must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business or service, and

- (b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;
- (c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath;
- (d) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwasanaethau neu wybodaeth (gan gynnwys gwerthu, llogi neu ddanfôn nwyddau neu wasanaethau)—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

(3) Pan—

- (a) bo'n ofynnol, yn rhinwedd y paragraff hwn, i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

Cyfyngiadau ar fangroedd trwyddedig

8.—(1) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol werthu na chyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(2) Pan fo'r fangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, o ran y person sy'n gyfrifol am y fangre—

- (a) rhaid iddo gau'r fangre (i gwsmeriaid) am neu cyn 10.20 p.m. bob dydd, a
- (b) ni chaiff agor y fangre cyn 6.00 a.m. bob dydd.

(3) Er gwaethaf is-baragraff (2), caiff sinema neu theatr gau'n hwyrach na 10.20 p.m. ond dim ond at ddiben gorffen—

- (b) not carry on the business or service at such premises otherwise than in accordance with this regulation.

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;
- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;
- (c) the use of premises to broadcast without an audience present at the premises (whether over the internet or as part of a radio or television broadcast) or to rehearse for such a broadcast;
- (d) the use of premises for the provision of services or information (including the sale, hire or delivery of goods or services)—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post.

(3) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

Restrictions on licensed premises

8.—(1) A person responsible for premises which are authorised for the sale or supply of alcohol may not sell or supply alcohol between 10.00 p.m. and 6.00 a.m.

(2) Where the premises are authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises, the person responsible for the premises—

- (a) must close the premises (to customers) at or before 10.20 p.m. each day, and
- (b) may not open the premises before 6.00 a.m. each day.

(3) Despite sub-paragraph (2), a cinema or theatre may close later than 10.20 p.m. but only for the purpose of concluding—

- (a) arddangos ffilm, neu
- (b) perfformiad,

sy'n dechrau cyn 10.00 p.m.

(4) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys i—

- (a) mangre mewn—
 - (i) porthladd môr;
 - (ii) maes awyr;
 - (iii) sefydliad addysgol;
- (b) ffreuturau yn y gweithle.

(5) O ran ei gymhwysiad i fangre llety gwyliau neu lety teithio, nid yw is-baragraff (2) ond yn gymwys i'r rhannau hynny o'r fangre lle y gwerthir neu y cyflenwir alcohol i'w yfed yn y fangre.

(6) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn caniatáu i'r fangre fod ar agor, nac i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi, yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

(7) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae is-baragraffau (2) i (4) yn gymwys i'r fangre honno fel y maent yn gymwys i fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

Busnesau neu wasanaethau y mae rhaid cau eu mangreodd

9. Clybiau nos, disgos, neuaddau dawnsio neu leoliadau eraill sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

10. Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i "sexual entertainment venue" gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(1)).

- (a) the showing of a film, or
- (b) a performance,

which begins before 10.00 p.m.

(4) Sub-paragraph (2) does not apply to—

- (a) premises located in—
 - (i) a sea port;
 - (ii) an airport;
 - (iii) an educational establishment;
- (b) workplace canteens.

(5) In its application to the premises of holiday or travel accommodation, sub-paragraph (2) applies only to those parts of the premises in which alcohol is sold or supplied for consumption on the premises.

(6) Sub-paragraphs (1) and (2) do not allow the premises to be open, or alcohol to be sold or supplied, in contravention of an authorisation granted or given in respect of the premises.

(7) Where regulated premises not authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises allow customers to consume their own alcohol on the premises, sub-paragraphs (2) to (4) apply to those premises as they apply to premises that are authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises.

Businesses or services whose premises must be closed

9. Nightclubs, discotheques, dance halls or other venues authorised for the sale or supply of alcohol where live or recorded music is provided for members of the public or members of the venue to dance.

10. Sexual entertainment venues (within the meaning given by paragraph 2A of Schedule 3 to the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982(1)).

(1) 1982 p. 30. Mewnosodwyd paragraff 2A o Atodlen 3 gan adran 27(3) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).

(1) 1982 c. 30. Paragraph 2A of Schedule 3 was inserted by section 27(3) of the Policing and Crime Act 2009 (c. 26).

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 2

RHAN 1

Cyfyngiadau ar ymgynnull

Cyfyngiad ar gynullïadau mewn anheddau preifat

1.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynullïad mewn anedd breifat—

- (a) o dan do, gydag unrhyw berson arall ac eithrio aelodau o'i aelwyd neu o'i aelwyd estynedig;
- (b) yn yr awyr agored, sy'n cynnwys mwy na 4 o bobl oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynullïad yn aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig.

(2) Wrth bennu, at ddibenion is-baragraff (1)(b), nifer y personau sy'n cymryd rhan mewn cynullïad, nid yw'r canlynol i'w ystyried—

- (a) unrhyw blant o dan 11 oed, neu
- (b) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynullïad.

(3) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynullïad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynullïad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

Alert Level 2 Restrictions

PART 1

Restrictions on gathering

Restriction on gatherings in private dwellings

1.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering in a private dwelling—

- (a) indoors, with any other person apart from members of their household or extended household
- (b) outdoors, which consists of more than 4 people unless all the persons participating in the gathering are members of the same household or extended household.

(2) In determining, for the purposes of sub-paragraph (1)(b), the number of persons participating in a gathering no account is to be taken of—

- (a) any children under the age of 11, or
- (b) the carer of a person who is participating in the gathering.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (5) applies.

(4) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;

(e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(f) symud cartref;

(g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;

(h) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

(5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3)(b) yw bod y person yn—

(a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;

(b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;

(c) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—

(i) yn byw yn yr un fangre, a

(ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd.

(6) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddiartref.

Cyfyngiad ar gynulladau mewn mannau cyhoeddus

2.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad—

(a) sy'n digwydd yn unman ac eithrio—

(i) mewn annedd breifat, neu

(ii) mewn llety gwyliau neu lety teithio, a

(b) sy'n cynnwys mwy na 4 o bobl, heb gynnwys—

(i) unrhyw blant o dan 11 oed, na

(ii) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath—

(a) sy'n digwydd o dan do neu mewn unrhyw ran o fangre reoleiddiedig sydd yn yr awyr agored, os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd, neu

(b) sy'n digwydd yn yr awyr agored ac eithrio mewn mangre reoleiddiedig, os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad—

(i) yn aelodau o'r un aelwyd, neu

(ii) yn aelodau o'r un aelwyd estynedig.

(e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;

(f) moving home;

(g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;

(h) accessing or receiving educational services.

(5) The circumstances referred to in sub-paragraph (3)(b) are that the person is—

(a) providing or receiving emergency assistance;

(b) avoiding illness, injury or other risk of harm;

(c) participating in a gathering of no more than 4 people where all the persons in the gathering—

(i) live in the same premises, and

(ii) share toilet, washing, dining or cooking facilities with each other.

(6) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Restriction on gatherings in public places

2.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which—

(a) takes place anywhere other than—

(i) in a private dwelling, or

(ii) in holiday or travel accommodation, and

(b) consists of more than 4 people, not including—

(i) any children under the age of 11, or

(ii) the carer of a person who is participating in the gathering.

(2) But a person may participate in such a gathering which—

(a) takes place indoors or in any part of regulated premises that is outdoors, if all the persons participating in the gathering are members of the same household, or

(b) takes place outdoors other than in regulated premises, if all the persons participating in the gathering are—

(i) members of the same household, or

(ii) members of the same extended household.

(3) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy'n digwydd mewn llety gwyliau neu lety teithio oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd.

(4) At ddibenion is-baragraffau (1) a (3), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (6) yn gymwys.

(5) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

(6) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (4)(b) yw bod y person yn—

- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;

(3) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which takes place in holiday or travel accommodation unless all the persons participating in the gathering are members of the same household.

(4) For the purposes of sub-paragraphs (1) and (3), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (6) applies.

(5) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving public services;
- (i) accessing or receiving educational services.

(6) The circumstances referred to in sub-paragraph (4)(b) are that the person is—

- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;

- (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
- (d) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (e) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 15 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, heb gyfrif personau o dan 11 oed neu bersonau sy'n gweithio yn y fangre, i—
- (i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
 - (ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
- (f) mynd i addoldy;
- (g) athletwr elît ac yn hyfforddi neu'n cystadlu;
- (h) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon elît;
- (i) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu o dan do neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw—
- (i) lle nad yw mwy na 15 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio fel rhan o'r gweithgaredd neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol fel rhan ohono, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
- (j) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw—
- (i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio fel rhan o'r gweithgaredd neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol fel rhan ohono, a
- (c) attending a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—
- (i) as a party to the marriage, civil partnership or alternative wedding,
 - (ii) if invited to attend, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
 - (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
- (e) participating in a gathering of no more than 15 people at regulated premises, not counting persons under the age of 11 or persons working at the premises, to—
- (i) celebrate a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony that takes place on or after 22 August 2020;
 - (ii) celebrate the life of a deceased person whose funeral is held on or after 22 August 2020;
- (f) attending a place of worship;
- (g) an elite athlete and is training or competing;
- (h) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at an elite sporting event;
- (i) participating in or facilitating an indoor organised activity at which—
- (i) no more than 15 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, as part of the activity, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (j) participating in or facilitating an outdoor organised activity at which—
- (i) no more than 30 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, as part of the activity, and

(ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;

(k) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol);

(l) mynd i ddigwyddiad neu hwyluso digwyddiad sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 5.

(7) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddiartref.

Aelwydydd estynedig

3.—(1) Caiff 2 aelwyd gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig.

(2) Yn ychwanegol at y 2 aelwyd a gaiff gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan is-baragraff (1), caiff 1 aelwyd un oedolyn hefyd gytuno i gael ei thrin fel rhan o'r aelwyd estynedig honno.

(3) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i'r holl aelodau o'r 2 aelwyd sy'n oedolion gytuno.

(4) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o 1 aelwyd estynedig.

(5) Pan fo aelwydydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan baragraff 3 o Atodlen 1 dim ond rhwng yr aelwydydd hynny y caniateir gwneud cytundeb o dan y paragraff hwn.

(6) Pan fo aelwydydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan—

(a) paragraff 3 o Atodlen 3, neu

(b) paragraff 3 o Atodlen 4,

mae'r aelwydydd hynny i'w trin fel pe baent wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan y paragraff hwn.

(7) Mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(8) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall.

(9) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

(ii) no alcohol is consumed;

(k) participating in or facilitating an organised activity for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays);

(l) attending or facilitating an event authorised by the Welsh Ministers in accordance with paragraph 5.

(7) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Extended households

3.—(1) 2 households may agree to be treated as an extended household.

(2) In addition to the 2 households who may agree to be treated as an extended household under subparagraph (1), 1 single adult household may also agree to be treated as part of that extended household.

(3) To agree to be treated as an extended household, all of the adult members of the 2 households must agree.

(4) A household may only agree to be treated as being in 1 extended household.

(5) Where households have agreed to be treated as an extended household under paragraph 3 of Schedule 1 an agreement under this paragraph may be made only between those households.

(6) Where households have agreed to be treated as an extended household under—

(a) paragraph 3 of Schedule 3, or

(b) paragraph 3 of Schedule 4,

those households are to be treated as having agreed to be treated as an extended household under this paragraph.

(7) A household ceases to be treated as being in an extended household if any adult member of the household ceases to agree to be treated as being in the extended household.

(8) If a household ceases to be treated as being in an extended household, the household may not agree to be treated as being in an extended household with any other household.

(9) In this Schedule, references to an extended household are references to an extended household formed under or by virtue of this paragraph.

RHAN 2

Cyfyngiadau ar drefnu digwyddiadau

Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau

4.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol, neu
- (b) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored lle y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol,

heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad drwy fynd iddo;
- (b) mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oes mwy na 15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd;
- (c) nid yw'r canlynol i'w trin yn ddigwyddiadau—
 - (i) arddangosiad ffilm;
 - (ii) perfformiad mewn theatr;
 - (iii) marchnad;
 - (iv) gwasanaeth crefyddol;
 - (v) digwyddiad chwaraeon elit nad yw ond athletwyr elit a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yn bresennol ynddo.

Digwyddiadau awdurdodedig

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi awdurdodiad ysgrifenedig i ddigwyddiad gael ei gynnal—

- (a) lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol pan fo'r digwyddiad yn digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do, neu
- (b) lle y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol pan fo'r digwyddiad yn digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored;

PART 2

Restrictions on organising events

Prohibition on organising events

4.—(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising—

- (a) an event held wholly or mainly indoors at which more than 15 people are in attendance, or
- (b) an event held wholly or mainly outdoors at which more than 30 people are in attendance,

not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the event.

(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising an event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 5.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) a person is not involved in organising an event if the person's only involvement is attending it;
- (b) a reasonable excuse includes where the person has taken all reasonable measures to ensure that no more than 15 or 30 people are in attendance, as the case may be;
- (c) the following are not to be treated as events—
 - (i) the showing of a film;
 - (ii) a performance at a theatre;
 - (iii) a market;
 - (iv) a religious service;
 - (v) an elite sporting event at which the only people present are elite athletes and persons working or providing voluntary services at the event.

Authorised events

5.—(1) The Welsh Ministers may give authorisation in writing for an event to be held—

- (a) at which more than 15 people are in attendance where the event takes place wholly or mainly indoors, or
- (b) at which more than 30 people are in attendance where the event takes place wholly or mainly outdoors;

(2) Nid yw'r cyfeiriadau yn is-baragraff (1) at niferoedd o bobl yn cynnwys personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

(3) Caniateir rhoi awdurdodiad o dan is-baragraff (1) mewn perthynas â digwyddiad penodol neu ddisgrifiad penodol o ddigwyddiadau.

(4) O ran awdurdodiad o dan is-baragraff (1)—

- (a) rhaid iddo gael ei roi i berson y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad, a
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r digwyddiad gael ei gynnal yn unol ag unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi—

- (a) awdurdodiad a roddir o dan is-baragraff (1), a
- (b) manylion unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â digwyddiad sydd i'w gynnal o dan yr awdurdodiad.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu awdurdodiad yn ôl ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person y rhoddwyd yr awdurdodiad iddo.

(7) Ni chaniateir i awdurdodiad gael ei dynnu yn ôl o dan baragraff (6)—

- (a) onid oes gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu na chaiff y digwyddiad ei gynnal, neu nad yw'n cael ei gynnal, yn unol â gofyniad, cyfyngiad neu amod arall a bennir ganddynt, neu
- (b) onid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur tynnu'r awdurdodiad yn ôl at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint gan y coronafeirws.

RHAN 3

Cyfyngiadau ar deithio

Cyfyngiad ar deithio i ardal Lefel Rhybudd 2 ac o ardal Lefel Rhybudd 2

6.—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw—

- (a) mewn ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau, neu
- (b) mewn ardal Lefel Rhybudd 3 neu Lefel Rhybudd 4,

(2) References in sub-paragraph (1) to numbers of people do not include persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the event.

(3) An authorisation may be given under sub-paragraph (1) in relation to a particular event or a particular description of events.

(4) An authorisation under sub-paragraph (1)—

- (a) must be given to a person the Welsh Ministers consider is responsible for organising the event, and
- (b) may require the event to be held in accordance with any requirements, restrictions or other conditions as may be specified by the Welsh Ministers.

(5) The Welsh Ministers must publish—

- (a) an authorisation given under sub-paragraph (1), and
- (b) details of any requirements, restrictions or other conditions specified by the Welsh Ministers in relation to an event to be held under the authorisation.

(6) The Welsh Ministers may withdraw an authorisation at any time by giving notice in writing to the person to whom the authorisation was given.

(7) An authorisation may be withdrawn under sub-paragraph (6) only if the Welsh Ministers —

- (a) have reasonable grounds to believe that the event will not be held, or is not being held, in accordance with a requirement, restriction or other condition specified by them, or
- (b) consider that it is necessary and proportionate to withdraw the authorisation for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection by coronavirus.

PART 3

Restrictions on travelling

Restriction on travel to and from Alert Level 2 area

6.—(1) No person living in—

- (a) a restricted UK area, or
- (b) an Alert Level 3 or Alert Level 4 area,

fynd i ardal Lefel Rhybudd 2 neu aros mewn ardal Lefel Rhybudd 2 heb esgus rhesymol.

(2) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw mewn ardal Lefel Rhybudd 2, heb esgus rhesymol, ymadael â'r ardal at ddibenion mynd i'r ardaloedd a ganlyn neu aros ynddynt—

- (a) ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau;
- (b) ardal Lefel Rhybudd 3 neu Lefel Rhybudd 4.

(3) At ddibenion is-baragraffau (1) a (2), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn mynd i'r ardal neu'n ymadael â'r ardal at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol ymarferol i berson fynd i'r ardal neu ymadael â'r ardal atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael gwasanaethau addysgol;

may enter or remain in an Alert Level 2 area without a reasonable excuse.

(2) No person living in an Alert Level 2 area may, without a reasonable excuse, leave the area for the purposes of entering or remaining in—

- (a) a restricted UK area;
- (b) an Alert Level 3 or Alert Level 4 area.

(3) For the purposes of sub-paragraphs (1) and (2), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person enters or leaves the area for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative;
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (5) applies.

(4) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to enter or leave the area include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or participating in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving public services;
- (i) accessing or receiving educational services;

- (j) cael—
- (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;
 - (ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;
- (k) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 39(g) o Atodlen 7 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
- (l) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).
- (5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
 - (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
 - (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiadartneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
 - (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas;
 - (d) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
 - (e) athletwr elít ac yn teithio at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;
 - (f) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elít, neu'n darparu cymorth mewn—
 - (i) digwyddiad chwaraeon elít, neu
 - (ii) digwyddiad chwaraeon sy'n digwydd y tu allan i Gymru;
 - (g) teithio er mwyn pleidleisio mewn etholiad;
 - (h) teithio ar daith sydd—
 - (i) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (1), yn dechrau ac yn gorffen y tu allan i'r ardal, neu
- (j) obtaining—
- (i) food and medical supplies for those in the same household (including animals in the household) or for vulnerable persons;
 - (ii) supplies for the essential upkeep, maintenance and functioning of the household, or the household of a vulnerable person;
- (k) obtaining money from or depositing money with any business or service listed in paragraph 39(g) of Schedule 7;
- (l) participating in or facilitating an organised activity for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).
- (5) The circumstances referred to in sub-paragraph (3)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
 - (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
 - (c) attending a solemnization of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony —
 - (i) as a party to the marriage, civil partnership or wedding,
 - (ii) if invited to attend, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
 - (d) attending a funeral—
 - (i) as a person responsible for arranging the funeral,
 - (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
 - (e) an elite athlete and is and is travelling for the purposes of training or competition;
 - (f) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at—
 - (i) an elite sporting event, or
 - (ii) a sporting event taking place outside Wales;
 - (g) travelling to vote in an election;
 - (h) travelling on a journey which—
 - (i) in relation to the restriction in sub-paragraph (1), begins and ends outside the area, or

- (ii) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (2), yn gorffen mewn ardal nad yw'r person wedi ei wahardd rhag mynd iddi neu aros ynddi o dan yr is-baragraff hwnnw,

ar yr amod bod y person yn cymryd pob mesur sy'n rhesymol ymarferol i stopio cyn lleied ag y bo modd yn ystod y daith;

- (i) teithio i gymryd rhan mewn cynulliad gydag aelwyd estynedig y person yn unol ag unrhyw gyfyngiadau ar gynulliadau sy'n gymwys lle y mae'r cynulliad yn digwydd.

- (ii) in relation to the restriction in sub-paragraph (2), ends in an area which the person is not prohibited from entering or remaining in under that sub-paragraph,

provided that the person takes all reasonably practicable measures to minimise any stops during the journey;

- (i) travelling to participate in a gathering with the person's extended household in accordance with any restrictions on gatherings applicable where the gathering takes place.

RHAN 4

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

Cau mangreoedd a ddefnyddir gan fusnesau a gwasanaethau penodol

7.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal neu ddarparu busnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 9 neu 10—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a
- (b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;
- (c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath;
- (d) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwasanaethau neu wybodaeth (gan gynnwys gwerthu, llogi neu ddanfôn nwyddau neu wasanaethau)—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

PART 4

Restrictions on certain businesses and services

Closure of premises used by certain businesses and services

7.—(1) A person responsible for carrying on or providing a business or service listed in paragraph 9 or 10 must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business or service, and
- (b) not carry on the business or service at such premises otherwise than in accordance with this regulation.

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;
- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;
- (c) the use of premises to broadcast without an audience present at the premises (whether over the internet or as part of a radio or television broadcast) or to rehearse for such a broadcast;
- (d) the use of premises for the provision of services or information (including the sale, hire or delivery of goods or services)—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post.

(3) Pan—

- (a) bo'n ofynnol, yn rhinwedd y paragraff hwn, i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

Cyfyngiadau ar fangroedd trwyddedig

8.—(1) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol werthu na chyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(2) Pan fo'r fangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, o ran y person sy'n gyfrifol am y fangre—

- (a) ni chaiff werthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre ond fel rhan o bryd bwyd wrth y bwrdd y gellid disgwyl iddo gael ei weini fel brecwast, prif bryd bwyd canol dydd neu brif bryd bwyd gyda'r hwyr, neu ei weini fel prif gwrs mewn pryd bwyd o'r fath,
- (b) rhaid iddo gau'r fangre (i gwsmeriaid) am neu cyn 10.20 p.m. bob dydd, a
- (c) ni chaiff agor y fangre cyn 6.00 a.m. bob dydd.

(3) Er gwaethaf is-baragraff (2), caiff sinema neu theatr gau'n hwyrach na 10.20 p.m. ond dim ond at ddiben gorffen—

- (a) arddangos ffilm, neu
- (b) perfformiad,

sy'n dechrau cyn 10.00 p.m.

(4) Nid yw is-baragraff (2)(b) ac (c) yn gymwys i—

- (a) mangre mewn—
 - (i) porthladd môr;
 - (ii) maes awyr;
 - (iii) sefydliad addysgol;
- (b) ffreuturau yn y gweithle.

(5) O ran ei gymhwysiad i fangre llety gwyliau neu lety teithio, nid yw is-baragraff (2) ond yn gymwys i'r rhannau hynny o'r fangre lle y gwerthir neu y cyflenwir alcohol i'w yfed yn y fangre.

(6) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn caniatáu i'r fangre fod ar agor, nac i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi, yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

(3) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

Restrictions on licensed premises

8.—(1) A person responsible for premises which are authorised for the sale or supply of alcohol may not sell or supply alcohol between 10.00 p.m. and 6.00 a.m.

(2) Where the premises are authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises, the person responsible for the premises—

- (a) may only sell or supply alcohol for consumption on the premises as part of a table meal such as might be expected to be served as breakfast, the main midday or main evening meal, or served as a main course at such a meal,
- (b) must close the premises (to customers) at or before 10.20 p.m. each day, and
- (c) may not open the premises before 6.00 a.m. each day.

(3) Despite sub-paragraph (2), a cinema or theatre may close later than 10.20 p.m. but only for the purpose of concluding—

- (a) the showing of a film, or
- (b) a performance,

which begins before 10.00 p.m.

(4) Sub-paragraph (2)(b) and (c) does not apply to—

- (a) premises located in—
 - (i) a sea port;
 - (ii) an airport;
 - (iii) an educational establishment;
- (b) workplace canteens.

(5) In its application to the premises of holiday or travel accommodation, sub-paragraph (2) applies only to those parts of the premises in which alcohol is sold or supplied for consumption on the premises.

(6) Sub-paragraphs (1) and (2) do not allow the premises to be open, or alcohol to be sold or supplied, in contravention of an authorisation granted or given in respect of the premises.

(7) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae is-baragraffau (2) i (4) yn gymwys i'r fangre honno fel y maent yn gymwys i fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

Busnesau neu wasanaethau y mae rhaid cau eu mangreoedd

9. Clybiau nos, disgos, neuaddau dawnsio neu leoliadau eraill sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

10. Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i "sexual entertainment venue" gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982).

(7) Where regulated premises not authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises allow customers to consume their own alcohol on the premises, sub-paragraphs (2) to (4) apply to those premises as they apply to premises that are authorised for the sale or supply of alcohol for consumption on the premises.

Businesses or services whose premises must be closed

9. Nightclubs, discotheques, dance halls or other venues authorised for the sale or supply of alcohol where live or recorded music is provided for members of the public or members of the venue to dance.

10. Sexual entertainment venues (within the meaning given by paragraph 2A of Schedule 3 to the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982).

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 3

RHAN 1

Cyfyngiadau ar ymgynnull

Cyfyngiad ar gynullïadau mewn anheddau preifat

1.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynullïad mewn anedd breifat gydag unrhyw berson arall ac eithrio aelodau o'i aelwyd neu o'i aelwyd estynedig.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynullïad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (4) yn gymwys.

(3) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynullïad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

Alert Level 3 Restrictions

PART 1

Restrictions on gathering

Restriction on gatherings in private dwellings

1.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering in a private dwelling with any other person apart from members of their household or extended household.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (4) applies.

(3) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving educational services.

(4) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b) yw bod y person yn—

- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—
 - (i) yn byw yn yr un fangre, a
 - (ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd.

(5) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

Cyfyngiad ar gynulladau mewn mannau cyhoeddus

2.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad—

- (a) sy'n digwydd yn unman ac eithrio—
 - (i) mewn annedd breifat, neu
 - (ii) mewn llety gwyliau neu lety teithio, a
- (b) sy'n cynnwys mwy na 4 o bobl, heb gynnwys—
 - (i) unrhyw blant o dan 11 oed, na
 - (ii) gofalwr person sy'n cymryd rhan yn y cynulliad.

(2) Ond caiff person gymryd rhan mewn cynulliad o'r fath—

- (a) sy'n digwydd o dan do neu mewn unrhyw ran o fangre reoleiddiedig sydd yn yr awyr agored, os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd, neu
- (b) sy'n digwydd yn yr awyr agored ac eithrio mewn mangre reoleiddiedig, os yw'r holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad—
 - (i) yn aelodau o'r un aelwyd, neu
 - (ii) yn aelodau o'r un aelwyd estynedig.

(3) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, gymryd rhan mewn cynulliad sy'n digwydd mewn llety gwyliau neu lety teithio oni bai bod yr holl bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad yn aelodau o'r un aelwyd.

(4) At ddibenion is-baragraffau (1) a (3), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn cymryd rhan yn y cynulliad at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (6) yn gymwys.

(4) The circumstances referred to in sub-paragraph (2)(b) are that the person is—

- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
- (c) participating in a gathering of no more than 4 people where all the persons in the gathering—
 - (i) live in the same premises, and
 - (ii) share toilet, washing, dining or cooking facilities with each other.

(5) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Restriction on gatherings in public places

2.—(1) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which—

- (a) takes place anywhere other than—
 - (i) in a private dwelling, or
 - (ii) in holiday or travel accommodation, and
- (b) consists of more than 4 people, not including—
 - (i) any children under the age of 11, or
 - (ii) the carer of a person who is participating in the gathering.

(2) But a person may participate in such a gathering which—

- (a) takes place indoors or in any part of regulated premises that is outdoors, if all the persons participating in the gathering are members of the same household, or
- (b) takes place outdoors other than in regulated premises, if all the persons participating in the gathering are—
 - (i) members of the same household, or
 - (ii) members of the same extended household.

(3) No person may, without a reasonable excuse, participate in a gathering which takes place in holiday or travel accommodation unless all the persons participating in the gathering are members of the same household.

(4) For the purposes of sub-paragraphs (1) and (3), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is participating in the gathering for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (6) applies.

(5) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.

(6) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (4)(b) yw bod y person yn—

- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiadartneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
 - (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
- (d) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(5) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving public services;
- (i) accessing or receiving educational services.

(6) The circumstances referred to in sub-paragraph (4)(b) are that the person is—

- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
- (c) attending a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—
 - (i) as a party to the marriage, civil partnership or alternative wedding,
 - (ii) if invited to attend, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a funeral—
 - (i) as a person responsible for arranging the funeral,

- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (e) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 15 o bobl mewn mangre reoleiddiedig, heb gyfrif personau o dan 11 oed neu bersonau sy'n gweithio yn y fangre, i—
 - (i) dathlu gweinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall sy'n digwydd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
 - (ii) dathlu bywyd person ymadawedig y cynhelir ei angladd ar neu ar ôl 22 Awst 2020;
- (f) mynd i addoldy;
- (g) athletwr elît ac yn hyfforddi neu'n cystadlu;
- (h) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon elît;
- (i) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu o dan do neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw—
 - (i) lle nad yw mwy na 15 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio fel rhan o'r gweithgaredd neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol fel rhan ohono, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
- (j) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu yn yr awyr agored neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw—
 - (i) lle nad yw mwy na 30 o bobl yn bresennol, heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio fel rhan o'r gweithgaredd neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol fel rhan ohono, a
 - (ii) lle nad oes unrhyw alcohol yn cael ei yfed;
- (k) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).

(7) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

- (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (e) participating in a gathering of no more than 15 people at regulated premises, not counting persons under the age of 11 or persons working at the premises, to—
 - (i) celebrate a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony that takes place on or after 22 August 2020;
 - (ii) celebrate the life of a deceased person whose funeral is held on or after 22 August 2020;
- (f) attending a place of worship;
- (g) an elite athlete and is training or competing;
- (h) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at an elite sporting event;
- (i) participating in or facilitating an indoor organised activity at which—
 - (i) no more than 15 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, as part of the activity, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (j) participating in or facilitating an outdoor organised activity at which—
 - (i) no more than 30 people are in attendance, not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, as part of the activity, and
 - (ii) no alcohol is consumed;
- (k) participating in or facilitating an organised activity for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).

(7) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Aelwydydd estynedig

3.—(1) Caiff 2 aelwyd gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig.

(2) Yn ychwanegol at y 2 aelwyd a gaiff gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan is-baragraff (1), caiff 1 aelwyd un oedolyn hefyd gytuno i gael ei thrin fel rhan o'r aelwyd estynedig honno.

(3) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i'r holl aelodau o'r 2 aelwyd sy'n oedolion gytuno.

(4) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o 1 aelwyd estynedig.

(5) Pan fo aelwydydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan baragraff 3 o Atodlen 1 dim ond rhwng yr aelwydydd hynny y caniateir gwneud cytundeb o dan y paragraff hwn.

(6) Pan fo aelwydydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan—

- (a) paragraff 3 o Atodlen 2, neu
- (b) paragraff 3 o Atodlen 4,

mae'r aelwydydd hynny i'w trin fel pe baent wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan y paragraff hwn.

(7) Mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael eu trin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(8) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall.

(9) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

RHAN 2

Cyfyngiadau ar drefnu digwyddiadau

Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau

4.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol, neu
- (b) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored lle y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol,

heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

Extended households

3.—(1) 2 households may agree to be treated as an extended household.

(2) In addition to the 2 households who may agree to be treated as an extended household under subparagraph (1), 1 single adult household may also agree to be treated as part of that extended household.

(3) To agree to be treated as an extended household, all of the adult members of the 2 households must agree.

(4) A household may only agree to be treated as being in 1 extended household.

(5) Where households have agreed to be treated as an extended household under paragraph 3 of Schedule 1 an agreement under this paragraph may be made only between those households.

(6) Where households have agreed to be treated as an extended household under—

- (a) paragraph 3 of Schedule 2, or
- (b) paragraph 3 of Schedule 4,

those households are to be treated as having agreed to be treated as an extended household under this paragraph.

(7) A household ceases to be treated as being in an extended household if any adult member of the household ceases to agree to be treated as being in the extended household.

(8) If a household ceases to be treated as being in an extended household, the household may not agree to be treated as being in an extended household with any other household.

(9) In this Schedule, references to an extended household are references to an extended household formed under or by virtue of this paragraph.

PART 2

Restrictions on organising events

Prohibition on organising events

4.—(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising—

- (a) an event held wholly or mainly indoors at which more than 15 people are in attendance, or
- (b) an event held wholly or mainly outdoors at which more than 30 people are in attendance,

not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the event.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu digwyddiad chwaraeon elit sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad drwy fynd iddo;
- (b) mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oes mwy na 15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd;
- (c) nid yw'r canlynol i'w trin yn ddigwyddiadau—
 - (i) arddangosiad ffilm mewn sinema o sedd cerbyd;
 - (ii) perfformiad mewn theatr o sedd cerbyd;
 - (iii) marchnad;
 - (iv) gwasanaeth crefyddol.

Digwyddiadau chwaraeon elit awdurdodedig

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi awdurdodiad ysgrifenedig i ddigwyddiad chwaraeon elit gael ei gynnal.

(2) O ran awdurdodiad o dan is-baragraff (1)—

- (a) rhaid iddo gael ei roi i berson y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad, a
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r digwyddiad gael ei gynnal yn unol ag unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi—

- (a) awdurdodiad a roddir o dan is-baragraff (1), a
- (b) manylion unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r digwyddiad.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu awdurdodiad yn ôl ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person y rhoddwyd yr awdurdodiad iddo.

(5) Ni chaniateir i awdurdodiad gael ei dynnu yn ôl o dan is-baragraff (4)—

- (a) onid oes gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu na chaiff y digwyddiad ei gynnal, neu nad yw'n cael ei gynnal, yn unol â gofyniad, cyfyngiad neu amod arall a bennir ganddynt, neu

(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising an elite sporting event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 5.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) a person is not involved in organising an event if the person's only involvement is attending it;
- (b) a reasonable excuse includes where the person has taken all reasonable measures to ensure that no more than 15 or 30 people are in attendance, as the case may be;
- (c) the following are not to be treated as events—
 - (i) the showing of a film at a drive-in cinema;
 - (ii) a performance at a drive-in theatre;
 - (iii) a market;
 - (iv) a religious service.

Authorised elite sporting events

5.—(1) The Welsh Ministers may give authorisation in writing for an elite sporting event to be held.

(2) An authorisation under sub-paragraph (1)—

- (a) must be given to a person the Welsh Ministers consider is responsible for organising the event, and
- (b) may require the event to be held in accordance with any requirements, restrictions or other conditions as may be specified by the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must publish—

- (a) an authorisation given under sub-paragraph (1), and
- (b) details of any requirements, restrictions or other conditions specified by the Welsh Ministers in relation to the event.

(4) The Welsh Ministers may withdraw an authorisation at any time by giving notice in writing to the person to whom the authorisation was given.

(5) An authorisation may be withdrawn under sub-paragraph (4) only if the Welsh Ministers —

- (a) have reasonable grounds to believe that the event will not be held, or is not being held, in accordance with a requirement, restriction or other condition specified by them, or

- (b) onid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur tynnu'r awdurdodiad yn ôl at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint gan y coronafeirws.

RHAN 3

Cyfyngiadau ar deithio

Cyfyngiad ar deithio o ardal Lefel Rhybudd 3 ac i ardal Lefel Rhybudd 3

6.—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw—

- (a) mewn ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau, neu
- (b) mewn ardal arall o Gymru,

fynd i ardal Lefel Rhybudd 3 neu aros mewn ardal Lefel Rhybudd 3 heb esgus rhesymol.

(2) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw mewn ardal Lefel Rhybudd 3 ymadael â'r ardal, heb esgus rhesymol, at ddibenion mynd i'r ardaloedd a ganlyn neu aros ynddynt—

- (a) ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau, neu
- (b) ardal arall o Gymru.

(3) At ddibenion is-baragraffau (1) a (2), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn mynd i'r ardal neu'n ymadael â'r ardal at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (5) yn gymwys.

(4) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol ymarferol i berson fynd i'r ardal neu ymadael â'r ardal atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos llys;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

- (b) consider that it is necessary and proportionate to withdraw the authorisation for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection by coronavirus.

PART 3

Restrictions on travelling

Restriction on travel to and from Alert Level 3 area

6.—(1) No person living in—

- (a) a restricted UK area, or
- (b) another area of Wales,

may enter or remain in an Alert Level 3 area without a reasonable excuse.

(2) No person living in an Alert Level 3 area may, without a reasonable excuse, leave the area for the purposes of entering or remaining in—

- (a) a restricted UK area, or
- (b) another area of Wales.

(3) For the purposes of sub-paragraphs (1) and (2), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person enters or leaves the area for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative;
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (5) applies.

(4) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to enter or leave the area include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or participating in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;

- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (h) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (i) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael gwasanaethau addysgol;
- (j) cael—
- (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;
- (ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;
- (k) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 39(g) o Atodlen 7 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
- (l) cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi ei drefnu, neu hwyluso'r gweithgaredd hwnnw, er datblygiad neu lesiant plant (gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth a gweithgareddau hamdden eraill megis y rheini a ddarperir ar gyfer plant y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol).
- (5) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (3)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiadartneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas,
- (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas;
- (d) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting, or rental of residential property;
- (h) accessing or receiving public services;
- (i) accessing or receiving educational services;
- (j) obtaining—
- (i) food and medical supplies for those in the same household (including animals in the household) or for vulnerable persons;
- (ii) supplies for the essential upkeep, maintenance and functioning of the household, or the household of a vulnerable person;
- (k) obtaining money from or depositing money with any business or service listed in paragraph 39(g) of Schedule 7;
- (l) participating in or facilitating an organised activity for the development or well-being of children (including sports, music and other recreational activities such as those provided for children outside of school hours and during school holidays).
- (5) The circumstances referred to in sub-paragraph (3)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
- (c) attending a solemnization of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony —
- (i) as a party to the marriage, civil partnership or wedding,
- (ii) if invited to attend, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,

- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (e) athletwr elît ac yn teithio at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;
- (f) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît, neu'n darparu cymorth mewn—
 - (i) digwyddiad chwaraeon elît, neu
 - (ii) digwyddiad chwaraeon sy'n digwydd y tu allan i Gymru;
- (g) teithio er mwyn pleidleisio mewn etholiad;
- (h) teithio ar daith sydd—
 - (i) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (1), yn dechrau ac yn gorffen y tu allan i'r ardal, neu
 - (ii) mewn perthynas â'r cyfyngiad yn is-baragraff (2), yn gorffen mewn ardal nad yw'r person wedi ei wahardd rhag mynd iddi neu aros ynddi o dan yr is-baragraff hwnnw,

ar yr amod bod y person yn cymryd pob mesur sy'n rhesymol ymarferol i stopio cyn lleied ag y bo modd yn ystod y daith;

- (i) teithio i gymryd rhan mewn cynulliad gydag aelwyd estynedig y person yn unol ag unrhyw gyfyngiadau ar gynulliadau sy'n gymwys lle y mae'r cynulliad yn digwydd.

- (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (e) an elite athlete and is and is travelling for the purposes of training or competition;
- (f) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at—
 - (i) an elite sporting event, or
 - (ii) a sporting event taking place outside Wales;
- (g) travelling to vote in an election;
- (h) travelling on a journey which—
 - (i) in relation to the restriction in sub-paragraph (1), begins and ends outside the area, or
 - (ii) in relation to the restriction in sub-paragraph (2), ends in an area which the person is not prohibited from entering or remaining in under that sub-paragraph,

provided that the person takes all reasonably practicable measures to minimise any stops during the journey;

- (i) travelling to participate in a gathering with the person's extended household in accordance with any restrictions on gatherings applicable where the gathering takes place.

RHAN 4

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

PENNOD 1

Busnesau neu wasanaethau y mae'n ofynnol cau eu mangreuedd

Cau busnesau a mangreuedd

7.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir ym mharagraffau 11 i 26—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a
- (b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

PART 4

Restrictions on certain businesses and services

CHAPTER 1

Businesses or services whose premises are required to be closed

Closure of businesses and services

7.—(1) A person responsible for carrying on a business or providing a service which is listed in paragraphs 11 to 26 must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business or service, and
- (b) not carry on the business or service at such premises otherwise than in accordance with this regulation.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;
- (c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngwrwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath;
- (d) defnyddio mangre ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau (gan gynnwys eu gwerthu, eu llogi, eu casglu neu eu danfon) mewn ymateb i archeb neu ymholiad a wneir—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post;
- (e) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwybodaeth—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

(3) Pan—

- (a) bo'n ofynnol, yn rhinwedd y paragraff hwn, i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

PENNOD 2

Cyfyngiadau ar fusnesau bwyd a diod a mangreoedd trwyddedig

Cyfyngiadau ar fusnesau bwyd a diod

8.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes bwyd a diod—

- (a) ni chaiff agor ei fangre i gwsmeriaid cyn 6.00 a.m. bob dydd;

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;
- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;
- (c) the use of premises to broadcast without an audience present at the premises (whether over the internet or as part of a radio or television broadcast) or to rehearse for such a broadcast;
- (d) the use of premises for the provision of goods or services (including their sale, hire, collection or delivery) in response to an order or enquiry made—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post;
- (e) the use of premises for the provision of information—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post.

(3) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

CHAPTER 2

Restrictions on food and drink businesses and licensed premises

Restrictions on food and drink businesses

8.—(1) A person responsible for carrying on a food and drink business—

- (a) may not open its premises to customers before 6.00 a.m. each day;

- (b) rhaid iddo gau'r fangre i gwsmeriaid am neu cyn 6.00 p.m. bob dydd.

(2) Ni chaiff y person sy'n gyfrifol am gynnal busnes bwyd a diod neu unrhyw fusnes neu wasanaeth arall y mae ei fangre wedi ei awdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol—

- (a) gwerthu na chyflenwi alcohol i'w yfed yn ei fangre;
(b) caniatáu i alcohol gael ei yfed yn y fangre.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, mae ardal sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddi yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel rhan o fangre'r busnes hwnnw.

(4) Pan—

- (a) bo person sy'n gyfrifol am gynnal busnes bwyd a diod ("busnes A") yn ddarostyngedig i ofyniad neu gyfyngiad o dan y paragraff hwn, a
(b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad neu'r cyfyngiad os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn cydymffurfio â'r gofyniad neu'r cyfyngiad.

Cyfyngiadau ar fusnesau bwyd a diod: eithriadau

9.—(1) Nid yw paragraff 8(1) yn gymwys i—

- (a) mangre mewn—
(i) porthladd môr;
(ii) maes awyr;
(iii) sefydliad addysgol;
(iv) ysbyty neu gartref gofal;
(b) ffreuturau yn y gweithle, pan na fo dewis ymarferol arall i bobl yn y gweithle hwnnw gael bwyd neu ddiod rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m.;
(c) mangre a ddefnyddir ar gyfer darparu bwyd neu ddiod i bobl ddigartref.

(2) Nid yw paragraff 8(1) yn atal mangre rhag cael ei defnyddio i werthu neu gyflenwi bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre.

(3) Os—

- (a) yw dathliad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu briodas arall yn cael ei gynnal neu ei chynnal mewn mangre y mae paragraff 8 yn gymwys iddi, a

- (b) must close the premises to customers at or before 6.00 p.m. each day.

(2) The person responsible for carrying on a food and drink business or any other business or service whose premises are authorised for the sale or supply of alcohol may not—

- (a) sell or supply alcohol for consumption on its premises;
(b) permit the consumption of alcohol on the premises.

(3) For the purposes of this paragraph, an area adjacent to the premises of the business where seating is made available for customers of the business (whether or not by the business) is to be treated as part of the premises of that business.

(4) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a food and drink business ("business A") is subject to a requirement or restriction under this paragraph, and
(b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement or restriction is complied with if the person responsible for carrying on business B complies with the requirement or restriction.

Restrictions on food and drink businesses: exceptions

9.—(1) Paragraph 8(1) does not apply to—

- (a) premises located in—
(i) a sea port;
(ii) an airport;
(iii) an educational establishment;
(iv) a hospital or care home;
(b) workplace canteens, where there is no practical alternative for people at that workplace to obtain food or drink between 6.00 p.m. and 6.00 a.m.;
(c) premises used for the provision of food or drink to homeless people.

(2) Paragraph 8(1) does not prevent premises being used to sell or supply food or drink for consumption off the premises.

(3) If—

- (a) the celebration of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding is being held on premises to which paragraph 8 applies, and

- (b) archebwyd y dathliad fwy nag wythnos cyn y dechreuodd y paragraff hwn fod yn gymwys ddiweddaraf i'r ardal y mae'r fangre wedi ei lleoli ynddi,

caiff y fangre, er gwaethaf paragraff 8(1)(b), aros ar agor tan 10.00 p.m. at ddibenion cynnal y dathliad.

(4) Mae is-baragraffau (5) a (6) yn gymwys pan fo mangre busnes bwyd a diod ("y fangre o dan gyfyngiadau") yn ffurfio rhan o fangre llety gwyliau neu lety teithio.

(5) Nid yw paragraff 8(1)—

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r fangre o dan gyfyngiadau fod ar gau i breswylwyr y llety gwyliau neu'r llety teithio;
- (b) yn atal gwerthu bwyd neu ddiod i breswylwyr—
 - (i) fel rhan o wasanaeth ystafell, neu
 - (ii) rhwng 6.00 a.m. a 10.00 p.m. mewn unrhyw ran o fangre'r llety gwyliau neu'r llety teithio.

(6) Nid yw paragraff 8(1) na (2)—

- (a) yn atal preswylwyr rhag bwyta bwyd neu yfed diod (gan gynnwys alcohol) ar unrhyw adeg yn eu hystafell breifat;
- (b) yn atal gwerthu alcohol i breswylwyr fel rhan o wasanaeth ystafell (ond gweler paragraff 10).

Cyfyngiadau ar fangroedd trwyddedig

10.—(1) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol werthu na chyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn caniatáu i alcohol gael ei werthu na'i gyflenwi yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

PENNOD 3

Rhestr o fangroedd sydd ar gau

Busnesau neu wasanaethau y mae rhaid cau eu mangroedd

11. Clybiau nos, disgos, neuaddau dawnsio neu leoliadau eraill sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnsio.

12. Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i "sexual entertainment venue" gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982).

- (b) the celebration was booked more than a week before this paragraph most recently began to apply to the area in which the premises are located,

the premises may, despite paragraph 8(1)(b), remain open until 10.00 p.m. for the purposes of holding the celebration.

(4) Sub-paragraphs (5) and (6) apply where premises of a food and drink business ("the restricted premises") form part of the premises of holiday or travel accommodation.

(5) Paragraph 8(1) does not—

- (a) require the restricted premises to be closed to the residents of the holiday or travel accommodation;
- (b) prevent the sale of food or drink to residents—
 - (i) as part of room service, or
 - (ii) between 6.00 a.m. and 10.00 p.m. in any part of the premises of the holiday or travel accommodation.

(6) Neither paragraph 8(1) nor (2)—

- (a) prevents residents from consuming food or drink (including alcohol) at any time in their private room;
- (b) prevents the sale of alcohol to residents as part of room service (but see paragraph 10).

Restrictions on licensed premises

10.—(1) A person responsible for premises which are authorised for the sale or supply of alcohol may not sell or supply alcohol between 10.00 p.m. and 6.00 a.m.

(2) Sub-paragraph (1) does not allow alcohol to be sold or supplied in contravention of an authorisation granted or given in respect of the premises.

CHAPTER 3

List of closed premises

Businesses or services whose premises must be closed

11. Nightclubs, discotheques, dance halls or other venues authorised for the sale or supply of alcohol where live or recorded music is provided for members of the public or members of the venue to dance.

12. Sexual entertainment venues (within the meaning given by paragraph 2A of Schedule 3 to the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982).

13. Sinemâu, ac eithrio sinemâu o sedd cerbyd.
14. Neuaddau cyngerdd a theatrau, ac eithrio theatrau o sedd cerbyd.
15. Casinos.
16. Neuaddau bingo.
17. Arcedau diddanu.
18. Alïau bowlio.
19. Canolfannau neu fannau chwarae o dan do.
20. Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.
21. Amgueddfeydd ac orielau.
22. Rinciau sglefrio.
23. Parciau a chanolfannau trampolîn.
24. Parciau a chanolfannau sglefrio o dan do.
25. Sbaon.
26. Atyniadau i ymwelwyr.

13. Cinemas, other than drive in cinemas.
14. Concert halls and theatres, other than drive-in theatres.
15. Casinos.
16. Bingo halls.
17. Amusement arcades.
18. Bowling alleys.
19. Indoor play centres or areas.
20. Funfairs, amusement parks and theme parks.
21. Museums and galleries.
22. Skating rinks.
23. Trampoline parks and centres.
24. Indoor skate parks and centres
25. Spas.
26. Visitor attractions.

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 4

RHAN 1

Cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull gydag eraill

Gofyniad i aros gartref

1.—(1) Ni chaiff unrhyw berson ymadael â'r man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw heb esgus rhesymol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn ymadael â'r man lle y mae'n byw, neu'n aros i ffwrdd o'r man hwnnw, at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (4) yn gymwys.

(3) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson ymadael â'r man lle y mae'n byw neu aros i ffwrdd o'r man hwnnw yn cynnwys—

- (a) cael cyflenwadau oddi wrth fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 55 i 66 gan gynnwys—
 - (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd neu'r aelwyd estynedig (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd neu'r aelwyd estynedig) neu ar gyfer personau hyglwyf;
 - (ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd neu'r aelwyd estynedig, neu aelwyd person hyglwyf;
- (b) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (c) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
- (d) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechniaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (e) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

Alert Level 4 Restrictions

PART 1

Restrictions on movement and gathering with others

Requirement to stay at home

1.—(1) No person may, without a reasonable excuse, leave the place where they are living or remain away from that place.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person leaves or remains away from the place where they are living for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (4) applies.

(3) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to leave or remain away from the place where they are living include—

- (a) obtaining supplies from a business or service listed in paragraphs 55 to 66, including—
 - (i) food and medical supplies for those in the same household or extended household (including animals in the household or extended household) or for vulnerable persons;
 - (ii) supplies for the essential upkeep, maintenance and functioning of the household or extended household, or the household of a vulnerable person;
- (b) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (c) working or providing voluntary or charitable services;
- (d) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (e) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;

- (f) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (g) symud cartref;
- (h) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 39(g) o Atodlen 7 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
- (i) gweld eiddo mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu'r eiddo;
- (j) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (k) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (l) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.
- (4) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
- (c) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall,
- (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
- (d) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (e) mynd i addoldy;
- (f) gwneud ymarfer corff, naill ai—
- (i) ar ei ben ei hun,
- (ii) gydag aelodau eraill o aelwyd neu aelwyd estynedig y person, neu
- (iii) gyda gofalwr y person;
- (f) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (g) moving home;
- (h) obtaining money from or depositing money with any business or service listed in paragraph 39(g) of Schedule 7;
- (i) viewing a property in connection with the purchase, sale, letting or rental of the property;
- (j) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of residential property;
- (k) accessing or receiving public services;
- (l) accessing or receiving educational services.
- (4) The circumstances referred to in sub-paragraph (2)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
- (c) attending a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony —
- (i) as a party to the marriage, civil partnership or alternative wedding,
- (ii) if invited to attend, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
- (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (e) attending a place of worship;
- (f) exercising, either—
- (i) alone,
- (ii) with other members of the person's household or extended household, or
- (iii) with the person's carer;

- (g) athletwr elít ac yn hyfforddi neu'n cystadlu;
- (h) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elít, neu'n darparu cymorth mewn—
 - (i) digwyddiad chwaraeon elít, neu
 - (ii) digwyddiad chwaraeon sy'n digwydd y tu allan i Gymru;
- (i) teithio er mwyn pleidleisio mewn etholiad;
- (j) teithio i fan neu o fan, neu'n bresennol mewn man, lle y mae aelod o'i aelwyd estynedig yn byw.

(5) Yn is-baragraff (4)(f)—

- (a) rhaid i ymarfer corff ddechrau a gorffen yn y man lle y mae'r person yn byw neu lle y mae aelod o aelwyd estynedig y person yn byw, neu
- (b) pan fo angen i'r person, am resymau salwch neu nam corfforol neu feddyliol, neu anabledd (o fewn yr ystyr a roddir i "disability" yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010), wneud ymarfer corff mewn man arall, rhaid i ymarfer corff ddigwydd mewn ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw.

(6) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

- (g) an elite athlete and is training or competing;
- (h) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at—
 - (i) an elite sporting event, or
 - (ii) a sporting event taking place outside Wales;
- (i) travelling to vote in an election;
- (j) travelling to or from, or is present at, a place where a member of their extended household is living.

(5) In sub-paragraph (4)(f)—

- (a) exercise must start and finish at the place where the person is living or where a member of the person's extended household is living, or
- (b) where, for reasons of physical or mental illness or impairment, or a disability (within the meaning of section 6 of the Equality Act 2010), the person needs to exercise in another place, exercise must take place in an area local to the place where the person is living.

(6) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Gofyniad i beidio ag ymgynnull gyda phobl eraill

2.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymgynnull gydag unrhyw berson arall ac eithrio—

- (a) aelodau o'i aelwyd,
- (b) ei ofalwr, neu
- (c) person y mae'n darparu gofal iddo.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn ymgynnull gyda phobl eraill at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol, neu
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (4) yn gymwys.

(3) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson gymryd rhan mewn cynulliad atynt yn cynnwys—

- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
- (b) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

Requirement not to gather with other people

2.—(1) No person may, without a reasonable excuse, gather with any other person apart from—

- (a) members of their household,
- (b) their carer, or
- (c) a person they are providing care to.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person is gathering with other people for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative, or
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (4) applies.

(3) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to participate in a gathering include—

- (a) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
- (b) working or providing voluntary or charitable services;

- (c) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
- (d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
- (e) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
- (f) symud cartref;
- (g) gweld eiddo mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu'r eiddo;
- (h) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
- (i) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
- (j) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny;
- (k) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed.
- (4) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
- (b) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
- (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas,
- (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas;
- (c) mynd i angladd—
- (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
- (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
- (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (d) mynd i addoldy;
- (e) athletwr elit ac sy'n hyfforddi neu'n cystadlu ;
- (c) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
- (d) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
- (e) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this sub-paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
- (f) moving home;
- (g) viewing a property in connection with the purchase, sale, letting or rental of the property;
- (h) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of residential property;
- (i) accessing or receiving public services;
- (j) accessing or receiving educational services;
- (k) avoiding illness, injury or other risk of harm.
- (4) The circumstances referred to in sub-paragraph (2)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
- (b) attending a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—
- (i) as a party to the marriage, civil partnership or wedding,
- (ii) if invited to attend, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (c) attending a funeral—
- (i) as a person responsible for arranging the funeral,
- (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
- (iii) as the carer of a person attending;
- (d) attending a place of worship;
- (e) an elite athlete and is training or competing;

- (f) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elit, neu'n darparu cymorth mewn digwyddiad chwaraeon elit;
- (g) cymryd rhan mewn cynulliad gydag aelodau o'i aelwyd estynedig mewn man lle y mae aelodau o'r aelwyd estynedig yn byw;
- (h) cymryd rhan mewn cynulliad o ddim mwy na 4 o bobl pan fo'r holl bersonau yn y cynulliad—
 - (i) yn byw yn yr un fangre, a
 - (ii) yn rhannu cyfleusterau toiled, ymolchi, bwyta neu goginio gyda'i gilydd.

(5) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i berson sy'n ddigartref.

Aelwydydd estynedig

3.—(1) Caiff aelwyd un oedolyn ac aelwyd arall gytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig.

(2) Er mwyn cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig, rhaid i'r holl aelodau o'r 2 aelwyd sy'n oedolion gytuno.

(3) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o 1 aelwyd estynedig.

(4) Pan fo aelwyd un oedolyn wedi cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig gyda hyd at—

- (a) 3 aelwyd arall o dan baragraff 3 o Atodlen 1, neu
- (b) 2 aelwyd arall o dan—
 - (i) paragraff 3 o Atodlen 2, neu
 - (ii) paragraff 3 o Atodlen 3,

dim ond rhwng yr aelwyd un oedolyn ac 1 o'r aelwydydd eraill hynny y caniateir gwneud cytundeb o dan y paragraff hwn.

(5) Mae aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(6) Os yw aelwyd yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig gydag unrhyw aelwyd arall.

(7) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

- (f) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at an elite sporting event;
- (g) participating in a gathering with members of their extended household at a place where members of the extended household are living;
- (h) participating in a gathering of no more than 4 people where all the persons in the gathering—
 - (i) live in the same premises, and
 - (ii) share toilet, washing, dining or cooking facilities with each other.

(5) This paragraph does not apply to a person who is homeless.

Extended households

3.—(1) A single adult household and another household may agree to be treated as an extended household.

(2) To agree to be treated as an extended household, all of the adult members of the 2 households must agree.

(3) A household may only agree to be treated as being in 1 extended household.

(4) Where a single adult household has agreed to be treated as an extended household with up to—

- (a) 3 other households under paragraph 3 of Schedule 1, or
- (b) 2 other households under—
 - (i) paragraph 3 of Schedule 2, or
 - (ii) paragraph 3 of Schedule 3,

an agreement under this paragraph may be made only between the single adult household and 1 of those other households.

(5) A household ceases to be treated as being in an extended household if any adult member of the household ceases to agree to be treated as being in the extended household.

(6) If a household ceases to be treated as being in an extended household, the household may not agree to be treated as being in an extended household with any other household.

(7) In this Schedule, references to an extended household are references to an extended household formed under or by virtue of this paragraph.

RHAN 2

Cyfyngiadau ar drefnu digwyddiadau

Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau

4.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu—

- (a) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do lle y mae mwy na 15 o bobl yn bresennol, neu
- (b) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored lle y mae mwy na 30 o bobl yn bresennol,

heb gyfrif personau o dan 11 oed na phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu digwyddiad chwaraeon elit sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad drwy fynd iddo;
- (b) mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oes mwy na 15 neu 30 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd;
- (c) nid yw'r canlynol i'w trin yn ddigwyddiadau—
 - (i) marchnad;
 - (ii) gwasanaeth crefyddol.

Digwyddiadau chwaraeon elit awdurdodedig

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi awdurdodiad ysgrifenedig i ddigwyddiad chwaraeon elit gael ei gynnal.

(2) O ran awdurdodiad o dan is-baragraff (1)—

- (a) rhaid iddo gael ei roi i berson y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad, a
- (b) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r digwyddiad gael ei gynnal yn unol ag unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi—

- (a) awdurdodiad a roddir o dan is-baragraff (1), a
- (b) manylion unrhyw ofynion, unrhyw gyfyngiadau neu unrhyw amodau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r digwyddiad.

PART 2

Restrictions on organising events

Prohibition on organising events

4.—(1) No person may, without a reasonable excuse, be involved in organising—

- (a) an event held wholly or mainly indoors at which more than 15 people are in attendance, or
- (b) an event held wholly or mainly outdoors at which more than 30 people are in attendance,

not counting persons under the age of 11 or persons working, or providing voluntary services, at the event.

(2) Sub-paragraph (1) does not apply to a person involved in organising an elite sporting event authorised by the Welsh Ministers under paragraph 5.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) a person is not involved in organising an event if the person's only involvement is attending it;
- (b) a reasonable excuse includes where the person has taken all reasonable measures to ensure that no more than 15 or 30 people are in attendance, as the case may be;
- (c) the following are not to be treated as events—
 - (i) a market;
 - (ii) a religious service.

Authorised elite sporting events

5.—(1) The Welsh Ministers may give authorisation in writing for an elite sporting event to be held.

(2) An authorisation under sub-paragraph (1)—

- (a) must be given to a person the Welsh Ministers consider is responsible for organising the event, and
- (b) may require the event to be held in accordance with any requirements, restrictions or other conditions as may be specified by the Welsh Ministers.

(3) The Welsh Ministers must publish—

- (a) an authorisation given under sub-paragraph (1), and
- (b) details of any requirements, restrictions or other conditions specified by the Welsh Ministers in relation to the event.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu awdurdodiad yn ôl ar unrhyw adeg drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person y rhoddwyd yr awdurdodiad iddo.

(5) Ni chaniateir i awdurdodiad gael ei dynnu yn ôl o dan is-baragraff (4)—

- (a) onid oes gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu na chaiff y digwyddiad ei gynnal, neu nad yw'n cael ei gynnal, yn unol â gofyniad, cyfyngiad neu amod arall a bennir ganddynt, neu
- (b) onid yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur tynnu'r awdurdodiad yn ôl at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint gan y coronafeirws.

RHAN 3

Cyfyngiadau ar deithio

Cyfyngiad ar deithio i ardal Lefel Rhybudd 4

6.—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw mewn—

- (a) ardal o'r DU sydd o dan gyfyngiadau, neu
- (b) ardal arall o Gymru,

fynd i ardal Lefel Rhybudd 4 neu aros mewn ardal o'r fath heb esgus rhesymol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

- (a) os yw'r person yn mynd i'r ardal at ddiben sy'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;
- (b) os yw un o'r amgylchiadau yn is-baragraff (4) yn gymwys.

(3) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol ymarferol i berson fynd i'r ardal atynt yn cynnwys—

- (a) cael cyflenwadau oddi wrth fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 55 i 66, gan gynnwys—
 - (i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd neu aelwyd estynedig (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd neu'r aelwyd estynedig) neu ar gyfer personau hyglwyf;
 - (ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd neu'r aelwyd estynedig, neu aelwyd person hyglwyf;

(4) The Welsh Ministers may withdraw an authorisation at any time by giving notice in writing to the person to whom the authorisation was given.

(5) An authorisation may be withdrawn under sub-paragraph (4) only if the Welsh Ministers —

- (a) have reasonable grounds to believe that the event will not be held, or is not being held, in accordance with a requirement, restriction or other condition specified by them, or
- (b) consider that it is necessary and proportionate to withdraw the authorisation for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection by coronavirus.

PART 3

Restrictions on travel

Restriction on travel to Alert Level 4 area

6.—(1) No person living in—

- (a) a restricted UK area, or
- (b) another area of Wales,

may enter or remain in an Alert Level 4 area without a reasonable excuse.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

- (a) the person enters the area for a purpose that is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative;
- (b) one of the circumstances in sub-paragraph (4) applies.

(3) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to enter the area include—

- (a) obtaining supplies from a business or service listed in paragraphs 55 to 66, including—
 - (i) food and medical supplies for those in the same household or extended household (including animals in the household or extended household) or for vulnerable persons;
 - (ii) supplies for the essential upkeep, maintenance and functioning of the household or extended household, or the household of a vulnerable person;

- (b) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;
 - (c) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
 - (d) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
 - (e) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
 - (f) mew'n perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
 - (g) gweld eiddo mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu'r eiddo;
 - (h) symud cartref;
 - (i) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 39(g) o Atodlen 7 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;
 - (j) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;
 - (k) cael gafael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.
- (4) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;
 - (b) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiadartneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
 - (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas,
 - (ii) os caiff ei wahodd i fynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas;
 - (c) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
- (b) obtaining or providing medical assistance, or accessing veterinary services;
 - (c) working or providing voluntary or charitable services;
 - (d) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or to participate in legal proceedings;
 - (e) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006, where the person receiving the care is a vulnerable person;
 - (f) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
 - (g) viewing a property in connection with the purchase, sale, letting or rental of the property;
 - (h) moving home;
 - (i) obtaining money from or depositing money with any business or service listed in paragraph 39(g) of Schedule 7;
 - (j) accessing or receiving public services;
 - (k) accessing or receiving educational services.
- (4) The circumstances referred to in sub-paragraph (2)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;
 - (b) attending a solemnisation of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—
 - (i) as a party to the marriage, civil partnership or wedding,
 - (ii) if invited to attend, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
 - (c) attending a funeral—
 - (i) as a person responsible for arranging the funeral,
 - (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
 - (iii) as the carer of a person attending;

- (d) athletwr elít ac sy'n teithio at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;
- (e) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elít, neu'n darparu cymorth mewn—
 - (i) digwyddiad chwaraeon elít, neu
 - (ii) digwyddiad chwaraeon sy'n digwydd y tu allan i Gymru;
- (f) teithio er mwyn pleidleisio mewn etholiad;
- (g) teithio ar daith sy'n gorffen y tu allan i'r ardal, ar yr amod bod y person yn cymryd pob mesur sy'n rhesymol ymarferol i stopio cyn lleied ag y bo modd yn ystod y daith;
- (h) teithio i gymryd rhan mewn cynulliad gydag aelwyd estynedig y person yn unol ag unrhyw gyfyngiadau ar gynulliadau sy'n gymwys lle y mae'r cynulliad yn digwydd.

- (d) an elite athlete and is travelling for the purposes of training or competition;
- (e) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at—
 - (i) an elite sporting event, or
 - (ii) a sporting event taking place outside Wales;
- (f) travelling to vote in an election;
- (g) travelling on a journey which ends outside the area, provided that the person takes all reasonably practicable measures to minimise any stops during the journey;
- (h) travelling to participate in a gathering with the person's extended household in accordance with any restrictions on gatherings applicable where the gathering takes place.

RHAN 4

Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

PENNOD 1

Busnesau a gwasanaethau y mae rhaid cau eu mangroedd ond y caniateir mynediad cyfyngedig iddynt

Cau busnesau bwyd a diod

7.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 12 i 14 (busnesau bwyd a diod)—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes, a
 - (b) ni chaiff gynnal busnes yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.
- (2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—
- (a) defnyddio mangre ar gyfer—
 - (i) gwerthu bwyd a diod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre, neu
 - (ii) gwasanaethau sy'n darparu bwyd neu ddiod i bobl ddigartref;
 - (b) darparu gwasanaeth ystafell mewn gwesty neu lety arall (pan fo'r gwesty neu'r llety arall yn parhau i weithredu yn unol â'r eithriadau a ganiateir gan baragraff 8);
 - (c) ffreutur yn y gweithle rhag bod ar agor pan na fo dewis ymarferol arall i staff yn y gweithle hwnnw gael bwyd neu ddiod;

PART 4

Restrictions on certain businesses and services

CHAPTER 1

Business and services whose premises must be closed but to which limited access may be allowed

Closure of food and drink businesses

7.—(1) A person responsible for carrying on a business which is listed in paragraphs 12 to 14 (food and drink businesses) must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business, and
 - (b) not carry on business at such premises otherwise than in accordance with this paragraph.
- (2) Sub-paragraph (1) does not prevent—
- (a) the use of premises for—
 - (i) the sale of food and drink for consumption off the premises, or
 - (ii) services providing food or drink to homeless people;
 - (b) the provision of room service at a hotel or other accommodation (where the hotel or other accommodation continues to operate in accordance with the exceptions allowed by paragraph 8);
 - (c) a workplace canteen from being open where there is no practical alternative for staff at that workplace to obtain food or drink;

- (d) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach.

(3) At ddibenion is-baragraff (1), mae ardal o dan do sy'n gyfagos i fangre'r busnes lle y mae seddau yn cael eu rhoi ar gael i gwsmeriaid y busnes (pa un ai gan y busnes ai peidio) i'w thrin fel rhan o fangre'r busnes hwnnw.

(4) Pan—

- (a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

Cau llety gwyliau neu lety teithio

8.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraffau 15 i 18 (llety gwyliau neu lety teithio)—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes, a
- (b) ni chaiff gynnal busnes yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;
- (c) darparu llety ar gyfer unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddechreuodd y paragraff hwn fod yn gymwys yn fwyaf diweddar i'r ardal y mae'r llety wedi ei leoli ynddi ac—
 - (i) nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w prif breswylfa, neu
 - (ii) sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa;
- (d) defnyddio mangre i gynnal y busnes drwy ddarparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

- (d) the carrying out of maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises.

(3) For the purposes of sub-paragraph (1), an indoor area adjacent to the premises of the business where seating is made available for customers of the business (whether or not by the business) is to be treated as part of the premises of that business.

(4) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

Closure of holiday or travel accommodation

8.—(1) A person responsible for carrying on a business which is listed in paragraphs 15 to 18 (holiday or travel accommodation) must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business, and
- (b) not carry on business at such premises otherwise than in accordance with this regulation.

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;
- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;
- (c) the provision of accommodation for any persons staying in that accommodation when this paragraph most recently began to apply to the area in which the accommodation is situated and who—
 - (i) are unable to return to their main residence, or
 - (ii) are using the accommodation as their main residence;
- (d) the use of premises to carry on the business by providing information or other services—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,

- (ii) dros y ffôn, gan gynnwys ymholiadau drwy neges destun, neu
- (iii) drwy'r post.

(3) Pan—

- (a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

Cau canolfannau cymunedol ac amlogfeydd

9.—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am fangre sydd o fath a restrir ym mharagraffau 19 ac 20 sicrhau bod y fangre ar gau i aelodau'r cyhoedd, ac eithrio ar gyfer y defnydd a ganiateir gan is-baragraffau (2) a (3).

(2) Caiff canolfan gymunedol fod ar agor—

- (a) i darparu gwasanaethau gwirfoddol hanfodol, neu
- (b) i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol.

(3) Caiff amlogfa agor i aelodau'r cyhoedd ar gyfer angladdau neu gladdu (ac i ddarlledu angladd neu gladdu pa un ai dros y rhyngrwyd neu fel arall).

(4) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r tir o amgylch amlogfa, gan gynnwys unrhyw gladdfa neu ardd goffa.

(5) Yn y paragraff hwn, mae "gwasanaethau cyhoeddus" yn cynnwys darparu banciau bwyd neu gymorth arall ar gyfer pobl ddigartref neu bobl hygwyf, gofal plant, sesiynau rhoi gwaed neu gymorth mewn argyfwng.

PENNOD 2

Busnesau neu wasanaethau y mae'n ofynnol cau eu mangre

Cau busnesau a gwasanaethau

10.—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes neu ddarparu gwasanaeth a restrir ym mharagraffau 21 i 48—

- (a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes neu'r gwasanaeth, a
- (b) ni chaiff gynnal y busnes neu'r gwasanaeth yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.

- (ii) by telephone, including enquiries by text message, or

- (iii) by post.

(3) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

Closure of community centres and crematoriums

9.—(1) A person responsible for premises that are of a kind listed in paragraphs 19 and 20 must ensure that the premises are closed to members of the public, except for the uses permitted by sub-paragraphs (2) and (3).

(2) A community centre may be open—

- (a) to provide essential voluntary services, or
- (b) to provide public services upon the request of the Welsh Ministers or a local authority.

(3) A crematorium may open to members of the public for funerals or burials (and to broadcast a funeral or burial whether over the internet or otherwise).

(4) Sub-paragraph (1) does not apply to the grounds surrounding a crematorium, including any burial ground or garden of remembrance.

(5) In this paragraph, "public services" includes the provision of food banks or other support for homeless or vulnerable people, childcare, blood donation sessions or support in an emergency.

CHAPTER 2

Businesses or services whose premises are required to be closed

Closure of businesses and services

10.—(1) A person responsible for carrying on a business or providing a service which is listed in paragraphs 21 to 48 must—

- (a) close to members of the public any premises operated as part of the business or service, and
- (b) not carry on the business or service at such premises otherwise than in accordance with this paragraph.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

- (a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;
- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;
- (c) defnyddio mangre i ddarlledu heb gynulleidfa yn bresennol yn y fangre (pa un ai dros y rhyngwyd neu fel rhan o ddarllediad radio neu deledu) neu i ymarfer ar gyfer darllediad o'r fath;
- (d) defnyddio mangre ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau (gan gynnwys eu gwerthu, eu llogi, eu casglu neu eu danfon) mewn ymateb i archeb neu ymholiad a wneir—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post;
- (e) defnyddio mangre ar gyfer darparu gwybodaeth—
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

(3) Pan—

- (a) bo'n ofynnol, yn rhinwedd y paragraff hwn, i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.

PENNOD 3

Busnesau a gwasanaethau y mae eu mangreoedd wedi'u heithrio rhag y gofyniad i gau

Esemptiad rhag y gofyniad i gau

11.—(1) Er gwaethaf darpariaethau blaenorol y Rhan hon, caiff mangreoedd a weithredir gan fusnesau neu wasanaethau a restrir ym mharagraffau 49 i 66 barhau i fod ar agor.

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

- (a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;
- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;
- (c) the use of premises to broadcast without an audience present at the premises (whether over the internet or as part of a radio or television broadcast) or to rehearse for such a broadcast;
- (d) the use of premises for the provision of goods or services (including their sale, hire, collection or delivery) in response to an order or enquiry made—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post;
- (e) the use of premises for the provision of information—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including by text message, or
 - (iii) by post.

(3) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business ("business A") is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business ("business B"),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.

CHAPTER 3

Business and services whose premises are exempt from the requirement to close

Exemption from the requirement to be closed

11.—(1) Despite the preceding provisions of this Part, premises operated by businesses or services listed in paragraphs 49 to 66 may continue to be open.

(2) A chaiff canolfannau siopa, arcedau siopa a marchnadoedd fod ar agor i'r cyhoedd i'r graddau y mae hyn yn ofynnol i fynd i fusnes neu ddefnyddio wasanaeth a restrir ym mharagraffau 49 i 66.

(3) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y fangre werthu neu gyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(4) Nid yw is-baragraff (3) yn caniatáu i'r person sy'n gyfrifol am y fangre werthu neu gyflenwi alcohol yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

PENNOD 4

Rhestr o fangroedd sydd ar gau

Mangroedd sydd ar gau

Busnesau bwyd a diod

12. Bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau).

13. Tafarndai.

14. Caffis, ffreuturau a bwytai (gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau).

Llety gwyliau neu lety teithio

15. Safleoedd gwersylla.

16. Safleoedd gwyliau.

17. Gwestai a llety gwely a brecwast.

18. Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).

Gwasanaethau cyhoeddus etc.

19. Canolfannau cymunedol.

20. Amlogsfeydd.

21. Llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau.

Gwasanaethau personol etc.

22. Salonau gwallt a barbwr.

23. Salonau ewinedd a harddwch gan gynnwys gwasanaethau lliw haul ac electrolysis.

24. Gwasanaethau tyllu'r corff a thatwio.

(2) And shopping centres, shopping arcades and markets may be open to the public to the extent that this is required for access to a business or service listed in paragraphs 49 to 66.

(3) A person responsible for premises authorised for the sale or supply of alcohol for consumption off the premises may not sell or supply alcohol between 10.00 p.m. and 6.00 a.m.

(4) Sub-paragraph (3) does not allow the person responsible for the premises to sell or supply alcohol in contravention of an authorisation granted or given in respect of the premises.

CHAPTER 4

List of closed premises

Closed premises

Food and drink businesses

12. Bars (including bars in members' clubs).

13. Public houses.

14. Cafes, canteens and restaurants (including workplace canteens and dining rooms in members' clubs).

Holiday or travel accommodation

15. Camping sites.

16. Holiday sites.

17. Hotels and bed and breakfast accommodation;

18. Other holiday accommodation (including holiday apartments, hostels and boarding houses).

Public services etc.

19. Community centres.

20. Crematoriums.

21. Libraries and archive services.

Personal services etc.

22. Hair salons and barbers.

23. Nail and beauty salons including tanning and electrolysis services.

24. Body piercings and tattooing services.

Hamdden a chymdeithasol etc.

25. Clybiau nos, disgos, neuaddau dawnzio neu leoliadau eraill sydd wedi eu hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol lle y darperir cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio i aelodau'r cyhoedd neu aelodau'r lleoliad ddawnzio.

26. Lleoliadau adloniant rhywiol (o fewn yr ystyr a roddir i "sexual entertainment venue" gan baragraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982).

27. Sinemâu.

28. Neuaddau cyngerdd a theatrau.

29. Casinos.

30. Neuaddau bingo.

31. Arcedau diddanu.

32. Aliâu bowlio.

33. Canolfannau neu fannau chwarae o dan do.

34. Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.

35. Busnesau gwyliau, gweithgareddau hamdden neu ddigwyddiadau.

36. Amgueddfeydd ac orielau.

37. Rinciau sglefrio.

38. Parciau a chanolfannau trampolîn.

39. Parciau a chanolfannau sglefrio amgaeedig neu o dan do.

40. Sbaon.

41. Lleoliadau ar gyfer digwyddiadau neu gynadleddau (gan gynnwys lleoliadau ar gyfer priodasau).

42. Atyniadau i ymwelwyr.

Chwaraeon ac ymarfer corff

43. Cyfleusterau chwaraeon neu ymarfer corff, gan gynnwys stiwdios ffïtrwydd o dan do a champfeydd.

44. Pyllau nofio.

45. Cyrtiau chwaraeon, lawntiau bowlio, cyrsiau golff a meysydd neu leiniau chwaraeon amgaeedig (boed yn yr awyr agored neu o dan do).

Manwerthu etc.

46. Unrhyw fusnes sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi mewn mangre fanwerthu.

Leisure and social etc.

25. Nightclubs, discotheques, dance halls or other venues authorised for the sale or supply of alcohol where live or recorded music is provided for members of the public or members of the venue to dance.

26. Sexual entertainment venues (within the meaning given by paragraph 2A of Schedule 3 to the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1982).

27. Cinemas.

28. Concert halls and theatres.

29. Casinos.

30. Bingo halls.

31. Amusement arcades.

32. Bowling alleys.

33. Indoor play centres or areas.

34. Funfairs, amusement parks and theme parks.

35. Holiday, leisure activity or events businesses.

36. Museums and galleries.

37. Skating rinks.

38. Trampoline parks and centres.

39. Enclosed or indoor skate parks and centres.

40. Spas.

41. Venues for events or conferences (including venues for weddings).

42. Visitor attractions.

Sports and exercise.

43. Sports or exercise facilities, including indoor fitness studios and gyms.

44. Swimming pools.

45. Sports courts, bowling greens, golf courses and enclosed sports grounds or pitches (whether outdoors or indoors).

Retail etc.

46. Any business offering goods or services for sale or hire in retail premises.

47. Canolfannau siopa ac arcedau siopa.

48. Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.

Mangreoedd esempt

Gwasanaethau cyhoeddus etc.

49. Gwasanaethau deintyddol, optegwyr, gwasanaethau awdioleg, gwasanaethau trin traed, ceiropractyddion, osteopathiaid, gwasanaethau ffisiotherapi, gwasanaethau aciwbigo a gwasanaethau meddygol neu iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

50. Llyfrgelloedd ysbytai a llyfrgelloedd mewn sefydliadau addysgol.

51. Trefnwyr angladdau.

52. Milfeddygon.

Busnesau bwyd a diod.

53. Caffis a ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal, ysgol neu mewn llety a ddarperir ar gyfer myfyrwyr.

54. Ffreuturau mewn carchar neu sefydliad y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr neu at ddibenion Adran yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am amddiffyn.

Manwerthu etc.

55. Busnesau sy'n cynnig y nwyddau a ganlyn ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi mewn siop—

- (a) bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre (gan gynnwys bwyd ar gyfer anifeiliaid anwes ac anifeiliaid domestig arall);
- (b) cynhyrchion sy'n hanfodol ar gyfer storio a pharatoi bwyd neu ddiod neu ar gyfer bwyta bwyd neu yfed diod;
- (c) cynhyrchion ar gyfer cynnal, cynnal a chadw neu weithrediad hanfodol y cartref neu weithle;
- (d) cynhyrchion fferyllol, cynhyrchion iechyd a gofal personol, cynhyrchion babanod (gan gynnwys dillad), cynhyrchion ymolchi a chynhyrchion cosmetig;

47. Shopping centres and shopping arcades.

48. Estate or letting agents, developer sales offices and show homes.

Exempt premises

Public services etc.

49. Dental services, opticians, audiology services, chiropody, chiropractors, osteopaths, physiotherapy services, acupuncture services and other medical or health services, including services relating to mental health.

50. Hospital libraries and libraries at educational establishments.

51. Funeral directors.

52. Veterinary surgeons.

Food and drink businesses

53. Cafés and canteens at a hospital, care home, school or within accommodation provided for students.

54. Canteens at a prison or an establishment intended for use for naval, military or air force purposes or for the purposes of the Department of the Secretary of State responsible for defence.

Retail etc.

55. Businesses offering the following goods for sale or hire in a shop—

- (a) food or drink for consumption off the premises (including food for pets and other domestic animals);
- (b) products essential for the storage, preparation or consumption of food or drink;
- (c) products for the essential upkeep, maintenance or functioning of the home or a workplace;
- (d) pharmaceutical products, health and personal care products, baby products (including clothing), toiletries and cosmetics;

- (e) papurau newydd a chylchgronau;
- (f) beiciau a chynhyrchion sy'n hanfodol ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw beiciau,

ond dim ond at ddibenion gwerthu neu logi'r nwyddau hynny.

56. Marchnadoedd bwyd, siopau cyfleustra, siopau cornel, siopau anifeiliaid anwes, siopau sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar eu mangreoedd a gorsafoedd petrol.

57. Archfarchnadoedd a siopau eraill sy'n gwerthu sawl math o nwyddau ond dim ond at ddibenion—

- (a) gwerthu'r nwyddau a restrir ym mharagraff 55;
- (b) gwerthu nwyddau o fath a werthir fel arfer gan unrhyw un neu ragor o'r busnesau a restrir yn is-baragraff 56;
- (c) gwerthu nwyddau eraill—
 - (i) pan na fo'n rhesymol ymarferol gwahanu neu ddarnodi'r ardaloedd hynny o siop sy'n arddangos nwyddau o'r fath fel arfer oddi wrth yr ardaloedd hynny sy'n arddangos y nwyddau a grybwyllir ym mharagraffau (a) a (b);
 - (ii) ar sail eithriadol pan fo angen y nwyddau mewn argyfwng neu ar sail dosturiol.

58. Siopau sy'n cynnig gwasanaethau cynnal a chadw neu atgyweirio ar gyfer dyfeisiau telathrebu neu dechnoleg gwybodaeth.

59. Siopau cyflenwadau adeiladu ac offer.

60. Banciau, cymdeithasau adeiladu a darparwyr gwasanaethau ariannol eraill.

61. Swyddfeydd post.

62. Gwasanaethau trwsio ceir ac MOT.

63. Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.

64. Golchdai a siopau sychlanhau.

65. Busnesau tacsï neu logi cerbydau.

66. Siopau cyflenwadau amaethyddol neu ddyframaethu.

- (e) newspapers and magazines;
- (f) bicycles and products essential for the use and maintenance of bicycles,

but only for the purposes of selling or hiring those goods.

56. Food markets, convenience stores, corner shops, pet shops, off licences and petrol stations.

57. Supermarkets and other shops that sell multiple types of goods but only for the purposes of—

- (a) selling the goods listed in paragraph 55;
- (b) selling goods of a type ordinarily sold by any of the businesses listed in paragraph 56;
- (c) selling other goods—
 - (i) where it is not reasonably practicable to separate or demarcate those areas of a shop that ordinarily displays such goods from those areas that display the goods mentioned in paragraphs (a) and (b);
 - (ii) on an exceptional basis where the goods are required in an emergency or on compassionate grounds.

58. Shops offering maintenance or repair services for telecommunications or information technology devices.

59. Building supplies and hardware stores.

60. Banks, building societies and other financial services providers.

61. Post offices.

62. Car repair and MOT services.

63. Livestock markets or auctions.

64. Laundrettes and dry cleaners.

65. Taxi or vehicle hire businesses.

66. Agricultural or aquacultural supplies shops.

ATODLEN 5

Rheoliad 4(8)

SCHEDULE 5

Regulation 4(8)

Ardaloedd

Areas

1. Dyma'r tabl y cyfeirir ato yn rheoliad 4(8)—

1. This is the table referred to in regulation 4(8)—

<i>Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>	<i>Colofn 3</i>	<i>Column 1</i>	<i>Column 2</i>	<i>Column 3</i>
	<i>Ardal</i>	<i>Lefel Rhybudd yr Ardal</i>		<i>Area</i>	<i>Alert Level of Area</i>
1	Cymru gyfan	3 tan 6.00 p.m. ar 25 Rhagfyr 2020	1	The whole of Wales	3 until 6.00 p.m. on 25 December 2020
		4 o 6.00 p.m. ar 25 Rhagfyr 2020			4 from 6.00 p.m. on 25 December 2020

ATODLEN 6

Rheoliad 4(7)

Addasiadau dros dro ar gyfer y Nadolig: aelwydydd estynedig a theithio

Y Nadolig: addasiadau dros dro i gyfyngiadau ar gynullïadau mewn anheddau preifat a chyfyngiadau ar deithio

1. Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020 mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau yn yr Atodlen hon.

Diffiniad o "cyfnod y Nadolig"

2. Yn rheoliad 57(1) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

“(da) ystyr “cyfnod y Nadolig” yw'r cyfnod sy'n dechrau â 23 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 27 Rhagfyr 2020 (ond gweler paragraff 3A o Atodlen 3 a pharagraff 3A o Atodlen 4).”

Aelwydydd estynedig yn ystod cyfnod y Nadolig

- 3.—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei haddasu fel a ganlyn.
(2) Yn lle paragraff 3 rhodder—

“Y Nadolig: aelwyd estynedig

3.—(1) Caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig gydag aelwyd arall yn ystod cyfnod y Nadolig.

(2) Yn ychwanegol at y 2 aelwyd sydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan is-baragraff (1), caiff 1 aelwyd un oedolyn hefyd gytuno i gael ei thrin fel rhan o'r aelwyd estynedig honno.

(3) Er mwyn cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig, rhaid i'r holl aelodau o'r aelwyd estynedig sy'n oedolion gytuno (ond gweler is-baragraff (4)).

(4) Caiff aelod o aelwyd (“aelwyd wreiddiol”) sy'n oedolyn gytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig nad yw aelod arall o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolyn wedi cytuno i fod yn rhan ohoni.

SCHEDULE 6

Regulation 4(7)

Temporary modifications for Christmas: extended households and travel

Christmas: temporary modifications to restrictions on gatherings in private dwellings and restrictions on travelling

1. During the period beginning with 22 December 2020 and ending with 28 December 2020 these Regulations apply subject to the modifications in this Schedule.

Definition of “Christmas period”

2. In regulation 57(1) after paragraph (d) insert—

“(da) “Christmas period” means the period beginning with 23 December 2020 and ending with 27 December 2020 (but see paragraph 3A of Schedule 3 and paragraph 3A of Schedule 4).”

Extended households during Christmas period

- 3.—(1) Schedule 3 is modified as follows.
(2) For paragraph 3 substitute—

“Christmas: extended household

3.—(1) A household may agree to be treated as an extended household with another household during the Christmas period.

(2) In addition to the 2 households who have agreed to be treated as an extended household under sub-paragraph (1), 1 single adult household may also agree to be treated as part of that extended household.

(3) To agree to be treated as an extended household, all of the adult members of the households must agree (but see sub-paragraph (4)).

(4) An adult member of a household (an “original household”) may agree to be treated as being part of an extended household that another adult member of the original household has not agreed to be part of.

(5) Pan fo is-baragraff (5) yn gymwys—

- (a) mae'r aelwyd wreiddiol i'w thrin at ddibenion y paragraff hwn a pharagraffau 1, 2 a 3A fel 2 aelwyd (neu ragor) ar wahân,
- (b) rhaid i'r aelodau o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolion benderfynu pa un neu ragor o'r aelwydydd ar wahân hynny sy'n cynnwys unrhyw aelod o'r aelwyd wreiddiol sy'n—
 - (i) plentyn, neu
 - (ii) oedolyn y mae gan oedolyn arall ar yr aelwyd gyfrifoldebau gofalu drosto, ac
- (c) mae'r aelodau o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolion i ddychwelyd i gael eu trin fel un aelwyd pan nad ydynt yn rhan o aelwyd estynedig mwyach.

(6) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn 1 aelwyd estynedig.

(7) Mae aelwyd yn peidio â chytuno i fod yn rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(8) Os yw aelwyd yn peidio â chytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig arall gydag unrhyw aelwyd arall.

(9) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

Addasu “cyfnod y Nadolig”: aelwydydd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon

3A.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo aelwyd sy'n ffurfio rhan o aelwyd estynedig yn aelwyd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon.

(2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff 3(1) at “cyfnod y Nadolig” i'w ddarllen fel cyfeiriad at y cyfnod sy'n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020.”

4.—(1) Mae Atodlen 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 3 (aelwydydd estynedig) rhodder—

(5) Where sub-paragraph (4) applies—

- (a) the original household is to be treated for the purposes of this paragraph and paragraphs 1, 2 and 3A as 2 (or more) separate households,
- (b) the adult members of the original household must determine which of those separate households includes any member of the original household who is—
 - (i) a child, or
 - (ii) an adult for whom another adult in the household has caring responsibilities, and
- (c) the adult members of the original household are to revert to be treated as a single household when they are no longer part of an extended household.

(6) A household may only agree to be treated as being in 1 extended household.

(7) A household ceases to be treated as being in an extended household if any adult member of the household ceases to agree to be treated as being in the extended household.

(8) If a household ceases to be treated as being in an extended household, the household may not agree to be treated as being in an extended household with any other household.

(9) In this Schedule, references to an extended household are references to an extended household formed under or by virtue of this paragraph.

Modification of “Christmas period”: households living in Northern Ireland

3A.—(1) This paragraph applies where a household which forms part of an extended household is a household living in Northern Ireland.

(2) The reference in paragraph 3(1) to the “Christmas period” is to be read as a reference to the period beginning with 22 December 2020 and ending with 28 December 2020.”

4.—(1) Schedule 4 is modified as follows.

(2) For paragraph 3 (extended households) substitute—

“Y Nadolig: aelwyd estynedig

3.—(1) Caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig gydag aelwyd arall yn ystod cyfnod y Nadolig.

(2) Yn ychwanegol at y 2 aelwyd sydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan is-baragraff (1), caiff 1 aelwyd un oedolyn hefyd gytuno i gael ei thrin fel rhan o'r aelwyd estynedig honno.

(3) Er mwyn cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig rhaid i holl aelodau'r aelwydydd sy'n oedolion gytuno (ond gweler is-baragraff (4)).

(4) Caiff aelod o aelwyd (“aelwyd wreiddiol”) sy'n oedolyn gytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig nad yw aelod arall o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolyn wedi cytuno i fod yn rhan ohoni.

(5) Pan fo is-baragraff (4) yn gymwys—

(a) mae'r aelwyd wreiddiol i'w thrin at ddibenion y paragraff hwn a pharagraffau 1, 2 a 3A fel 2 aelwyd (neu ragor) ar wahân,

(b) rhaid i'r aelodau sy'n oedolion o'r aelwyd wreiddiol benderfynu pa un neu ragor o'r aelwydydd ar wahân hynny sy'n cynnwys unrhyw aelod o'r aelwyd wreiddiol sy'n—

(i) plentyn, neu

(ii) oedolyn y mae gan oedolyn arall ar yr aelwyd gyfrifoldebau gofalu drosto, ac

(c) mae'r aelodau o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolion i ddychwelyd i gael eu trin fel un aelwyd pan nad ydynt yn rhan o aelwyd estynedig mwyach.

(6) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn 1 aelwyd estynedig.

(7) Mae aelwyd estynedig yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(8) Os yw aelwyd yn peidio â chytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig arall gydag unrhyw aelwyd arall.

(9) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

“Christmas: extended household

3.—(1) A household may agree to be treated as an extended household with another household during the Christmas period.

(2) In addition to the 2 households who have agreed to be treated as an extended household under sub-paragraph (1), 1 single adult household may also agree to be treated as part of that extended household.

(3) To agree to be treated as an extended household, all of the adult members of the households must agree (but see sub-paragraph (4)).

(4) An adult member of a household (an “original household”) may agree to be treated as being part of an extended household that another adult member of the original household has not agreed to be part of.

(5) Where sub-paragraph (4) applies—

(a) the original household is to be treated for the purposes of this paragraph and paragraphs 1, 2 and 3A as 2 (or more) separate households,

(b) the adult members of the original household must determine which of those separate households includes any member of the original household who is—

(i) a child, or

(ii) an adult for whom another adult in the household has caring responsibilities, and

(c) the adult members of the original household are to revert to be treated as a single household when they are no longer part of an extended household.

(6) A household may only agree to be treated as being in 1 extended household.

(7) A household ceases to be treated as being in an extended household if any adult member of the household ceases to agree to be treated as being in the extended household.

(8) If a household ceases to be treated as being in an extended household, the household may not agree to be treated as being in an extended household with any other household.

(9) In this Schedule, references to an extended household are references to an extended household formed under or by virtue of this paragraph.

Addasu “cyfnod y Nadolig”: aelwydydd sy’n byw yng Ngogledd Iwerddon

3A.—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys pan fo aelwyd sy’n ffurfio rhan o aelwyd estynedig yn aelwyd sy’n byw yng Ngogledd Iwerddon.

(2) Mae’r cyfeiriad ym mharagraff 3(1) at “cyfnod y Nadolig” i’w ddarllen fel cyfeiriad at y cyfnod sy’n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy’n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020.”

(3) Ym mharagraff 7—

(a) yn is-baragraff (2)(b), hepgorer “(pan fo’r gwesty neu’r llety arall yn parhau i weithredu yn unol â’r eithriadau a ganiateir gan baragraff 8)”;

(b) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—

“(5) Mae is-baragraffau (6) a (7) yn gymwys pan fo mangre busnes bwyd a diod (“y fangre o dan gyfyngiadau”) yn ffurfio rhan o fangre’r llety gwyliau neu’r llety teithio.

(6) Nid yw is-baragraff (1)—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i’r fangre o dan gyfyngiadau fod ar gau i breswylwyr y llety gwyliau neu’r llety teithio;

(b) yn atal gwerthu bwyd neu ddiod i breswylwyr—

(i) fel rhan o wasanaeth ystafell (ond gweler paragraff 11(3)), neu

(ii) rhwng 6.00 a.m. a 10.00 p.m. mewn unrhyw ran o fangre’r llety gwyliau neu’r llety teithio.”

(4) Yn lle paragraff 8 rhodder—

“Gwestai a llety teithio: gofynion ynghylch preswylwyr

8.—(1) O ran person sy’n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraff 15 i 18 (llety gwyliau neu lety teithio), erbyn diwedd y dydd ar 27 Rhagfyr 2020—

(a) rhaid iddo gau i aelodau’r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o’r busnes, a

(b) ni chaiff gynnal busnes yn y fangre honno ac eithrio yn unol â’r paragraff hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

(a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i’w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i’r fangre mwyach;

Modification of “Christmas period”: households living in Northern Ireland

3A.—(1) This paragraph applies where a household which forms part of an extended household is a household living in Northern Ireland.

(2) The reference in paragraph 3(1) to the “Christmas period” is to be read as a reference to the period beginning with 22 December 2020 and ending with 28 December 2020.”

(3) In paragraph 7—

(a) in sub-paragraph (2)(b), omit “(where the hotel or other accommodation continues to operate in accordance with the exceptions allowed by paragraph 8)”;

(b) after sub-paragraph (4) insert—

“(5) Sub-paragraphs (6) and (7) apply where premises of a food and drink business (“the restricted premises”) form part of the premises of holiday or travel accommodation.

(6) Sub-paragraph (1) does not—

(a) require the restricted premises to be closed to the residents of the holiday or travel accommodation;

(b) prevent the sale of food or drink to residents—

(i) as part of room service (but see paragraph 11(3)), or

(ii) between 6.00 a.m. and 10.00 p.m. in any part of the premises of the holiday or travel accommodation.”

(4) For paragraph 8 substitute—

“Hotels and travel accommodation: requirements relating to residents

8.—(1) A person responsible for carrying on a business which is listed in paragraph 15 to 18 (holiday or travel accommodation) must, by the end of the day on 27 December 2020—

(a) close to members of the public any premises operated as part of the business, and

(b) not carry on business at such premises otherwise than in accordance with this paragraph.

(2) Sub-paragraph (1) does not prevent—

(a) carrying out maintenance and repairs or other work to ensure premises are suitable for use when sub-paragraph (1) no longer applies to the premises;

- (b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;
- (c) darparu llety i unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac—
 - (i) nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w prif breswylfa, or
 - (ii) sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa;
- (d) darparu llety i unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw ac sy'n teithio i Ogledd Iwerddon ar 28 Rhagfyr 2020;
- (e) defnyddio mangre i gynnal y busnes drwy ddarparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill —
 - (i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,
 - (ii) dros y ffôn, gan gynnwys ymholiadau drwy neges destun, neu
 - (iii) drwy'r post.

(3) Pan—

- (a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes (“busnes A”) yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a
- (b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy (“busnes B”),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre.”

- (b) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;
- (c) the provision of accommodation for any persons staying in that accommodation when these Regulations come into force and who—
 - (i) are unable to return to their main residence, or
 - (ii) are using the accommodation as their main residence;
- (d) the provision of accommodation for any persons staying in that accommodation who are travelling to Northern Ireland on 28 December 2020;
- (e) the use of premises to carry on the business by providing information or other services—
 - (i) through a website, or otherwise by on-line communication,
 - (ii) by telephone, including enquiries by text message, or
 - (iii) by post.

(3) Where—

- (a) a person responsible for carrying on a business (“business A”) is required by virtue of this paragraph to cease carrying on business A at premises, and
- (b) business A forms part of a larger business (“business B”),

the requirement in this paragraph is complied with if the person responsible for carrying on business B ceases to carry on business A at the premises.”

Darpariaeth drosiannol ynghylch aelwydydd estynedig

5.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) pan fo aelwyd yn rhan o aelwyd estynedig yn ystod cyfnod y Nadolig yn rhinwedd yr addasiadau a wneir ym mharagraff 3 neu 4 o'r Atodlen hon (“aelwyd estynedig y Nadolig”), a
- (b) pan oedd yr aelwyd, yn union cyn cyfnod y Nadolig, yn rhan o aelwyd estynedig a ffurfiwyd o dan neu yn rhinwedd paragraff 3 o Atodlen 3 (“aelwyd estynedig cyn y Nadolig”) fel y mae'n gymwys heb yr addasiadau a wneir ym mharagraff 3.

Transitional provision about extended households

5.—(1) This paragraph applies where a household—

- (a) is part of an extended household during the Christmas period by virtue of the modifications made in paragraph 3 or 4 of this Schedule (a “Christmas extended household”), and
- (b) immediately before the Christmas period, was part of an extended household formed under or by virtue of paragraph 3 of Schedule 3 (a “pre-Christmas extended household”) as it applies without the modifications made in paragraph 3.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn fel y'u haddesir gan yr Atodlen hon—

- (a) mae'r aelwyd estynedig cyn y Nadolig i'w thrin fel pe na bai'n bodoli mwyach, a
- (b) mae'r aelwyd i'w thrin fel pe na bai wedi cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig cyn cytuno i ffurfio rhan o aelwyd estynedig y Nadolig.

(3) Yn union ar ddiwedd cyfnod y Nadolig, mae'r aelwyd i'w thrin, at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel pe na bai wedi gwneud unrhyw gytundeb blaenorol i gael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "cyfnod y Nadolig" mewn perthynas ag aelwyd yw—

- (a) y cyfnod sy'n dechrau â 23 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 27 Rhagfyr 2020, neu
- (b) pan fo'r aelwyd—
 - (i) yn byw yng Ngogledd Iwerddon, neu
 - (ii) yn rhan o aelwyd estynedig y Nadolig gydag aelwyd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon,

y cyfnod sy'n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020.

(2) For the purposes of these Regulations as modified by this Schedule—

- (a) the pre-Christmas extended household is to be treated as if it no longer exists, and
- (b) the household is to be treated as if it had not agreed to be treated as an extended household prior to agreeing to form part of the Christmas extended household.

(3) Immediately upon the end of the Christmas period, the household is to be treated, for the purposes of these Regulations, as if it had made no previous agreement to be treated as part of an extended household.

(4) In this paragraph "Christmas period" in relation to a household means—

- (a) the period beginning with 23 December 2020 and ending with 27 December 2020, or
- (b) where the household—
 - (i) is living in Northern Ireland, or
 - (ii) is part of a Christmas extended household with a household living in Northern Ireland,

the period beginning with 22 December 2020 and ending with 28 December 2020.

Mangreoedd rheoleiddiedig

Busnesau bwyd a diod

1. Bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau).
2. Tafarndai.
3. Caffis, ffreuturau a bwytai (gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau).

Llety gwyliau a llety teithio

4. Safleoedd gweryslla.
5. Safleoedd gwyliau.
6. Gwestai a llety gwely a brecwast.
7. Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).

Gwasanaethau cyhoeddus etc.

8. Gwasanaethau meddygol neu iechyd.
9. Gwasanaethau ailgylchu a gwastraff.
10. Canolfannau cymunedol.
11. Llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau.
12. Addoldai.
13. Trefnwyr angladdau.
14. Amlogsfeydd.
15. Milfeddygon.

Gwasanaethau personol etc.

16. Salonau gwallt a barbwyrr.
17. Salonau ewinedd a harddwch gan gynnwys gwasanaethau lliw haul ac electrolysis.
18. Gwasanaethau tyllu'r corff a thatwio.

Hamdden a chymdeithasol etc.

19. Sinemâu.
20. Neuaddau cyngerdd a theatrau.
21. Casinos.

Regulated premises

Food and drink businesses

1. Bars (including bars in members' clubs).
2. Public houses.
3. Cafes, canteens and restaurants (including workplace canteens and dining rooms in members' clubs).

Holiday and travel accommodation

4. Camping sites.
5. Holiday sites.
6. Hotels and bed and breakfast accommodation.
7. Other holiday accommodation (including holiday apartments, hostels and boarding houses).

Public services etc.

8. Medical or health services.
9. Recycling and waste centres.
10. Community centres.
11. Libraries and archive services.
12. Places of worship.
13. Funeral directors.
14. Crematoriums.
15. Veterinary surgeons.

Personal services etc.

16. Hair salons and barbers.
17. Nail and beauty salons including tanning and electrolysis services.
18. Body piercings and tattooing services.

Leisure and social etc.

19. Cinemas.
20. Concert halls and theatres.
21. Casinos.

22. Neuaddau bingo.
23. Arcedau diddanu.
24. Alïau bowlio.
25. Canolfannau neu fannau chwarae o dan do.
26. Meysydd chwarae.
27. Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.
28. Busnesau gwyliau, gweithgareddau hamdden neu ddigwyddiadau.
29. Amgueddfeydd ac orielau.
30. Rinciau sglefrio.
31. Parciau a chanolfannau trampolîn.
32. Parciau a chanolfannau sglefrio o dan do.
33. Sbaon.
34. Lleoliadau ar gyfer digwyddiadau neu gynadleddau (gan gynnwys lleoliadau ar gyfer priodasau).
35. Atyniadau i ymwelwyr.

Chwaraeon ac ymarfer corff

36. Cyfleusterau chwaraeon neu ymarfer corff, gan gynnwys stiwdios ffïtrwydd o dan do a champfeydd.
37. Pyllau nofio.
38. Cyrtiau chwaraeon, lawntiau bowlio, cyrsiau golff a meysydd neu leiniau chwaraeon amgaeedig (boed yn yr awyr agored neu o dan do).

Manwerthu etc.

39. Unrhyw fusnes sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi mewn mangre fanwerthu, gan gynnwys—
 - (a) tai arwerthiant;
 - (b) delwriaethau ceir;
 - (c) marchnadoedd;
 - (d) siopau betio;
 - (e) canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion;
 - (f) fferyllfeydd (gan gynnwys fferyllfeydd nad ydynt yn darparu cyffuriau ar bresgripsiwn) a siopau cemist;
 - (g) banciau, cymdeithasau adeiladu a darparwyr gwasanaethau ariannol eraill;
 - (h) swyddfeydd post;

22. Bingo halls.
23. Amusement arcades.
24. Bowling alleys.
25. Indoor play centres or areas.
26. Playgrounds.
27. Funfairs, amusement parks and theme parks.
28. Holiday, leisure activity or events businesses.
29. Museums and galleries.
30. Skating rinks.
31. Trampoline parks and centres.
32. Indoor skate parks and centres.
33. Spas.
34. Venues for events or conferences (including venues for weddings).
35. Visitor attractions.

Sports and exercise

36. Sports or exercise facilities, including indoor fitness studios and gyms.
37. Swimming pools.
38. Sports courts, bowling greens, golf courses and enclosed sports grounds or pitches (whether outdoors or indoors).

Retail etc.

39. Any business offering goods or services for sale or hire in retail premises, including—
 - (a) auction houses;
 - (b) car dealerships;
 - (c) markets;
 - (d) betting shops;
 - (e) garden centres and plant nurseries;
 - (f) pharmacies (including non-dispensing pharmacies) and chemists;
 - (g) banks, building societies and other financial services providers;
 - (h) post offices;

- (i) gwasanaethau trwsio ceir ac MOT;
- (j) marchnadoedd neu arwerthiannau da byw;
- (k) golchdai a siopau sychlanhau;
- (l) gorsafoedd petrol;
- (m) busnesau tacsï neu logi cerbydau.

40. Canolfannau siopa ac arcedau siopa.

41. Cyfleusterau storio a dosbarthu, gan gynnwys manau gollwng danfoniadau.

42. Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.

- (i) car repair and MOT services;
- (j) livestock markets or auctions;
- (k) laundrettes and dry cleaners;
- (l) petrol stations;
- (m) taxi or vehicle hire businesses.

40. Shopping centres and shopping arcades.

41. Storage and distribution facilities, including delivery drop off points.

42. Estate or letting agents, developer sales offices and show homes.

Gorfodi gofyniad i gymryd mesurau ataliol mewn mangre reoleiddiedig

Hysbysiad gwella mangre

1.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad (“hysbysiad gwella mangre”) i berson cyfrifol os yw’r swyddog yn ystyried—

- (a) nad yw’r person yn cydymffurfio â’r rhwymedigaethau a osodir ar y person gan reoliad 16 neu 17, a
- (b) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â’r rhwymedigaethau hynny.

(2) Rhaid i hysbysiad gwella mangre—

- (a) pennu’r fangre y mae’n ymwneud â hi;
- (b) pennu’r mesurau y mae’n ei gwneud yn ofynnol eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â’r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17;
- (c) pennu terfyn amser y mae rhaid cymryd y mesurau oddi mewn iddo (na chaniateir iddo fod yn llai nag 48 awr sy’n dechrau â’r amser y dyroddir yr hysbysiad);
- (d) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(3) Yn yr Atodlen hon, mae i “person cyfrifol” yr ystyr a roddir gan reoliad 15(2).

Hysbysiad cau mangre

2.—(1) Os yw naill ai amod 1 neu amod 2 wedi ei fodloni, caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad (“hysbysiad cau mangre”) i berson cyfrifol sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r fangre, neu ran o’r fangre, gael ei chau.

(2) Amod 1 yw—

- (a) bod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi i’r person,
- (b) bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried bod y person wedi methu â chymryd y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, ac
- (c) bod y swyddog yn ystyried bod cau’r fangre, neu ran o’r fangre, yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau’r risg o ddod i gysylltiad â’r coronafeirws.

Enforcement of requirement to take preventative measures on regulated premises

Premises improvement notice

1.—(1) An enforcement officer may issue a notice (a “premises improvement notice”) to a responsible person if the officer considers that—

- (a) the person is not complying with the obligations imposed on the person by regulation 16 or 17, and
- (b) the measures specified in the notice are necessary and proportionate in order to ensure that the person complies with those obligations.

(2) A premises improvement notice must—

- (a) specify the premises to which it relates;
- (b) specify the measures it requires to be taken in order to ensure that the person complies with the obligations imposed by regulation 16 or 17;
- (c) specify a time limit within which the measures must be taken (which must not be less than 48 hours beginning with the time the notice is issued);
- (d) give details of the right of appeal conferred by paragraph 5.

(3) In this Schedule, “responsible person” has the meaning given by regulation 15(2).

Premises closure notice

2.—(1) If either condition 1 or condition 2 is satisfied, an enforcement officer may issue a notice (a “premises closure notice”) to a responsible person requiring the premises, or part of the premises, to be closed.

(2) Condition 1 is—

- (a) a premises improvement notice has been issued to the person,
- (b) the enforcement officer considers that the person has failed to take the measures specified in the premises improvement notice within the specified time limit, and
- (c) the officer considers that the closure of the premises, or part of the premises, is necessary and proportionate for the purpose of minimising the risk of exposure to coronavirus.

(3) Amod 2 yw bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried—

- (a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17, a
- (b) bod cau'r fangre, neu ran o'r fangre, (heb fod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi) yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(4) Rhaid i hysbysiad cau mangre—

- (a) cynnwys disgrifiad o'r fangre sydd i'w chau,
- (b) pan fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r mesurau y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried—
 - (i) nad ydynt wedi eu cymryd, a
 - (ii) y mae rhaid eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person cyfrifol yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17,
- (c) pan na fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17,
- (d) yn y naill achos neu'r llall, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried bod cau'r fangre yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws,
- (e) pennu'r cyfnod y mae'r hysbysiad yn cael effaith amdano, ac
- (f) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(5) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (4)(e) fod yn hwy na 672 o oriau (28 o ddiwrnodau) sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad.

(6) Mae hysbysiad cau mangre yn cael effaith o'r amser y'i dyroddir neu o amser diweddarach a bennir yn yr hysbysiad.

(7) Ni chaniateir dyroddi hysbysiad cau mangre mewn perthynas â mangre sy'n rhan o seilwaith hollbwysig (er enghraifft, mangre a ddefnyddir i gynhyrchu trydan neu gyflenwi dŵr) neu a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

(8) Pan fo—

- (a) swyddog gorfodaeth yn ystyried bod person cyfrifol wedi methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, a

(3) Condition 2 is that the enforcement officer considers that—

- (a) the person is not complying with the obligations imposed on the person by regulation 16 or 17, and
- (b) the closure of the premises, or part of the premises, (without a premises improvement notice having been issued) is necessary and proportionate for the purpose of minimising the risk of exposure to coronavirus.

(4) A premises closure notice must—

- (a) contain a description of the premises to be closed,
- (b) where a premises improvement notice has been issued, set out the measures that the enforcement officer considers—
 - (i) have not been taken, and
 - (ii) must be taken in order to ensure that the responsible person complies with the obligations imposed by regulation 16 or 17,
- (c) where a premises improvement notice has not been issued, set out the reasons why the enforcement officer considers that the person is not complying with the obligations imposed by regulation 16 or 17,
- (d) in either case, set out the reasons why the enforcement officer considers that closure of the premises is necessary and proportionate for the purpose of minimising the risk of exposure to coronavirus,
- (e) specify the period for which the notice has effect, and
- (f) give details of the right of appeal conferred by paragraph 5.

(5) The period specified under sub-paragraph (4)(e) may not be more than 672 hours (28 days) beginning with the time the notice is issued.

(6) A premises closure notice has effect from the time at which it is issued or from a later time specified in the notice.

(7) A premises closure notice may not be issued in relation to premises which form part of critical infrastructure (for example, premises used to generate electricity or supply water) or which are used to provide essential public services.

(8) Where—

- (a) an enforcement officer considers that a responsible person has failed to take the measures specified in a premises improvement notice within the specified time limit, and

- (b) naill ai—
 - (i) hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi, neu
 - (ii) achos wedi ei ddwyn am drosedd,

mewn perthynas â'r methiant hwnnw,

caiff y swyddog gorfodaeth serch hynny ddyroddi hysbysiad cau mangre o dan is-baragraff (1).

Effaith hysbysiad cau mangre

3.—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i hysbysiad cau mangre gymryd effaith, rhaid i'r person y'i dyroddir iddo sicrhau—

- (a) bod y fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi yn cael ei chau, a
- (b) na chynhelir unrhyw fusnes neu na ddarperir unrhyw wasanaeth yn y fangre neu ohoni.

(2) Ni chaiff unrhyw berson fynd i'r fangre, neu fod yn y fangre, sydd wedi ei chau o dan is-baragraff (1) heb esgus rhesymol.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae'r amgylchiadau pan fo gan berson esgus rhesymol yn cynnwys—

- (a) pan fo'r person yn byw yn y fangre;
- (b) pan fo'r person yn gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio hanfodol;
- (c) pan fo'r person yn gwneud pethau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 16 a, phan fo'n berthnasol, reoliad 17, pan ganiateir i'r fangre fod ar agor;
- (d) pan fo'r person yn swyddog gorfodaeth neu berson sy'n cynorthwyo swyddog gorfodaeth;
- (e) pan fo'n angenrheidiol i'r person fod yn y fangre er mwyn osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

Terfynu hysbysiad gwella neu gau mangre

4.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad sy'n terfynu hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre os yw wedi ei fodloni—

- (a) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre (os dyroddwyd un) wedi eu cymryd, neu
- (b) bod mesurau eraill wedi eu cymryd i sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 16 a, phan fo'n berthnasol, reoliad 17 yn y fangre o dan sylw.

- (b) either—
 - (i) a fixed penalty notice has been issued, or
 - (ii) proceedings have been brought for an offence,

in relation to that failure,

the enforcement officer may nevertheless issue a premises closure notice under sub-paragraph (1).

Effect of premises closure notice

3.—(1) As soon as is reasonably practicable after a premises closure notice takes effect, the person to whom it is issued must ensure that—

- (a) the premises to which the notice relates are closed, and
- (b) no business is carried on or service is provided on, or from, the premises.

(2) No person may enter, or be on, premises closed under sub-paragraph (1) without a reasonable excuse.

(3) For the purposes of sub-paragraph (2), the circumstances in which a person has a reasonable excuse include where—

- (a) the person lives on the premises;
- (b) the person is carrying out essential maintenance or repairs;
- (c) the person is doing things necessary to ensure that regulation 16 and, where relevant, regulation 17 can be complied with when the premises are allowed to be open;
- (d) the person is an enforcement officer or a person assisting an enforcement officer;
- (e) it is necessary for the person to be on the premises to avoid injury or illness or escape a risk of harm.

Termination of premises improvement or closure notice

4.—(1) An enforcement officer may issue a notice terminating a premises improvement notice or a premises closure notice if satisfied that—

- (a) the measures specified in the premises improvement notice (if one was issued) have been taken, or
- (b) other measures have been taken to ensure that regulation 16 and, where relevant, regulation 17 can be complied with at the premises in question.

(2) Mae hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre yn peidio â chael effaith ar yr amser y dyroddir hysbysiad o'r terfyniad.

Apelau

5.—(1) Caiff person y dyroddir hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre iddo apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i apêl gael ei wneud—

(a) drwy gŵyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980, a

(b) o fewn 7 niwrnod ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

(3) Ond caiff llys ynadon ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) os yw wedi ei fodloni bod rheswm da dros fethu ag apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (a thros unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio y tu allan i amser).

(4) Caiff llys ynadon atal dros dro effaith hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre wrth aros am y penderfyniad ar yr apêl.

(5) Ar apêl yn erbyn hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre, caiff llys ynadon—

(a) cadarnhau'r penderfyniad i ddyroddi'r hysbysiad;

(b) cyfarwyddo bod yr hysbysiad i beidio â chael effaith;

(c) addasu'r hysbysiad;

(d) gwneud unrhyw orchymyn arall y mae'r llys yn ystyried ei fod yn briodol.

(6) Os yw'r llys ynadon yn cyfarwyddo bod hysbysiad i beidio â chael effaith neu'n addasu hysbysiad, caiff orchymyn i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre o dan sylw ddigolledu'r person sy'n gyfrifol am y fangre am gollod a ddiodefir o ganlyniad i ddyroddi'r hysbysiad.

(7) Caiff y naill parti neu'r llall ddwyn apêl yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon i Lys y Goron.

(8) Ar apêl i Lys y Goron, caiff y Llys—

(a) cadarnhau, amrywio neu wrthdroi penderfyniad y llys ynadon;

(b) anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon i'w waredu yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

(2) A premises improvement notice or premises closure notice ceases to have effect at the time notice of the termination is issued.

Appeals

5.—(1) A person to whom a premises improvement notice or premises closure notice is issued may appeal to a magistrates' court against the notice.

(2) An appeal must be made—

(a) by way of complaint for an order, and in accordance with the Magistrates' Courts Act 1980, and

(b) within 7 days after the day the notice is issued.

(3) But a magistrates' court may allow an appeal to be made after the expiry of the period mentioned in sub-paragraph (2)(b) if satisfied that there is a good reason for the failure to appeal before the expiry of that period (and for any delay in applying for permission to appeal out of time).

(4) A magistrates' court may suspend the effect of a premises improvement notice or premises closure notice pending the determination of an appeal.

(5) On an appeal against a premises improvement notice or premises closure notice, a magistrates' court may—

(a) confirm the decision to issue the notice;

(b) direct that the notice is to cease to have effect;

(c) modify the notice;

(d) make such other order as the court considers appropriate.

(6) If the magistrates' court directs that a notice is to cease to have effect or modifies a notice, it may order the local authority for the area in which the premises in question are situated to pay compensation for loss suffered as the result of the issue of the notice.

(7) An appeal by either party against the decision of a magistrates' court on an appeal under this section may be brought to the Crown Court.

(8) On an appeal to the Crown Court, the Court may—

(a) confirm, vary or reverse the decision of the magistrates court;

(b) remit the case to the magistrates' court to dispose of in accordance with directions given by the Crown Court.

Dyrodidi hysbysiadau gwella a chau mangreoedd a therfyniadau

6.—(1) Caiff hysbysiad gwella mangre, hysbysiad cau mangre neu derfyniad o'r naill neu'r llall o'r mathau hynny o hysbysiad ei ddyrodidi i berson drwy roi copi ohono yn ysgrifenedig i'r person hwnnw.

(2) Ond pan na fo'r person sy'n gyfrifol am y fangre y mae'r hysbysiad neu'r terfyniad yn ymwneud â hi yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyrodidi, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddyrodidi i'r person—

- (a) os rhoddir copi ohono i unrhyw berson arall yn y fangre yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am unrhyw fusnes neu wasanaeth a gynhelir yn y fangre, neu
- (b) os nad oes unrhyw berson o'r fath yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyrodidi, os gosodir copi o'r hysbysiad mewn lle amlwg yn y fangre.

Rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau gwella a chau mangreoedd

7.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog gorfodaeth wedi dyrodidi hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dyrodidi'r hysbysiad, rhaid i'r swyddog gorfodaeth—

- (a) arddangos copi o'r hysbysiad, ac arwydd ar y ffurf a nodir yn Atodlen 9, mewn man amlwg yn agos i bob mynedfa i'r fangre;
- (b) trefnu i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre.

(3) Rhaid i hysbysiad neu arwydd a arddangosir o dan is-baragraff (2)(a) fod o faint A4 o leiaf.

(4) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei arddangos a'i gyhoeddi o dan is-baragraff (2) barhau i gael ei arddangos a'i gyhoeddi, a rhaid i arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan yr is-baragraff hwnnw barhau i gael ei arddangos, am gyhyd ag y mae'r hysbysiad yn cael effaith.

Dangos dogfennau etc.

8.—(1) Caiff swyddog gorfodaeth, er mwyn hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan yr Atodlen hon, ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion electronig, edrych ar y dogfennau hynny neu'r cofnodion electronig hynny a chymryd copïau ohonynt.

(2) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol o dan is-baragraff (1) i berson ddarparu dogfen, cofnod neu wybodaeth arall y gellid maentumio hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn cysylltiad â hi neu ag ef mewn achos cyfreithiol.

Issuing premises improvement and closure notices and terminations

6.—(1) A premises improvement notice, premises closure notice or a termination of either of those types of notice is issued to a person by giving a copy of it in writing to that person.

(2) But where the person responsible for the premises to which the notice or termination relates is not on the premises when it is to be issued, the notice is to be treated as having been issued to that person if—

- (a) a copy of it is given to any other person on the premises who appears to be responsible for any business or service being carried out on the premises, or
- (b) if there is no such person on the premises when the notice is to be issued, a copy of the notice is placed in a conspicuous position on the premises.

Publicising premises improvement and closure notices

7.—(1) This regulation applies where an enforcement officer has issued a premises improvement notice or a premises closure notice.

(2) As soon as reasonably practicable after issuing the notice, the enforcement officer must—

- (a) display a copy of the notice, and a sign in the form set out in Schedule 9, in a prominent place near every entrance to the premises;
- (b) arrange for the notice to be published on the website of the local authority for the area in which the premises are located.

(3) A notice or sign displayed under sub-paragraph (2)(a) must be at least A4 size.

(4) A notice required to be displayed and published under sub-paragraph (2) must continue to be displayed and published, and a sign required to be displayed under that sub-paragraph must continue to be displayed, for as long as the notice has effect.

Production of documents etc.

8.—(1) An enforcement officer may, to facilitate the exercise of a power conferred on the officer by this Schedule, require the production of, inspect and take copies of, any documents or electronic records.




(2) A person may not be required under sub-paragraph (1) to provide a document, record or other information in respect of which a claim for legal professional privilege could be maintained in legal proceedings.

Y ffurf ar arwydd i fynd gyda hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre

Yr arwydd sydd i'w arddangos gyda hysbysiad gwella mangre

1.—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad gwella mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 8 fod ar y ffurf a nodir isod.




(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du ac ambr C0 M60 Y100 K0 yn yr arwydd.

 <p>GIG CYMRU NHS WALES</p>	 <p>DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE</p>	 <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p>
<p style="text-align: center;">IECHYD Y CYHOEDD Y CORONAFEIRWS</p> <p style="text-align: center;">Gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre:</p>	<p style="text-align: center;">PUBLIC HEALTH CORONAVIRUS</p> <p style="text-align: center;">Requirement to minimise risk of exposure to coronavirus on premises:</p>	
<p style="font-size: 2em; margin: 0;">ANGEN GWELLA</p>		
<p style="font-size: 2em; margin: 0;">IMPROVEMENT NEEDED</p>		
<p style="text-align: center;">Diogelu Cymru gyda'n gilydd</p>	<p style="text-align: center;">Together we'll keep Wales safe</p>	
<p><small>©CL Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru WG41123 / Crown copyright 2020, Welsh Government WG41123</small></p>		

Yr arwydd sydd i'w arddangos gyda hysbysiad cau mangre

2.—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad cau mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 8 fod ar y ffurf a nodir isod.

(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du a choch C15 M100 Y100 K0 yn yr arwydd.

 <p>GIG CYMRU NHS WALES</p>	<p>Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>	 <p>DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE</p>	 <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p>
<p>IECHYD Y CYHOEDD Y CORONAFEIRWS</p>		<p>PUBLIC HEALTH CORONAVIRUS</p>	
<p>Gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre:</p>		<p>Requirement to minimise risk of exposure to coronavirus on premises:</p>	
<p>CAEWYD Y FANGRE HON</p>			
<p>PREMISES CLOSED</p>			
<p>Diogelu Cymru gyda'n gilydd</p>		<p>Together we'll keep Wales safe</p>	
<p><small>©L Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru WG41123 / Crown copyright 2020, Welsh Government WG41123</small></p>			

©Hawlfraint y Goron 2021




Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Form of sign to accompany premises improvement notice or premises closure notice

Sign to be displayed with premises improvement notice

1.—(1) A sign displayed with a premises improvement notice under paragraph 7(2)(a) of Schedule 8 must be in the form set out below.


(2) The colours used in the sign must be white, black and amber C0 M60 Y100 K0.

 <p>GIG CYMRU NHS WALES</p> <p>Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>	 <p>DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE</p>	 <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p>
<p style="text-align: center;">IECHYD Y CYHOEDD Y CORONAFeIRWS</p> <p style="text-align: center;">Gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre:</p>	<p style="text-align: center;">PUBLIC HEALTH CORONAVIRUS</p> <p style="text-align: center;">Requirement to minimise risk of exposure to coronavirus on premises:</p>	
<p style="font-size: 2em; margin: 0;">ANGEN GWELLA</p>		
<p style="font-size: 2em; margin: 0;">IMPROVEMENT NEEDED</p>		
<p style="text-align: center;">Diogelu Cymru gyda'n gilydd</p>	<p style="text-align: center;">Together we'll keep Wales safe</p>	
<p><small>©CL Hawlfraint y Goron 2020, Llywodraeth Cymru WG41123 / Crown copyright 2020, Welsh Government WG41123</small></p>		

Sign to be displayed with premises closure notice

2.—(1) A sign displayed with a premises closure notice under paragraph 7(2)(a) of Schedule 8 must be in the form set out below.

(2) The colours used in the sign must be white, black and red C15 M100 Y100 K0.

 <p>GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales</p>	 <p>DIOGELU CYMRU KEEP WALES SAFE</p>	 <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p>
<p>IECHYD Y CYHOEDD Y CORONAFEIRWS</p> <p>Gofyniad i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangre:</p>	<p>PUBLIC HEALTH CORONAVIRUS</p> <p>Requirement to minimise risk of exposure to coronavirus on premises:</p>	
<p>CAEWYD Y FANGRE HON</p>		
<p>PREMISES CLOSED</p>		
<p>Diogelu Cymru gyda'n gilydd</p>	<p>Together we'll keep Wales safe</p>	
<p><small>© Crown copyright 2021. Llywodraeth Cymru WG41123 / Crown copyright 2020, Welsh Government WG41123</small></p>		

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

